

ECO'R WYDDFA

RHIF 328

RHAGFYR 2005

PRIS 40c

Atodiad Cyfarchion Nadolig

hysbysebwy:
LLANBERIS
CWM Y GLO
BRYNREFAIL
DEINIOLEN

Dŵr wedi ei heintio: Trigolion yn dal i ddisgwyl atebion



MAE dirgelwch yn dal i fodoli ynglŷn â pham bod dŵr yr ardal wedi ei heintio a chwestiynau yn cael eu gofyn am y ffordd wnaeth yr awdurdodau ddelio â'r sefyllfa.

Wythnos yn ôl datgelwyd bod swyddogion iechyd yn credu bod haint cryptosporidiosis yn y cyflenwad dŵr – ac erbyn hyn mae dros 100 o bobol wedi cael eu taro'n wael yn barod.

Dydy tarddiad yr haint yn dal heb ei ddarganfod ond mae profion wedi eu gwneud yn Llyn Cwellyn ers i'r achos cyntaf gael ei gadarnhau. Nawr mae cwsmeriaid Dŵr Cymru sy'n cael eu cyflenwad o Lyn Cwellyn wedi eu cynghori i ferwi dŵr neu yfed dŵr potel. Y cyngor diwedddara yw i ferwi'r dŵr – sy'n lladd y parasite sy'n achosi'r salwch – neu yfed dŵr potel, tan Ionawr 9.

Mae hyn yn berthnasol i 70,000 o bobol yng Ngwynedd a Môn – yn cynnwys pentrefi Bethel, Caeathro, Cwm y Glo, Llanrug, Llanberis, Pontrug a Waunfawr.

Ond mae beiriniadaeth ynglŷn â'r ffordd mae'r awdurdodau wedi delio â'r broblem a bod dryswch ynglŷn â be ddylai pobol wneud.

Y cyngor gwreiddiol roddwyd wythnos yn ôl oedd y dylid berwi dŵr tap ar gyfer yr henoed, babanod a phobol gyda imiwnedd isel – ond erbyn hyn mae'r awdurdodau yn dweud y dylai pawb ddilyn y canllawiau hyn. Hefyd mae rhai'n dweud y dylai'r rhybudd fod wedi ei roi ynghynt – ond nid yw'n glir iawn eto pryd yn union yr oedd yr awdurdodau yn ymwybodol o'r haint.

Hefyd, yn wreiddiol doedd Llanberis ddim ar restr Dŵr Cymru o'r pentrefi sy'n cael eu dŵr o gronfa Llyn Cwellyn – ond fe gafodd ei ychwanegu yn ddiweddarach ac mae hyn wedi arwain at ddryswch.

Yn ôl prifathrawes Ysgol Gynradd Waunfawr, mae'r cyngor mae nhw wedi ei gael yn annigonol.

Fe wnaeth yr ysgol benderfynu eu hunain i ferwi dŵr i'r plant cyn i'r cyngor swyddogol gael ei roi yr wythnos yma. Meddai'r brifathrawes, Gwenan Dafydd: 'Roedd aelodau o staff wedi clywed am yr haint ar y radio neu wedi darllen yn y *Daily Post* cyn i ni gael unrhyw ganllaw gan yr awdurdod addysg. Yr unig beth yr ydan ni wedi ei gael ydi e-bost yn rhestru'r holl ardaloedd sydd wedi eu heffeithio, dim byd arall.'

Clefyd sy'n achosi dolur rhydd mewn pobl ac anifeiliaid yw cryptosporidiosis – mae'n cael ei greu gan baraseit

microscopig sy'n gyffredin mewn anifeiliaid fferm ac anwes ac mae'n cael ei drosglwyddo drwy eu tail. Mae'n bodoli hefyd mewn lefelau isel iawn bob amser yn yr amgylchedd, ond mae'r lefelau'n llawer uwch yn y gwanwyn, yn enwedig pan mae glaw trwm yn golchi'r parasite i'r ddaear ac i afonydd a llynnoedd. Mae'r niferoedd o bobl yng Ngwynedd a Môn sy'n diodde o'r clefyd ar hyn o bryd, chwe gwaith yn uwch na'r lefelau arferol am y cyfnod yma o'r flwyddyn. Gall y parasite fod yn y corff am bythefnos cyn i'r symptomau ddod i'r amlwg.

Yn ôl swyddogion iechyd cyhoeddus, mae 110 achos o'r salwch cryptosporidiosis wedi eu cadarnhau yng Ngwynedd ac Ynys Môn hyd yma. Mae hyn yn gynydd o 24 achos ers dydd Llun a dywedodd y swyddogion fod disgwyl cynnydd pellach yn nifer yr achosion.

Cyhoeddodd swyddogion iechyd yn wreiddiol fod 72 o bobl wedi dioddef o'r salwch stumog ers dechrau Hydref ac mae'r ffigwr hwnnw wedi codi bron i 40 mewn wythnos ac mae arbenigwyr yn rhagweld y bydd cynnydd pellach.

Credir i ddau fod yn yr ysbyty ac mae disgwyl mwy o achosion yn ystod y dyddiau nesa. Fe all achosi dolur rhydd a bydd cleifion fel arfer yn gwella o fewn pythefnos.

Mae Dŵr Cymru yn anfon llythyrau i tua 70,000 o gartrefi yn yr ardal sy'n derbyn eu dŵr o Lyn Cwellyn, er ei fod y dweud nad oes olion o'r haint wedi ei ddarganfod yno eto.

Dywedodd arbenigwyr iechyd cyhoeddus y dylai'r haint ddiflannu maes o law ond os nad yw hynny wedi digwydd erbyn dechrau Ionawr y bydd y cyngor i ferwi dŵr yn cael ei ymestyn.

Mae'r Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol yng Nghymru wedi agor llinell gymorth sydd ar agor rhwng 9.00 a 6.00 o'r gloch – y rhif yw 0845 8509850.

Y rhest gyflawn o'r pentrefi sy'n cael eu cyflenwad dŵr o Lyn Cwellyn yw Bangor, Biwmares, Beddgelert, Bethania, Bethel, Betws Garmon, Bontnewydd, Caeathro, Caernarfon, Carmel, Ceint, Cwm-y-glo, Dinas, Ffridd Uchaf, Y Gaerwen, Y Groeslon, Llanberis, Llanddaniel, Llandegfan, Llandwrog, Llandygai, Llanfaes, Llanfaglan, Llanfairpwll, Llangoed, Llanrug, Llanwnda, Porthaethwy, Nantmor, Penmynydd, Pen-y-ffridd, Plas Gwynant, Pont Aberglaslyn, Pontrug, Rhosgadfan, Rhostryfan, Rhyd Ddu, Seion, Y Faenol, Waunfawr, Y Felinelli. Os am fwy o wybodaeth neu am gael gwybodaeth am eich ardal chi – ffoniwch y llinell gymorth.

ECO'R WYDDFA

RHIF 328
RHAGFYR 2005

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cydnabyddir cefnogaeth
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
i'r cyhoeddiad hwn.

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Tim Golygyddol

d/o PALAS PRINT
7B STRYD PLAS
CAERNARFON
Ffôn/Ffacs (01286) 674631
eco@palasprint.com

Eirian James (01286) 674631
Bryn Jones (01286) 674405
Llinos Jones (01286) 871820
Sion Williams (01286) 871858
Alun Ellis (01286) 650761

CADEIRYDD Y PWYLLGOR GWAITH

Arwel Jones

GOLYGYDD CHWARAEON
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

FFOTOGRAFFWR
Gwyndaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (677263)

TREFNYDD HYSBYSEBION
John Roberts, Bedw Gwynion, Ffordd
Glanffynnon, Llanrug (675605)
e-bost: johnroberts@prj.wales.com

TREFNYDD ARIANNOL
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST
Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD PLYGU
Shioned Griffith (650570)

GOHEBWYR PENTREFI

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(01248) 670726

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-
Williams, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Clive James, Hafan, Bryn
Gwna (677438)

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

DEINIOLLEN: Mrs Margaret Cynfi Griffith,
(870394)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion Roberts,
Sŵn-y-Gwynt (870740)

LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn
(675384)

NANT PERIS: Llinos Jones, 6 Nant
Flynnon (871820)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans, Sycharth
(872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry,
Ael-y-Bryn (872276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts, Pantafon,
Waunfawr (650570)

Cefnogwch
ein Hysbysebwyrr

Y RHIFYN NESAF
Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol
NOS LUN, 6 RHAGFYR
Os gwelwch yn dda
Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU, 19 RHAGFYR

Llythyrâu

Canolfan Mercator

Y Buarth

Aberystwyth SY23 1NN

Annwyl Olygydd a Darllenwyr,
Anrheg Nadolig i Gymru!

Mae'n siŵr bod darllenwyr *Eco'r Wyddfa* wedi clywed am y fenter i sefydlu Y BYD, y papur dyddiol cyntaf erioed yn Gymraeg. Carwn ddiolch i bob un sydd eisoes wedi cefnogi neu fuddsoddi. Mae'r fenter hanesyddol, arloesol hon yn dibynnu ar gefnogaeth pobl Cymru.

Ond pryd y gwelwn ni gopi cynta'r papur? Pan ddaw'r arian! Rydym wrthi'n mynd ar ôl arian masnachol a chyhoeddus, ond er mwyn cadw'r rheolaeth yn nwylo pobl Cymru, mae'n angenrheidiol, bod o leiaf £300,000 o gyfranddaliadau yn cael eu prynu gan bobl sy'n credu yn egwyddorion sylfaenol y fenter.

Y newyddion gwyh yw ein bod ni, drwy gefnogaeth pobl ar hyd a lled Cymru a thu hwnt, wedi cyrraedd dros 90% o'r ffordd tuag at y nod hwn. Dim ond 36 o gyfranddaliadau £500 sydd angen eu gwerthu eto (neu ddeunaw o rai £1,000).

Felly, a gaf fi annog unrhyw un sydd yn meddwl ei bod hi'n hen bryd i ni gael ein papur dyddiol ein hunain, i ymuno cyn gynted â phosib â'r Clwb Cefnogwyr (£25) ac i ofyn am fanylion buddosddi.

Beth am brynu anrheg Nadolig i Gymru! Fedrwn chi feddwl am un gwell na phapur dyddiol difyr a safonol yn ein hiaith ein hunain? Gyda hyder a ffydd, fe allwn, gyda'n gilydd, wireddu'r freuddwyd hon.

Gyda phob dymuniad da,

Ned Thomas
Cadeirydd, Dyddiol Cyf
(01970) 621998
e-bost: neges@ybyd.com

Dalar Deg
Llanrug

Annwyl Olygydd

Yr oedd yn ddiddorol iawn i mi ddarllen yn 'Chwilota' yn yr *Eco*, am arddwr Plas Tirion. Yr wyf yn ei gofio'n iawn, ond yn byw yn y Plas. Mae'n rhaid mai edrychar ôl y Plas yr oedd nes i rywun ei brynu a'r ardd.

Roedd fy nhad, a fu'n arddwr mewn plas ym Mhenybryn, Caernarfon, yn ffrindiau mawr ag o ac fe fûm innau'n ffrindiau â'i ferch, Katherine, sydd yn y llun, yn Ysgol yr Eglwys, Glanmoelyn. Collais gysylltiad â Katie Plas ar ôl i mi fynd i Ysgol Brynrefail - lle mae hi tybed? Cofiaf enw Esther Lee os oedd yn gysylltiedig.

Gwnaeth Dafydd Whiteside ymchwil abrennig o drwyadl. Yn gywir
Mrs G.M. Jones

Gwlad yr Iâ
SAN TAI

Annwyl blant y fro,
Dyma newyddion da o lawenydd mawr i chi!

Er bod yr amser yma o'r flwyddyn yn gyfnod prysur iawn arna i, mi fyddwch yn falch iawn o glywed y byddaf eto eleni yn ymuno â Groto Planed Plant Bach.

Ydi, mae Groto Planed Plant Bach S4C ar daith ar hyd a lled Cymru wrth i'r Nadolig agosáu gan ymweld â Chaernarfon ar ddydd Sul, 18fed o Ragfyr.

Bydd ymweliad â'r groto yn brofiad llawn hud a lledrith y Nadolig. Bydd cyfle i chi gwrdd â rhai o aelodau teulu'r Meees ac i ddweud helô wrth rai o gymeriadau Planed Plant Bach fel Sali Mali, Sam Tân a SuperTed.

Mi fydda' inna' hefyd yn galw heibio'r groto i roi anrheg arbennig i chi gan fy mod wedi clywed fod plant yr ardal wedi bod yn blant da a chwrtais iawn gydol y flwyddyn.

A thra bydd mam a dad yn disgwyl amdanoch bydd cyfle iddyn nhw wneud ychydig o siopa Nadolig yn Siop S4C a fydd yn gwerthu CD's, DVD's casetiau a fideos.

Cofion cynnes,
Siôn Corn

Manylion:

• Dydd Sul, 18ed o Ragfyr bydd y groto ar Faes Caernarfon.

• Amseroedd agor: 11.00am gyda'r sioe olaf am 5.00pm

• Bydd pris mynediad o £2.00 i bob plentyn a bydd system o archebu tocynnau ymlaen llaw drwy ffonio Gwifren Gwylwyr S4C ar 0870 600 4141 (cost galwad cenedlaethol).

• Am fwy o fanylion am y daith ewch i'r wefan - s4c.co.uk/groto.

5 Tai Cae Rhos
Llanddeiniolen

Annwyl Olygydd

Ysgrifennaf i hybu'r Refferendwm Neges Destun ar Senedd i Gymru sydd wedi'i sefydlu gan Cymru X - Plaid Cymru Ifanc. Mae'r ymgyrch yn bwriadu teithio ar hyd a lled Cymru, gan annog pobl i bleidleisio trwy decstio naill ai **Cymru Ie** neu **Cymru Na** i 83010.

Y mae'r ymgyrch hon wedi'i lansio oherwydd ein bod yn ceisio annog pobl Cymru i feddwl am y materion sy'n ymwneud â Senedd i Gymru, ac wedyn i ddatblygu barn y mater hynod o bwysig hwn. Trwy lansio Refferendwm Neges Destun - ffordd newydd ac arloesol o ymgyrchu'n wleidyddol - rydym yn ceisio moderneiddio gwleidyddiaeth a dangos ei fod ar gael i bawb. Rydym am annog pobl ifanc a phobl nad ydynt, efallai, wedi pleidleisio erioed o'r blaen, i gymryd rhan a chael llais.

Rydym wedi lansio'r ymgyrch ledled y wlad, o Gaerdydd i Gaerfyrddin, i Ferthyr Tudful, i

Gaernarfon a Wrecsam, a rwan rydym yn bwriadu cysylltu â phobl ar y strydoedd, mewn digwyddiadau cymdeithasol, digwyddiadau lleol ac mewn gemau rygbi a phêl-droed, wrth gwrs!

Rydym yn gobeithio apelio at ystod eang o bobl yn y gymdeithas wrth redeg yr ymgyrch hon, ynghyd ag ennyn diddordeb trawsbleidiol yn yr ymgyrch.

Mae Senedd i Gymru wedi bod ar yr agenda wleidyddol yn ddiweddar gyda adroddiad Comisiwn Richard ac yng ngolwg rhyddhau drafft terfynol ym mis Rhagfyr o adroddiad Llywodraeth Cynulliad Cymru ar bwerau'r Cynulliad Cenedlaethol yn y dyfodol, 'Trefn Lywodraethu Well i Gymru'.

Y mae felly yn bwysig ein bod yn cyfathrebu'r materion sy'n ymwneud â Senedd i Gymru o bobl Cymru a sicrhau y gallant gymryd rhan mewn penderfynu'r hyn sydd orau i Gymru'r dyfodol.

Cofion,

Geraint Edwards
Cymru

CYFARCHION NADOLIG

Mae lolo ac Olwen Llywelyn, Pantafon Bach, Llanrug, yn dymuno Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda i'w cyfeillion i gyd, gan na fyddant yn gallu anfon cardiau unigol allan eleni.

Mae'n rhaid i mi siarad
hefo rhywun

Y SAMARIAID
Bangor
(01248) 354646

Pa un o'r rhain sydd
bwysicaf?

YSWIRIO EICH TŶ
(i arbed colled i chi);

YSWIRIO EICH CAR
(i arbed colled i chi); neu

YSWIRIO EICH BYWYD
(i arbed colled i'ch teulu)


Cysylltwch â'r isod i weld mor rhad yw cost yswiriant gyda **CDH**

Andre (Bethel/Llanberis)
Bryn (Môn)

Euryn (Caernarfon a'r cylch)
John Eifion (Penisarwaun)

CDH

Ymgynghorwyr Ariannol
Annibynnol Lleol (sefydlwyd 1974)
Ffôn: (01248) 355055



Pobl Llanrug yn Helpu Apêl Pendalar

Wendy Jones o Penbont yn cyflwyno sic am £1,241 i Ieuan Roberts, Prifathro Ysgol Pendalar, ynghyd â dau ddisgybl o'r ysgol, Dion Bryn Evans o Lanrug a Drew Radnor o Gwm-y-glo. Shaun Thomas ddechreuodd y casglu drwy shafio'i wallt.

Hefyd mae criw Glyntwrog yn brysur yn casglu arian ac yn barod

wedi rhoi £2,297 tuag at yr Apêl. Casglwyd yr arian drwy gynnal noson gwis bob nos Iau, raffl Nadolig a gwerthu 'breichledi' yr ysgol. Yn fuan bydd cystadleuaeth pŵl yn cychwyn. Os oes gan unrhyw un ddiddordeb mewn cymryd rhan yna cysylltwch â'r staff yn Glyntwrog.

MYNYDD GWEFRU

Pnawn Sul, 11 Rhagfyr am 2.00 o'r gloch

Cynhelir Cyngerdd Nadolig yng nghwmni Côr Meibion Peris a Seindorf Arian Deiniolen

Dewch yn llw i dreulio awr ddifyr.

Nid oes tâl mynediad ond fe wneir casgliad at gronfa 'Diabetes Endowment Fund Ysbyty Gwynedd Bangor'.

'Dyn gwrol a dewin geiriau'

Llinell agoriadol un o'r niferoedd o englynion teyrnged a gyhoeddir mewn cyfrol arbennig i gofio am R. E. Jones, *Llangernyw, Llanrwst a Chymru*. Cyfrol a ddylai fod o ddiddordeb i liaws o drigolion y fro hon oherwydd i R.E. dreulio pymtheng mlynedd yn brifathro ar Ysgol Dolbadarn, Llanberis. Ond mae'n gyfrol sy'n werth ei darllen hefyd oherwydd y cysylltiadau tu hwnt i ffiniau'r brodydd y bu R.E. yn byw ac yn gweithio ynddynt, sef Cymru gyfan.

Mae'r gyfrol wedi ei seilio ar ddarlith gyhoeddus a gyhoeddwyd gan Wasanaeth Llyfrgell Gwynedd - "O Lan i Lan" - ond a oedd yn hepgor dwy adran gyntaf y ddarlith. Mae'r cyfan - a mwy - wedi eu cynnwys yn y gyfrol dyrnged.

Ynddi ceir hanes y dyddiau cynnar yn Llangernyw a'r symud i ysgol Llanrwst. Gan R.E. ei hun y ceir ei atgofion am y cyfnod pan fu'n cyfrannu'n gyson i raglenni cynnar Cymraeg y BBC, dan arweiniad Sam Jones.

Mae ei ymlyniad i Gymreictod a chenedlaetholdeb hefyd yn cael sylw, gan ddyfynnu o atgofion J. E. Jones amdano, a hanes ei ran yn Antur Tŵr yr Eryr, a arweiniodd maes o law at gael chwifio baner y

Ddraig Goch yn swyddogol oddi ar adeiladau cyhoeddus yng Nghymru. Ceir hefyd ei hanes yn sefydlu Ymryson y Beirdd yn yr Eisteddfod Genedlaethol; cystadleuaeth sydd wedi mynd o nerth i nerth ers y dyddiau cynnar rheini yn 1951.

Mae'r gyfrol hefyd yn cynnwys nifer helaeth o luniau, rhai o englynion a limrigau R.E. ei hun, a nifer o deyrngedau'r beirdd i un a fu'n cynnal y diwylliant barddol.

Casglwyd y cyfan at ei gilydd a'u cyhoeddi gan Wasg Carreg Gwalch, Llanrwst, ac y mae ar werth yn eich siopau lleol am £6.50.



Corcyn Heddwch

Dyna deitl nofel gyntaf Beca Brown, sydd â chysylltiadau agos iawn â bro'r *Eco*, gan iddi gael ei magu yn y Waunfawr, ond sydd bellach yn byw'n Llanrug. 'Dummy' neu deth-gysur sydd dan sylw, ond mae heddwch a chysur ymhell iawn o fywyd Leri Ellis yn dilyn genedigaeth ei merch fach, Anni. Leri Ellis sy'n adrodd y stori, ac mae'n siarad efo'r darlennydd mewn iaith lafar, felly peidiwch â disgwyl iaith lenyddol gaboledig yn y gyfrol hon. Ond wedi dweud hynny, mae'r darllen yn llyfn ac yn rhwydd; yn llawn dywediadau bachog a deialog crafog.

Perthyn i 'genre' y 'chick-flick' mae'r gyfrol, ac yn debygol o apelio at ferched (fengach na

chanol oed ddywedwn i!) Mae Leri yn briod â Dilwyn (Dils), ac ar ddychwelyd i'w gwaith, a gorfod wynebu rhoi Anni mewn gofal yn ystod y dydd: teimlad y gall llawer o famau ifanc heddiw gydymdeimlo â hi. Yn y gwaith mae'n cyfarfod Aron, ffotograffydd 'gôjys'. Pa mor gôjys ydi Aron? Fydd pethau'n detblygu rhwng Leri a'i chydweithiwr newydd? A beth fydd ymateb ei theulu i'r berthynas? Does fiw gadael y gath o'r cwd, felly prynwch a darllenwch y gyfrol i'w mwynhau dros y gwyliau.

A gyda llaw, un cais bach gan Daid Canol Oed. Ydi Nain Thailand yn boncyrs go iawn? Mae angen mwy o hanes y nain ryfeddol hon. Nofel arall tybed.



I drin a thrwsio pob math o beiriannau gwnïo
MENAI SEWING MACHINE CENTRE

21 Stryd Fawr
PORTHAETHWY

Ffôn: (01248) 714043

neu Caernarfon

Ffôn: (01286) 674520

Edau, Nodwyddau
ac ati mewn stoc

BRYSIWCH!

Archebwch eich
TWRCI NADOLIG
a'ch CYW IÂR
a CHIGOEDD
ERAILL
RŴAN



oddi wrth

**Wavell
Roberts
CIGYDD**

LONDON HOUSE
LLANRUG

Ffôn:

Caernarfon 673574

PEN CIGYDD Y FRO
MYNNWCH Y GORAU
A DEWCH ATOM NI

Am anrhegion y Nadolig dowch i
Siop Nwyddau Tŷ a Gardd

FORMAG



41A Stryd Fawr
Llanberis 872501

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i
chwi oll oddi wrth

Ifor a Margaret



Diolch am eich cefnogaeth
trwy gydol y flwyddyn



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
i bawb oddi wrth

H.E. HUGHES
A'I FEIBION

Bwthyn Gadlys

LLANBERIS

Ffôn: 870444



★ Gwerthwr Glo

★ Olew Gwres Canolog

i'ch cadw'n gynnes ac yn glyd!



Cyfarchion Nadolig
LLANBERIS

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth bawb yn

Sychlanhau • Altro

Ailwnio

Gwasanaeth
Casglu a Danfon

54 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: **870088**

SWIGOD A SEBON



GWASANAETH GOLCHI A SMWDDIO

Fframia

GWASANAETH FFRAMIO LLUNIAU

Arbenigwyr ar fframio gwaith edau a nodwydd

Nifer helaeth o luniau ar werth

Dewis eang yn cynnwys:

WILLIAM SELWYN :: KEITH ANDREW

KEITH BOWEN :: ROB PIERCY

PARC PADARN, LLANBERIS (870922)

(Ar gau dydd Sul a dydd Llun yn ystod y gaeaf)

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I BAWB

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
i bawb yn Llanberis a'r cylch oddi wrth



E. W. Pritchard
62 Stryd Fawr
Llanberis

Ffôn: 870202

TREFNWYR ANGLADDAU

CEIR AR GYFER PRIODASAU

NWYDDAU GROSER

LLYSIAU • FFRWYTHAU • BWYDYDD
AC ANGHENION ANIFEILIAID ANWES

GARTH MAELOG

51 Stryd Fawr, Llanberis



Ffôn: 870840



*Nadolig Llawen a Blwyddyn
Newydd Dda oddi wrth Jill a Peter*

Bistro
LLANBERIS
Ffôn: 871278

www.ybistro.co.uk

PERCHNOGION : DANNY A NERYS ROBERTS

*Nadolig Llawen a Blwyddyn
Newydd Dda i holl ddarllenwyr
yr Eco*

Gwesty

Dolbadarn

LLANBERIS Ffôn: 870277



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda oddi wrth Aneuryn a'r staff

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt. Ffôn: 870740

Camera yn ngofal John Pritchard, Cilfynydd, Llanberis. Ffôn: 872390

MYNYDD GWEFRU. Pnawn Sul, 11 Rhagfyr am 2.00 o'r gloch cynhelir Cyngerdd Nadolig yng nghwmni Côr Meibion Peris a Seindorf Arian Deiniolen. Dewch yn llw i dreulio awr ddiffr. Nid oes tâl mynediad ond fe wneir casgliad at gronfa 'Diabetes Endowment Fund Ysbyty Gwynedd Bangor'.

DOSBARTH CYNGANEDDU

Bwriedir dechrau dosbarth cynghaneddu ym Methel wedi'r Nadolig. Y tiwtor fydd y bardd amryddawn, Karen Owen, sydd wedi bod mor agos i gipio y Gadair a'r Goron mewn Eisteddfodau Cenedlaethol yn ddiweddar. Hi hefyd yw Golygydd y cylchgrawn *Golwg*. Bydd y sesiynau dwy awr yn agored i bob haen o 'feirdd' o'r profiadol i'r 'dechreuwyd'. Y mae cryn ddiddordeb yn cael ei ddangos yn y fath grwpiau ledled Cymru ar hyn o bryd. Os oes gennych ddiddordeb - yn hen neu ifanc - mewn ymuno â'r grwp cysylltwch â Richard Llwyd (670115).

DYMUNA A. Wilson Evans (Nan-Nan), Manod, Ffordd Capel Coch, gyfarchion tymor y Nadolig i'w pherthnasau a'i chyfeillion. Ni fydd yn anfon dymuniadau personol eleni.

CÔR MEIBION. Mae Tachwedd yn debygol o fod y mis prysuraf erioed o ran galwadau i'r Côr. Erbyn diwedd y mis byddwn wedi cynnal neu gymryd rhan mewn pedwar cyngerdd.

Ar nos Wener, y 4ydd, roedd y Côr yn cynnal noson o adloniant yng Nghlwb Mountain Rangers, Rhosgadfan. Yn rhannu llwyfan â'r Côr yr oedd y digrifwr enwog o Ddinbych, Glyn Owens. Cafodd y gynulleidfa noson arbennig gyda'r Côr yn ystod ac wedi'r cyngerdd, ac wrth wrando ar storïau'r digrifwr medrus. Codwyd dros £500 at Ysgol Pendalar yn ystod y noson.

Roedd taith o dair awr o'n blaen ar nos Sadwrn, y 12fed. Cyngerdd oedd gennym yn Neuadd Bentref Newcastle-Alun, sydd rhyw ugain milltir i'r de o'r Amwythig a thua 6 milltir tros y ffin o Gymru. Cawsom groeso cynnes yn ystod ac wedi'r cyngerdd gyda rhyw hanner dwsin o Gymry Cymraeg oedd yn bresennol yn manteisio ar y cyfle i siarad Cymraeg hefo aelodau'r Côr.

Y Victoria, Llanberis, oedd y man cyfarfod ar nos Fercher, yr 16eg, gyda'r Côr yn diddori cynulleidfa o ymwelwyr oedd ar wyliau 'Twrci a Tinsel', ble mae gwahanol ddiwrnod o'u gwyliau yn cynrychioli unai Diwrnod Nadolig, Gŵyl San Steffan neu Noson y Flwyddyn Newydd.

Erbyn y daw'r rhifyn hwn o'r wasg byddwn wedi cymryd rhan yn ein pedwerydd cyngerdd - sef noson gyda Annette Bryn Parri a'i ffrindiau yn yr Oriel, Llanberis, ar nos Sadwrn, y 26ain.

CYMDEITHAS YR EGLWYS.

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Gymdeithas ar nos lau, 3 Tachwedd. Criw reit dda o'r selogion wedi mentro ar noson wlyb iawn. Cymerwyd y rhan dechreuol gan Ralph Jones a chyflwynodd Anne y siaradwraig, sef Gwyneth Parry yn sôn am ei thaith i Rwsia yn ystod yr haf gyda chriw o ffrindiau at drip wedi ei drefnu gan Mr Arfon Jones. Sgwrs ddiffr iawn ac hefyd llawer iawn o luniau o'r wlad.

Talwyd diolchiadau i Gwyneth ac hefyd i Moreen a Dilys am y baned a'r raffl, a'r enillydd lwcus oedd Betty Humphreys. Y mis nesaf bydd Cinio Nadolig yn y Bistro.

CYMDEITHAS LENYDDOL. Nos Fawrth, 1 Tachwedd, aeth aelodau o'r Gymdeithas i Oriel Conwy i weld arddangosfa 'Y Deyrnas Fewnol' gan y cerflunydd John Meirion Morris, a chael hanes ei yrfa a'i waith.

Mae Mr Morris yn un o gerflunwyr mwyaf dylanwadol Cymru ac mae ei waith yn bwerus a grymus. Mae yn draddodiaol ond yn ddadlenol. Diolch i Mr Morris am noson ddiddorol.

Sylwer bydd y cyfarfod nesaf yn agored i bawb - ar nos lau, 8 Rhagfyr am 7 o'r gloch yn Festri Capel Coch. Bydd yn noson o ganu Carolau yng nghwmni Côr Lleisiau Lliwedd. Dewch yn llw i ganu a dathlu Gŵyl y Geni. Gweinyddir paned a mins pei. Bydd casgliad ar y noson at achos da, fe'i dadlennir ar y noson.

LLONGYFARCHIADAU i David Forrester-Addie, gynt o Hyfrydle, Warden Street, ar gael ei gomisiynu i radd Capten yn y fyddin. Mae yn gwasanaethu gyda R.E.M.E. yn Larkhill, Wiltshire, ac wedi cartrefu yn Yeovil, Gwlad yr Haf. Pob dymuniad da iddo am y dyfodol.

YSGOL DOLBADARN Cynhaliwyd ein Gwasanaeth Diolchgarwch blynyddol yn yr Eglwys a gwahoddwyd rhieni a chyfeillion yno. Daeth y plant â ffrwyth bob un i'r ysgol ac fe aeth rhai o'r plant hynaf â'r rhoddion hyn i gartrefi Plas Pen Gwaith a Plas Garnedd, ble cawsant groeso mawr gan y trigolion.

Cymerodd nifer dda o blant ran yn y Fordaith Ddarllen a drefnwyd gan y Llyfrgell dros yr haf. Gan iddynt ymweld â'r Llyfrgell yn rheoliadd a chasglu sticeri wrth fenthyg llyfrau enillodd y plant fedal.

Bu'r plant hynaf yn cymeryd rhan yn nhwrnament Rygbi'r Ddraig efo ysgolion eraill o'r Dalgylch a mwynhau'r profiad yn fawr. Bu nifer yn llwyddiannus hefyd yn y ras i blant yn ystod diwrnod marathon Eryri.

Anfonwn ein cofion cywiraf at Owain Fineron, disgybl Blwyddyn 6, a'r teulu i gyd, yn dilyn marolaeth ei Fam yr wythnos ddiwethaf. 'Cledd â min yw

claddu mam'.

Cynhelir Ffair Nadolig yr ysgol nos lau, 1 Chwefror o 5.30 i 7 o'r gloch. Dewch draw i gefnogi'r ysgol ac i weld Siôn Corn.

Taith Morbegno

Ar drothwy hanner tymor cafodd pedwar o athrawon yr ysgol ymuno â'r garfan o bobl Llanberis a rhedwyr oedd yn ymweld â'r efeilldre yng ngogledd yr Eidal ar gyfer y ras flynyddol. Pwrpas yr ymweliad oedd cryfhau'r cysylltiadau rhwng ysgolion Llanberis a Morbegno, ac yn arbennig felly Ysgol G F Damiani yn y dref, gyda'r nod o warchod y gefeillio i'r dyfodol.

Lleolir Ysgol Damiani, sydd wedi ei henwi ar ôl bardd lleol, yn rhan fwyaf newydd y dref ac mae'r adeilad yn fodern a helaeth. Mae'n darparu addysg i rhyw 250 o blant 6 i 11 oed ac mae ysgol 'feithrin' y drws nesaf ar gyfer plant iau.

Yn ogystal â dangos ffilmiau o'r ysgol a'r ardal i'r disgyblion, buom yn dysgu rhigymau a rhifo yn y Gymraeg i'r plant ac yn gwneud gweithgareddau cymharu tair iaith: Eidaleg, Cymraeg a Saesneg, efo'r disgyblion hynaf. Roedd yna sawl tebygrwydd rhwng y Gymraeg a'r Eidaleg. Cawsom groeso arbennig yno gan y staff a'r disgyblion ac roeddym yn

ffodus bod un neu ddwy o athrawesau'r ysgol yn gallu cyfieithu'n hyderus.

Afraid yw dweud bod plant y ddwy wlad yn debyg o ran eu hymateb a'u chwilfrydedd. Roeddynt yn holi llawer am fywyd plant yn Llanberis a Chymru ac wedi sylwi ar lawer o bethau tebyg a phethau gwahanol wrth wyllo'r ffilmiau. Roeddynt yn amlwg wedi cael eu paratoi ar gyfer ein hymwelaid a rhoddwyd cyhoedduswydd i'r ymweliad yn y papurau ac ar y teledu!

O ran cynnwys mae cwricwlwm plant yr Eidal yn eithaf tebyg yn y cynradd i gwricwlwm Cymru ond mae'r modd y caiff ei gyflwyno yn llawer mwy ffurfiol. Tra bod yr adeiladau yn Morbegno yn helaeth ac mewn cyflwr da, a mwy o athrawon ar lawr dosbarth, ychydig o adnoddau ymarferol a llyfrau oedd i'w gweld. Bydd y plant yn mynd i'r ysgol erbyn deg munud wedi wyth chwe bore'r wythnos ac mae rhai disgyblion yn yr ysgol ar rai prynhawniau; sy'n rhoi rhwng 30 a 37 awr o ysgol.

Mae Pennaeth yr ysgol yn bennaeth hefyd ar yr ysgol 'feithrin' drws nesaf a dwy ysgol lai yn y pentrefi cyfagos. Mae iddi hi gymeryd gwers mewn dosbarth yn beth anghyffredin



Y Fordaith Darllen.



Taith yr ysgol i Morbegno.

(Parhad ar dudalen 7)



- ★ Priodasau ★ Dathliadau
- ★ Achlysuron Arbennig
- ★ Cynadleddau ★ Pwyllgorau
- ★ Bwydlen Bar ★ Cinio Dydd Sul



ROYAL VICTORIA HOTEL LLANBERIS




Ffôn: 870253
(Quality Hotel Snowdonia)

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda
oddi wrth bawb yn y gwesty.
Diolch am eich cefnogaeth trwy'r flwyddyn.

wrth droed yr Wyddfa

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth bawb
yn Rheilffordd yr Wyddfa



Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth Sue Lowe

**odyn
copr**

66 Stryd Fawr
Llanberis

am lyfrau ac
anrhegion
Nadolig

Ffôn: 01286 871366

**CELF Y
COPÄON**
MOUNTAIN ART

STRYD FAWR
LLANBERIS 870925

Safle Gwe:
www.mountainart.co.uk
e-bost:
ginger@mountainart.co.uk

- ★ Am luniau mynyddoedd
- ★ Peintiadau
- ★ Printiadau



Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd
Dda i Bawb

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth bawb yng...

NGWESTY
PADARN LAKE



HOTEL
LLANBERIS



Ffôn 870260

Am groeso cynnes iawn
drwy gydol y flwyddyn...
galwch heibio



CYFARCHION
NADOLIG
LLANBERIS

Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

GwalltGo

Stryd Goodman, Llanberis
(Tu ôl i'r Bistro)

Siop trin gwallt
Merched, Dynion
a Phlant

Cysylltwch â Dilys neu Ffôn
01286 872414

Oriau agor:
Mawrth - Iau: 9am - 5.30pm
Gwener: 9am - 7.30pm
Sadwrn: 9am - 4pm

- Papurau Newydd
- Bwyd a Diod
- 'Off Licence'
- Roliau a brechdanau
poeth *Bake'n Bite*
- DVD's a Fideo
- Ar agor Llun - Sadwrn
7am - 10pm bob dydd
Sul 8 - 10

Stryd Fawr Llanberis
(01286) 870434

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb oddi wrth
berchnogion a phawb yn Siop

Costcutter
LLANBERIS

Edrychwn ymlaen at eich gwasanaethu drwy gydol 2006

(Parhad o dudalen 5)

iawn ac roedd ganddi dair ysgrifenyddes! Tua deunaw awr o amser cyswllt sydd gan athrawon ond gan fod gormod o athrawon yn y wlad mae'r cyflogau yn gymharol isel – yn arbennig o weld prisiau'r dillad a'r esgidiau yn y siopau!

Rydym yn gobeithio gallu estyn yr un croeso i athrawon o'r Eidal yn ystod 2006.

CAPEL COCH A NANT PADARN. Cynhaliwyd ein hoedfaon Diolchgarwch yn hwyrach nag arfer eleni. Nos Sul, Hydref 30, cafwyd Cyfarfod Gweddi a chymerwyd rhan gan Mrs Vera Griffiths, Mr Edwyn Roberts, Mrs Bethan Holding, Mrs Falmi Pritchard a Mr Cledwyn Roberts. Fore Sul, Tachwedd 6, cynhaliwyd gwasanaeth plant yr Ysgol Sul, ac roedd yn braf gweld dros ddeugain ohonynt yn cymryd rhan yn yr oedfa. Diolch unwaith eto i'r athrawon am eu holl waith ar gyfer yr oedfa ac am eu gwaith yn yr Ysgol Sul o wythnos i wythnos. Buan iawn y daw'r Nadolig a'i brysurdeb. Cynhelir Gwasanaeth Nadolig y plant am 2.00 o'r gloch ddydd Sul, Rhagfyr 18; a bydd y Parti Nadolig nos Fawrth, Rhagfyr 20.

CYDYMDEIMLWN â theulu Mr Cledwyn Parry, Glyder, Ffordd Capel Coch, a fu farw ddydd Mawrth, Hydref 18, yn 84 mlwydd oed. Am flynyddoedd bu'n cadw'r siop ffrwythau yng nghanol y pentref, a rhoes wasanaeth gwerthfawr i Lanberis ac i'r pentrefi cyfagos. Roedd yn wr annwyl a hwyliog, ac yn gymydog a ffrind da i lawer. Bu'n eithriadol o ffyddlon i'w eglwys, yng nghapel Preswylfa i ddechrau ac yna yn Capel Coch wedi i'r eglwys ymuno â'i gilydd. Roedd yn flaenor ers 1970, a chymerai holl gyfrifoldebau'r gwaith o ddifrif. Bu hefyd yn trefnu pregethwyr y Sul ers dros 40 o flynyddoedd. Golygai hynny waith mawr, ond yr oedd wrth ei fodd yn ei wneud. Byddai ym mhob oedfa yn ddiffael, a bu'n hynod o ffyddlon hefyd i holl gyfarfodydd eraill yr eglwys ac i bob gweithgaredd a gynhelid ar y cyd ag eglwys eraill. Byddai bob amser yn gwneud yr hyn allai er mwyn yr eglwys, yn cynnwys cymryd rhan yn yr oedfaon ac ymweld â'r aelodau na allai ddod i'r capel. Gwnai bopeth heb oedi a chyda brwdfrydedd mawr. Bu'n gefnogol hefyd i gymdeithasau a gweithgareddau eraill yn y pentref. Gwelai werth mawr mewn pob math o weithgarwch oedd yn cyfrannu at greu cymdeithas dda a gwâr. A thrwy'r cyfan, mwynhai'r gwmniaeth a'r cydweithio o fewn y capel a'r pentref. Byddwn yn gweld ei eisiau yn fawr iawn.

Cydymdeimlwn ag Eleri a Tony; Valerie, Colin, Llifon a Sara; a'r holl deulu yn eu colled fawr. Cynhaliwyd ei angladd yn Capel Coch ddydd Sadwrn, Hydref 22, a chymerwyd rhan gan ei weinidog, y Parchg John Pritchard; y Parchg John Owen, Rhuthun; a'r Parchg Huw Gwynfa Roberts, Llanwnda.

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

MYNYDD GWEFRU. Pnawn Sul, 11 Rhagfyr am 2.00 o'r gloch cynhelir Cyngerdd Nadolig yng nghwmni Côr Meibion Peris a Seindorf Arian Deiniolen. Nid oes yn llw i dreulio awr ddifyr. Dewch tâl mynediad ond fe wneir casgliad at gronfa 'Diabetes Endowment Fund Ysbyty Gwynedd Bangor'.
DOSBARTH CYNGANEDDU Bwriedir dechrau dosbarth cynghaneddu ym Methel wedi'r Nadolig. Y tiwtor fydd y bardd amryddawn, Karen Owen, sydd wedi bod mor agos i gipio y Gadair a'r Goron mewn Eisteddfodau Cenedlaethol yn ddiweddar. Hi hefyd yw Golygydd y cylchgrawn *Golwg*. Bydd y sesiynau dwy awr yn agored i bob haen o 'feirdd' o'r profiadol i'r 'dechreuwyd'. Y mae cryn ddiddordeb yn cael ei ddangos yn y fath grwpiau ledled Cymru ar hyn o bryd. Os oes gennych ddiddordeb – yn hen neu ifanc – mewn ymuno â'r grwp cysylltwch â Richard Llwyd (670115).

DIOLCH. Dymuna John Maldwyn a Mair, Tan-y-Buarth, ddiolch i'w ffrindiau a chymdogion ym Methel a Deiniolen am y rhoddion, cardiau a galwadau ffôn gyda'u cydymdeimlad ar farwolaeth ei frawd.

DIOLCH. Dymuna Gwyneth Williams, Llain yr Ardd, ddiolch i bawb a fu mewn cysylltiad â hi yn dilyn ei thriniaeth yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar. Yr oedd yr ymweliadau, galwadau ffôn a'r cardiau gan deulu, ffrindiau, cymdogion a chydabod yn dderbyniol dros ben. Diolch hefyd i'r meddygon a staff Ysbyty Gwynedd a'r gweinyddesau a fu'n ymweld â hi wedi iddi ddod gartef.
MERCHED Y WAWR. Cyfarfu'r gengen nos Fercher, 19 Tachwedd, yn yr Ysgol Gynradd dan lywyddiaeth Sian Davies. Dymunwyd gwellhad buan i Sheila Roberts ar ôl ei llawdriniaeth a da oedd gweld Gwyneth Williams wedi gwella. Llongyfarchwyd Margaret Druce ar ddod yn nain unwaith eto. Cydymdeimlwyd â Mair Read ar golli ei thad yn ddiweddar.

Croesawyd gwraig wadd y noson, sef Rhiannon Parry, Llansannan, a thynnwyd sylw at y clod haeddiannol a dderbyniodd yn *Y Wawr* yn ddiweddar am ei holl weithgarwch yn ei chymuned. Cafodd pawb fwynhad mawr yn gwrandao arni'n dweud hanes y modd y datblygodd ei diddordeb mewn gwio a gwaith llaw yn ystod cyfnod o ymgodymu â gwaeledd, ac fel y cafodd bleser o'i dawn greadigol wrth iddi ei oresgyn. Dangosodd enghreifftiau o'i gwaith – blanced, bag nos, lluniau a chlustogau, ac roeddynt i gyd yn werth eu gweld, yn dangos cyfoeth o liwiau ac amrywiol agweddau o'i dawn, ac yn rhoi cipolwg hefyd ar ei diddordeb mewn llenyddiaeth. Mwynhawyd yn ogystal ei darlleniadau o wahanol farddoniaeth a oedd o arwyddocad arbennig iddi hi. Ar ddiwedd y noson cafodd yr aelodau gyfle i brynu cardiau yn dangos ei gwaith ac er budd Gofal

Macmillan.

Diolchodd Rita Williams i Rhiannon Parry am ei sgwrs ddifyr, ac am ddangos ei gwaith a oedd yn wledd i'r llygaid.

Gwyneth Price, Nancy Williams a Megan Jones oedd yn gofalu am y baned a'r raffl, a'r enillydd oedd Rita Williams.

Cynhelir Cinio Nadolig y gangen yng Ngwesty Victoria, Llanberis, nos Fercher, 14 Rhagfyr.

PAMFFLED BARDDONOL. Yn dilyn llwyddiant *Cerddi'r Prentis* y llynedd, mae Richard Llwyd, golygydd Chwaraeon yr *Eco*, wedi 'cyhoeddi' ei ail bamffled *Bwrw Prentisiaeth*. Unwaith eto ceir cymysgedd o englynion, cywyddau a chaneuon. Eto, mae rhai o'r cerddi â chysylltiad ag ardal Bethel. Yn ddiweddar enillodd Richard gadair Eisteddfod Aelhaearn a Medal Ryddiaith Eisteddfod Talwrn.

Fe fydd yr elw yn cael ei rannu rhwng Pwyllgor yr Adeiladau Capel Cysegr a Chlwb Bro Bethel. Y pris yw £2.

Fe fydd 'lawnsiad' yn y dyfodol agos, ble ceir darlith gan Karen Owen. Pris mynediad i'r ddarlith fydd £2 (fydd yn cynnwys un o'r pamffledi, a phaned). Os ydych eisoes yn un sydd wedi prynu, yna mae'r mynediad am ddim.

CYSEGR. Roedd nifer dda yn bresennol yng nghyfarfod Diolchgarwch y Capel fore Sul yng ngofal y Gwasanaeth. Yn dilyn gair o groeso gan Geraint Elis bu i bob dosbarth gyflwyno eitemau pwrpasol ar lafar ac ar gân yn ymwneud â thymor y cynhaeaf. Cafwyd cyfraniadau hefyd gan bedwar o bobl ifanc y Capel, sef Iwan Morris, Dafydd Emrys a Sioned Owen, ac hefyd Siôn Elwyn ar yr organ. Cymdeithas Strôc Caernarfon sy'n derbyn arian rhydd y Gwasanaeth eleni a'r cyfanswm oedd £93.
CLWB BRO BETHEL.

Gwynfor Ellis oedd y siaradwr yng nghyfarfod mis Tachwedd o'r Clwb ac yn dilyn y croeso arferol gan y Llywydd, Goronwy Jones, cafwyd sgwrs ar sut daeth y Gwasanaeth i fodoli, ac hefyd erbyn hyn sut mae'r gwasanaeth yn ceisio datrys pob math o broblemau. Mae'r CAB yn delio gyda dros un filiwn o faterion newydd yn ymwneud â dyled ariannol bob blwyddyn.

Ar y diwedd cafodd yr aelodau gyfle i holi'r siaradwr ar nifer o wahanol bynciau.

Y Cinio Nadolig yw'r cyfarfod nesaf a hynny am 12.00 bawn Mawrth, 6 Rhagfyr, yn y Bedol. Gofynnir i bawb sy'n dymuno dod i'r cinio ofalu llenwi'r papur gyda'u dewis o fwyd a'i anfon, gyda'r arian, i Megan Humphreys, Tre Go', neu Elizabeth Evans, Penparc, erbyn 1 Rhagfyr.

CYMDEITHAS LENYDDOL. Braf oedd cael croesawu yn ôl un a oedd wedi byw ym Methel am dri deg o flynyddoedd yn siaradwraig wadd yng nghyfarfod mis Tachwedd, sef Mair Price, sydd erbyn hyn yn byw yng Nghaernarfon. Gyda chymorth gweledol, cafwyd ganddi sgwrs ddiddorol dros ben yn olrhain hanes y 'Rhyw Deg Mewn Rhyfel' dros y canrifoedd. Diolchwyd yn gynnes iawn iddi ar ran pawb oedd yn bresennol gan Richard Lloyd Jones.

Bydd y cyfarfod nesaf yng ngofal yr aelodau yn dathlu'r Nadolig mewn gair a chan, a hynny ar nos Fawrth, 13 Rhagfyr, yn Festri Bethel. Yn dilyn tamaid o fwyd blasus gwneir casgliad sydd eleni yn mynd tuag at yr Ambiwylans Awyr.

EISTEDDFOD. Cafwyd Eisteddfod lwyddiannus iawn yn ddiweddar gyda chystadlu brwd mewn gwaith Clef, Llên ac ar y



Lowri a Sion prif lenorion.



Lois a Ffion gyda tlws offerynnol.



Enillwyr y tlysau Uwchradd.

(Parhad ar dudalen 9.)



CYFARCHION Y TYMOR



i bawb yn yr ardal
oddi wrth

TRÊN BACH LLYN LLANBERIS

Bydd Siôn Corn yn ymweld
â ni ar Ragfyr 10, 11 a 17, 18

Ffôn: **01286 870549**
am fanylion



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth **Siop**



LLANBERIS

Ffôn: **871050**

Dewch atom am ddewis rhagorol o fwyd,
diod a nwyddau eraill ar gyfer y Nadolig,
am brisiau cystadleuol iawn.
Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda i chwi oll
oddi wrth bawb yn siop



HAIRLINES

Stryd Fawr, Llanberis
Ffôn: **870328**



Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth **DYLAN**

Stryd Fawr Llanberis
Ffôn: **870777**

- Galwch i mewn am anrhegion Nadolig chwaethus ac anghyffredin, a chofiwch am ein stoc dda o ddillad babis.
- Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn.



Caffi a Siop Sglodion

SEAFRESH



Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth
ROY a CORRIE a'r holl staff

56 Stryd Fawr
Llanberis **870 425**

*Croeso i gwsmeriaid hen a newydd.
Edrychwn ymlaen at eich gweld yn y flwyddyn newydd.*



Dymuna **David a Tara Williams**

CASTLE GIFT SHOP

LLANBERIS Ffôn: **870379**

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w holl gwsmeriaid.

Galwch yma am:
Bapurau Newydd, Anrhegion, Sigarêts,
Melysion, Llyfrau a Chaffi Rhyngwrwyd

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I BAWB

***** ODDI WRTH *****

KMP LLANBERIS

DIOLCH I BAWB A'N CEFNOGODD YN YSTOD Y FLWYDDYN

Noson cyn y Nadolig
Noson ola'r flwyddyn

Y bysus olaf o Landudno i Llanberis: 15.15
Bangor i Lanberis: 16.05
Caernarfon i Lanberis: 16.35

Dydd Nadolig a Gŵyl San Steffan – Dim bysus

Dydd Mawrth 27/12 – Gwasanaeth dydd Sul

Dydd Calan, 1 Ionawr 2006 – Dim bysus

Dydd Llun, 2 Ionawr – Gwasanaeth dydd Sul

K.M.P.
(LLANBERIS) LTD

Y GLYN, LLANBERIS, GWYNEDD LL55 4HN

01286 870880



Parti Bryncoch.

(Parhad o dudalen 7.)

llwyfan yn y ddau gyfarfod ar ddydd Sadwrn, 19 Tachwedd. Yn dilyn noson o DFdawnsio Disgo ar y nos Fawrth. Y beirniaid eleni oedd Non Huws (Celf), Rhian Ingram (Dawnsio Disgo), Eleri Richards (Llefaru), Dafydd Roberts (Llên) a Sioned Terry (Cerdd). Diolchodd Llywydd y Pwyllgor i bawb oedd wedi cyfrannu mewn unrhyw fodd tuag at lwyddiant yr Eisteddfod a mynegwyd balchder at gymaint o dalent oedd yn ypentref ymysg y plant a'r pobl ieuanc. Dymuna'r Pwyllgor ddiolch i garedigion yr Eisteddfod am roddion ariannol ac am gyflwyno tlysau bach i'w cadw am byth i enillwyr y tariannau. Enillydd Tlws Llanor Uwchradd oedd Siôn Elwyn Hughes, Bl.9 a Thlws y Llenor Cynradd oedd Lowri Ann Griffith, Bl.6.

Enillwyd tariannau gan y canlynol: Piano Cynradd: Lois Jones; Offeryn Cynradd: Ffion Roberts; Lleisiol Cynradd: Lowri Ann Griffith; Llefaru Cynradd: Mari Tachwedd; Lleisiol Uwchradd: Ceri Griffith; Offeryn Uwchradd: Gwilym Rhys; Piano Uwchradd: Hawys Price; Llefaru Uwchradd: Ceri Griffith; Celf Cynradd: Lois Jones; Celf Uwchradd: Ifan Bryn Jâms; Dawnsio Disgo: Danielle Cavanagh.

ADRAN YR URDD. Daeth Ruth Lloyd a rhai o actorion *Rownd a Rownd* i gynnal gweithdy drama ar 19 Hydref. Cafodd y plant amser bendigedig yn eu cwmni. Diolch yn fawr iawn i chwi am ddod atom.

Noson o chwysu oedd hi ar 2 Tachwedd pan ddaeth leuan Jones atom i gynnal noson o chwaraeon. Mae sesiwn

chwaraeon bob amser yn boblogaidd ymysg y plant. Diolch iti, leuan, roedd y plant wedi mwynhau yn arw. Cymerodd 5 aelod o flwyddyn 6 ran yn Seremoni'r Orsedd yn Eisteddfod Bethel, sef Gwenno, Ffion Glesni, Lowri a Glesni Sharp a Sion Hughes. Llongyfarchiadau i Lowri Ann am ennill Tlws y Llenor. Llongyfarchiadau i holl aelodau'r Urdd fu'n cystadlu yn yr Eisteddfod.

Bydd disgo gwisg ffansi yn cael ei gynnal yn y neuadd nos Fercher, 23 Tachwedd o 6 tan 7.15 i aelodau'r Urdd yn unig. Pob lwc i'r aelodau sy'n cymryd rhan yng Ngala Nofio'r Urdd ar ddydd Sadwrn, 26 Tachwedd.

I ddiweddur tymor bydd cyfle i wneud addurniadau a chardiau Nadolig yn y sesiwn ar 14 Rhagfyr.

UWCH ADRAN YR URDD. Aeth 25 o blant i ymweld â stiwdio *Rownd a Rownd* ar nos Fercher, 19 Hydref. Roedd yn ddiddorol crdded o gwmpas y set a dysgu ambell beth am y rhaglen. Diolch i'r criw am eu croeso cynnes.

Criw bychan ddaeth i'r Neuadd ar nos Fercher, 9 Tachwedd, pan gafwyd cwis dan ofal Guto Williams, Swyddog o'r Urdd. Llongyfarchiadau i Aaron Gwyn ar ennill y cwis a'i wobyr fydd cael mynd am ddim i'r Hwylfan gyda'r Urdd ym mis Ionawr.

Aeth 17 o blant i sgelfrio i Lannau Dyfrdwy ar nos Wener, 11 Tachwedd. Trip wedi ei drefnu gan yr Urdd oedd hwn ac roedd yn braf cyfarfod aelodau o ysgolion Uwchradd ac Uwch Adranau ar draws Eryri. Daeth pawb adref mewn un darn er fod gan sawl un



Enillwyr Meithrin.



Offerynwyr Uwchradd.

gleisiau ar ôl codwm ar yr iâ. Diolch i Manon Williams ac i'r rhieni aeth ar y trip gyda'r plant.

Bydd 12 o blant yr Uwch Adran yn mynd i gig Nadolig yn yr Octagon ar 29 Tachwedd a gobeithir mynd i fwlio deg yn ystod mis Rhagfyr.

CLWB 200 Y NEUADD. Enillwyr gwobrau y misoedd diwethaf oedd:

AWST. £50: (41) Nancy Owen, 15 Bro Rhos; £25: (15) Mair Williams, 15 Y Ddôl; £10: (140) Ifan Owen, Wern Las, Saron.

MEDI. £50: (10) Wendy Grail, 19 Y Ddôl; £25: (143) Eirlys Sharpe, Ael y Bryn; £10: (18) Sulwen Edwards, 1 Eryri.

HYDREF. £50: (109) Freda Jones, 3 Rhoslan; £25: (142) Eryl Roberts, Bryn Rhedyn; £10: (169) John Maldwyn, 13 Tan y Buarth.

NEWYDDION YR YSGOL. Bu Bl. 5 a 6 yn brysur iawn yn ystod y mis. Buont yn y theatr ym Mae Colwyn i weld drama

Shakespeare, hefyd cawsant y profiad o glywed cerddorfa yn y theatr yn Llandudno. Ar fore Sul y Cofio arweiniodd plant Blwyddyn 6 y gwasanaeth o flaen y Gofeb yn raenus iawn fel arfer.

Mae ymarferion at gyngherddau'r Nadolig yn mynd ymlaen. Bydd yr Adran Iau yn cyflwyno Gwasanaeth y Nadolig yng Nghapel Cysegr eleni nos Lun, 5 Rhagfyr. Cynhelir cyngerdd y Babanod am ddwy noson, nos Fercher ac Iau yr un wythnos.

Nos Lun, 12 Rhagfyr, bydd Siôn Corn yn ymweld â'r ysgol yn ystod y Ffair Nadolig. I ddiweddur tymor bydd parti i'r plant ac ymweliad â phanto Nadoligaidd. Dosberthir manylion am y cyngherddau a'r pantomeim yn fuan i'r rhieni.

Dymuna'r Pennaeth, Mrs Guillemin, a'r staff i gyd Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda i holl blant, rhieni a thrigolion Bethel.



Criw y sgets.



Blwyddyn derbyn.

Mwy o luniau **Eisteddfod Bethel**



Enillwyr blwyddyn 1 a 2.



Enillwyr blwyddyn 3 a 4.

CYFARCHION Y TYMOR A DYMUNIADAU GORAU



oddi wrth



W.J. DAVIES

**MODURDY'R
WYDDFA**

LLANBERIS Ffôn: 870225



M.O.T.

Gwasanaeth Torri Lawr Ddydd a Nos

**Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd
Dda oddi wrth bawb yn**

**SIOP a FFERM FÊL
YR WYDDFA**

STRYD FAWR, LLANBERIS

Ffôn: 870218



Mêl

Diolch am eich
cefnogaeth drwy'r
flwyddyn



**GWIN
a
MEDD**



**'Llyfrau difyr ar gyfer y Dolig
o Wasg Gwynedd, Caernarfon**

Gair, Sain a Llun

Lyn Ebenezer

Darlun difyr a gonest o'r dyn geiriau o fri,
a'i brofiadau fel newyddiadurwr, darlledwr
ac awdur.

**Ar Lwyfan
Amser**

J. O. Roberts

Cewch yma ddilyn
hynt a helynt
bywyd a gyrfa'r
actor enwog - o
Lerpwl i Fôn, o'r
Aifft i'r 'Normal', ac
i lu o theatrau a
chysiau golff!

**Cadw
Golwg**

Dic Jones

Golwg ar gân ar y byd a'i
bethau gan un o'n prif feirdd.

Mân Bethau Hwylus

W. S. Jones

Dyma Wil Sam ar ei orau
hefo'i bortreadau gwreiddiol
a byrlymus o 'gymêrs' ei fro,
Eifionydd - yn cynnwys beics a
moto-beics! Cyfrol i'w thrysori.


J.O. Roberts

**Ar Lwyfan
Amser**

CYFRES Y CEWRI 20

**GAIR, SAIN
A LLUN
LYN EBENESER**

**DIC
JONES**



*Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
i bawb oddi wrth*

Alan George a Rachel Gregory

Hufen lâ

Georgio's

**49 Stryd Fawr
LLANBERIS**

871211 neu 01248 354488

Y Nadolig hwn beth am archebu
Hufen lâ blas pwddin 'Dolig mewn powlen
fel rhan o wledd yr Ŵyl

Casglu: 17 - 24 Rhagfyr

**Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth**

**GRAHAM A JEAN
A PHAWB YN Y**

**PRINCE
OF WALES
LLANBERIS
870708**



**Cwrw Blasus
Croeso Cartrefol**

**Cyfarchion
Nadolig
Llanberis**

**Nadolig Llawen a Blwyddyn
Newydd Dda
oddi wrth**



**SIOP OFFER CANWIO
A CHYRSIAU ANTUR.**



**Lagŵn y Glyn
Llanberis**

Ffôn: 879001

**www.surf-lines.co.uk
eich antur chi ydyw...**

CYNGOR CYMUNED LLANDDEINIOLEN

Cyfarfu'r cyngor ar y laf o Dachwedd. Offrymwyd y weddi agoriadol gan Richard Ll. Jones.

Aelod newydd

Croesawodd y Cadeirydd Merfyn Morris yn aelod dros ward Bethel.

Datgan buddiant

Huw P. Hughes ac R. Len Jones ar faterion cynllunio. Amlygodd amryw o'r aelodau eu bod ar bwyllgorau'r mudiadau sy'n ceisio cymorth ariannol, pe bai pawb ohonynt yn datgan buddiant prin y buasai neb ar ôl i ystyried y ceisiadau.

Penderfynwyd peidio gweithredu'r rheol arferol ond i aelodau'r gwahanol fudiadau beidio trafod cais y mudiad y maent yn aelodau ohonynt.

Cofnodion 20 Medi

Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.

Materion o'r cofnodion

Cyflwynwyd ateb Gwynedd ar sylwadau'r Cyngor ynglŷn â'r Cynllun Unedol yn ymwneud â Brynrefail a Rhiwlas. Trafodwyd y bwriad a'i effaith ar ddarparu 'Tai Fforddiadwy'. Dywedodd Huw P. Hughes y disgwylir i ddau dŷ allan o bob deg mewn datblygiad fod yn dai fforddiadwy.

Nid oedd ateb i law ynglŷn â chofeb ym Mhenisa'rwaun i Mr Huw Lloyd Edwards - atgoffa Clive James.

Tan y Gaer. Mae llif dŵr yn rhedeg drwy'r wal ac i lawr yr allt, bydd hyn yn siŵr o greu perygl pan ddaw rhew.

Rhoddion i fudiadau elusennol

Trafodwyd polisi'r Cyngor a phenderfynwyd cadw at y drefn bresennol i gefnogi mudiadau elusennol, gwirfoddol oddi fewn i'r gymuned. Rhaid derbyn ceisiadau trwy lythyr gan gynnwys mantolen o'u blwyddyn ariannol

ddiweddaraf. Ni ystyrir ceisiadau oddi wrth fudiadau o'r tu allan i ddalgylch Llanddeiniolen.

Penderfynwyd ar roddion fel a ganlyn.

Ti a Fi, Dinorwig £200; Clwb Pêl-droed, Rhiwlas £100; Pwyllgor Neuadd, Penisa'rwaun £200; Neuadd Bentref Rhiwlas £200; Neuadd Goffa, Bethel £200; Llais Ogwan £50; Eisteddfod Bethel £250; Eisteddfod Penisa'rwaun £250; Eisteddfod Gwaun Gynfi £250; Eco'r Wyddfa £200; Seindorf Arian Deiniolen £200; Clwb Pensiynwyr Penisa'rwaun £100; Clwb Orwig, Dinorwig £100; Clwb Bro Bethel £100; Cymdeithas Lenyddol Deiniolen £100; Clwb Snwcer Deiniolen £100.

Gwnaed eithriad i'r arferiad o beidio ystyried cais o du allan i'r gymuned yn achos Rygarug, gan bod cymaint o blant a ieuencid y gymuned yn cael budd o'r gwasanaeth a phenderfynwyd ar gyfraniad o £100.

Gohebiaethau eraill

Cyflwynwyd adroddiad a holiadur Cyngor Y Felinheli ynglŷn â Thai Fforddiadwy. Trefniadaeth Ysgolion.

Cyflwynwyd adroddiad Gwynedd a phenderfynwyd gofyn i Wynedd am gael gynrychiolydd o'r Cyngor i fynychu'r cyfarfodydd trafod. Deallir y bydd cyfarfod yn Ysgol y Gelli yn ystod y Mis. Gwirfoddolodd Huw P. Hughes i gynrychioli'r Cyngor.

Safleoedd parcio i bersonau anabl - rhybydd Gwynedd y gosodir un ger 46, Rhyd Fadog, Deiniolen ac un ger Tŷ Eryri, Brynrefail.

Cyfarfod Gwynedd gyda'r Cynghorau Cymuned - 18.30 dydd Llun, yr 28ain o Dachwedd yn Swyddfeydd Penrallt. Penodwyd Pyllis Ellis, Pat Jones a'r Clerc i'w fynychu.

Porth y Gogledd, Deiniolen. Derbyniwyd llythyr Hywel Williams AS at y Prif Uwch Arolygydd Gareth Prichard ynglŷn â'r ceir sy'n parcio ar y llinellau melyn ar waelod y stryd.

Llywodraeth y Cynulliad. Derbyniwyd eu 'Cyfle i gyfrannu' at adolygiad o gyflawni gwasanaethau lleol yng Nghymru - danfonir copïau ohono i'r aelodau gyda rhaglen cyfarfod Rhagfyr. Bydd angen atebion/sylwadau erbyn y 3ydd o Chwefror.

Cynllunio

Ceisiadau a dderbyniwyd:

Estyniad: 114 Cae Glas, Rhiwlas;

Dymchwel ac ail godi adeilad amaethyddol: Fferm Castell, Pentir;

Estyniad: 5, Rhês Deiniol, Deiniolen;

Estyniad: 8, Teras Cae Rhos, Seion;

Modurdy: Llys Alaw, 18, Stâd Eryri, Bethel;

Estyniad: Ysbyty, Fachwen;

Dymchwel ac ail godi modurdy: Tŷ Newydd, Bethel;

Adeiladu Tŷ: ger Modurdy Beran, Deiniolen;

Addasu adeilad amaethyddol yn annedd: Castell Ffarm, Pentir.

Ceisiadau a ganiatawyd gan Wynedd:

Estyniad: Gwyddfor,

Penisa'raun;

Addasu adeilad yn annedd:

Ysgubor, Penisa'rwaun;

Estyniad: Rynys,

Llanddeiniolen.

Llwybrau

Llwybr 87 (gyferbyn â Tyddyn Hendre - Penygær).

Derbyniwyd cwyn bod giât ddiffygiol ar y llwybr yma. Ateb Gwynedd eu bod am wneud giât bwrpasol oherwydd ei bod yn uwch na'r cyffredin.

Llwybr 29, Clwt y Bont. (gyferbyn â Crown Cottage). Mae rhan o'r wal wedi ei thynnu i ledw mynedfa ac mae gor-dyfiant yn amharu ar y welededd i'r lôn - adroddiad i Wynedd.

Llwybr marchogaeth Pen y Bryn i Tan Dinas, Llanddeiniolen. Mieri a gordyfiant angen eu torri - llythyr i Wynedd.

Atgoffa Gwynedd hefyd o gyflwr y llwybrau oddi fewn i bentref Bethel.

Y Grŵp Cymunedol

Diolchodd Cadeirydd y Grŵp, Len Jones, i Elspeth Micheson am yr holl baratodau ar gyfer cael prisiau i argraffu taflenni. Danfonwyd manylion pedwar gwahanol brosiect i wyth cwmni argraffu. Trefnir cyfarfod o'r Grŵp pan fydd y prisiau i law. Dywedodd Len Jones bod Cymdeithas Lenyddol Deiniolen hefyd yn awyddus i fod yn rhan o'r cynhyrchiad.

Materion Eraill

Dywedodd y Cadeirydd bod wal cae chwarae Rhiwlas wedi chwalu i'r lôn - llythyr i'r Adran Briffyrdd.

Cais Mrs Bingham, 28 Rhydfadog, Deiniolen am drwsio'r gysgodfan bws.

Trafodwyd cyflwr y cysgodfannau a

phenderfynwyd peidio'u hatgyweirio. Malwyd y rhan fwyaf ohonynt yn fuan ar ôl gosod paneli newydd y tro diwethaf. (Gwariwyd dros £2,000 ar gysgodfannau yn ddiweddar). Dywedodd Huw P. Hughes bod angen cael golwg ar ddwy gysgodfan Bethel o ran diogelwch - archeb i Mri G. L. Jones.

Dywedodd Phylip Jones bod *Rave* eto wedi ei chynnal yn y Barics, Dinorwig. Mae hyn yn difetha lle hanesyddol, amharu ar gymdogion a chau mynedfeydd wrth barcio. Pe bai angen gwasanaethau brys, roedd y ffordd o'r Allt Ddu ymlaen wedi ei chau - Hysbysu'r Heddlu, Cyngor Gwynedd a Pharc Padarn. Hysbyseb y *Rave* ar y We, gofyn a oes modd amlygu'r hysbyseb ymlaen llaw er mwyn ei hepgor y réf.

Dyddiad y Cyfarfod nesaf: 6ed o Rhagfyr.



HEN LUNIAU

Llun o enethod Ysgol Brynrefail a dynnwyd ar gyfer Y Cymro yn 1939. Oes rhywun fedr eu henwi, neu enwi y mwyafrif ohonynt? Anfonwyd y llun gan Griff Roberts, Llanrug. Cewch bori drwy adran y bechgyn yn y rhifyn nesaf.

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA
I HOLL DDARLLENWYR ECO'R WYDDFA

oddi wrth
bawb yn

ARFON GARAGE

DEINIOLEN

(Ffôn: Llanberis 870287)

Diolch am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb oddi wrth



CONTRACTWYR TRYDANOL ELIDIR

Bob math o waith trydanol i'r Cartref, ac
i Sefydliadau Masnachol a Diwydiannol

Tel: (01286) 879064 • Symudol: 07810736482

Amcangyfrif am ddim • Ar gael 24 awr y dydd
Shaun Jones, Terannedd, Rhos Cynfi, Deiniolen LL55 3LG



Dymuna DAFYDD a staff

Y TARW (Bull Inn) DEINIOLEN

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA
I'W CWSMERIAID A FFRINDIAU OLL



CYFARCHION Y TYMOR
A'R DYMUNIADAU
GORAU AM Y FLWYDDYN
NEWYDD

oddi wrth
GWYN OLIVER JONES

Bar Swper Arfonia

DEINIOLEN

Ffôn: Llanberis 870048



Nadolig Llawen
a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth

KAREN, MALCOLM a staff y WELLINGTON INN

Deiniolen

Ffôn (01286) 870227



CWRW BLASUS
CHWERW AR EI ORAU



CYFARCHION
NADOLIG
DEINIOLEN

Nadolig Llawen
a Blwyddyn Newydd dda
oddi wrth pawb yng

TICEDI

LOTERI!

Nghorsaf Betrol
01286 871 521

BERAN

Ar agor 7a.m - 9p.m. bob diwrnod
Petrol . Diesel . Nwy Calor. Glo . Wyau
Cylchgronnau . Papurau Newydd . Cardiau

Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn



Ceunant Mawr, Llanberis, yn ystod y glawogydd diweddar.

DEINIOLEN

Mrs Margaret Cynfi Griffith, Cynfi. Ffôn: (870394)

MYNYDD GWEFRU. Pnawn Sul, 11 Rhagfyr am 2.00 o'r gloch cynhelir Cyngerdd Nadolig yng nghwmni Côr Meibion Peris a Seindorf Arian Deiniolen. Dewch yn llw i dreulio awr ddifyr. Nid oes tâl mynediad ond fe wneir casgliad at gronfa 'Diabetes Endowment Fund Ysbyty Gwynedd Bangor'.

DOSBARTH CYNGANEDDU

Bwriedir dechrau dosbarth cynghaneddu ym Methel wedi'r Nadolig. Y tiwtor fydd y bardd amryddawn, Karen Owen, sydd wedi bod mor agos i gipio y Gadair a'r Goron mewn Eisteddfodau Cenedlaethol yn ddiweddar. Hi hefyd yw Golygydd y cylchgrawn *Golwg*. Bydd y sesiynau dwy awr yn agored i bob haen o 'feirdd' o'r profiadol i'r 'dechreuwr'. Y mae cryn ddiddordeb yn cael ei ddangos yn y fath grwpiau ledled Cymru ar hyn o bryd. Os oes gennych ddiddordeb - yn hen neu ifanc - mewn ymuno â'r grwp cysylltwch â Richard Llwyd (670115).

EGLWYS LLANDINORWIG CYNGERDD NADOLIG

6.30 nos Sul, 4 Rhagfyr.

Cymerir rhan gan
**Seindorf Arian Deiniolen,
John Eifion, Emyr Gibson
ac amryw o artistiaid
lleol eraill.**

Arweinydd:

Martin S. Thomas

Llywydd: **John Eryl Thomas.**

Pris mynediad: **£3.00**
yn cynnwys paned a
mins pei

**Elw at Eglwys Crist
Llandinorwig**

Croeso cynnes i bawb

EGLWYS LLANDINORWIG.

Yr Ysgol Sul

Dyma lun o blant Ysgol Sul Llandinorwig ar ôl cael eu cyflwyno gyda llyfrau am eu presenoldeb i'r Ysgol Sul gan Mrs Heather Lynne Jones, Llanberis, ar Sul y Teulu ym mis Tachwedd.

Prynwyd y llyfrau gyda'r arian a dderbyniwyd er cof am Mr Robin Evans, a fu mor gefnogol i'r Ysgol Sul ar hyd y blynyddoedd.

Cyflwynwyd hefyd Feibl i Rhys Parry am ei ddewrder yn ystod y gwaeledd cas a ddiodefodd am dair blynedd a hanner. Rydym yn falch o ddweud bod Rhys yn gwella erbyn hyn.

Yn yr un gwasanaeth cyflwynwyd llun i David, Christopher a Mandy, a dynnwyd o'r tri gyda'i gilydd pan yn dechrau yn Ysgol Brynrefail ym mis Medi. Dyma'r tripledi cyntaf, i ni wybod, erioed i ddod i'r Ysgol Sul ac maent mor selog, byth bron yn colli Sul.

DIOLCH. Dymuna John Maldwyn a Mair, Tan-y-Buarth, ddiolch i'w ffrindiau a chymdogion ym Methel a Deiniolen am y rhoddion, cardiau a galwadau ffôn gyda'u cydymdeimlad ar farwolaeth ei

frawd.

DIOLCH. Dymuna Mr Ernest Jones, Hafan, Porth y Gogledd, ddiolch i'w deulu, cymdogion a chyfeillion am y cardiau, galwadau ffôn a phob rhodd a dderbyniodd tra yn yr ysbyty. Hefyd i staff Ysbyty Gobowen am eu gofal. Diolch yn fawr iawn i bawb.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL.

Cafwyd noson ddifyr yng nghwmni'r awdures Angharad Tomos yn y Gymdeithas nos Lun, 26 Hydref. Soniodd am ei gwaith fel sgwennwr gan gyfeirio yn benodol at rai o'i nofelau.

DIOLCH. Dymuna Olive, Terry ac Anwen, 1 Hafod Oleu, ddiolch o galon am y cydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt gan berthnasau, ffrindiau a chymdogion o ardal yr Eco, yn eu colled fawr.

Diolch yn arbennig i'r Parch John Pritchard am ei gymorth ac i Gwynfor Jones, yr Ymgymwrwr, am ei wasanaeth.

Trosglwyddwyd y derbyniadau i'r feddygfa yn Llanberis. Diolch yn fawr iawn.

DYMUNA Alwen T. Jones, 12 Rhydfadog, ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau, blodau a'r galwadau ffôn tra bu yn yr ysbyty a'r caredigrwydd ar ôl dod adref. ANFONWN ein cofion cynnes at bawb o'r ardal sydd heb fod yn dda. Brysiwch wella, bawb ohonoch.

Hefyd estynnwn ein cydymdeimlad cywir i'r rhai sydd mewn profedigaeth. Gobeithio y cewch gynhafiaeth yn y dyddiau blin.

CYNHELIR gwasanaeth Crisingl yn Eglwys Llandinorwig nos Sul, 18 Rhagfyr am 5.00 o'r gloch. Bydd plant y ddwy Ysgol Sul yn cymryd rhan. Croeso cynnes i bawb.



Rhys Parry o Ysgol Sul Llandinorwig yn derbyn gwobr am ei ddewrder.



David, Mandy a Christopher gyda Mrs Heather Lynne Jones.



Plant Ysgol Sul Llandinorwig gyda Mrs Heather Lynne Jones, Llanberis.

Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd
Dda oddi wrth

Richard S. Humphreys



**ORIEL
CWM**
Cwm-y-glo

Ffôn/Ffacs: (01286) 870882

Gwasanaeth Fframio

Lluniau o bob math ar gael ar y safle

Prisiau Rhesymol

Arddangosfa o luniau gwreiddiol
gan Artistiaid Lleol



CYFARCHION
NADOLIG
CWM Y GLO
a **BRYNREFAIL**

Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda
ODDI WRTH
MORRIS BROS.
BECWS GORS BACH, CWM Y GLO
Ffôn: Llanberis 870430
HEFYD YM
MECWS PEN Y BRYN
LLANBERIS Ffôn: Llanberis 870268
70 STRYD LLYN CAERNARFON Ffôn: 675526

Nadolig
Llawen a
Blwyddyn
Newydd
Dda oddi wrth



**LONDON
GARAGE**
Cwm-y-glo

Ffôn: 870234

Ar agor: 8.30-6 Llun-Gwener
8.30-1 Sadwrn



MOT. Diesel, Petrol
Gwasanaeth ac
Atgyweirio

Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth bawb yn

caban

I fwyta ac yfed
mewn awyrgylch
braf, deuluol,
galwch acw!

YR HEN YSGOL,
BRYNREFAIL
FFôn: 01286 685462

Rhan o Brosiect
Dylunio a Menter Eryri



AM BETROL, DEISEL
OLEW AC AMRYFAL
ANRHEGION MODURO
**GORSAF BETROL
LONDON GARAGE**
CWM-Y-GLO
Ffôn: Llanberis 872046
Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd
Dda i bawb



Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda
i'n holl
gwsmeriaid
oddi wrth bawb ym
**MENTER
FACHWEN**
a
**CABAN Y CWM
CWM Y GLO**



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
i gwsmeriaid hen a newydd oddi wrth
BILL a JACKIE

**SNOWDON HOTEL
Y FRICSAN**
CWM-Y-GLO Ffôn 870289

- Cinio 'Dolig ar gael drwy gydol mis Rhagfyr yn cynnwys Dydd Nadolig. Archebwch yn fuan. 5 cwrs a hefyd gwydraid o win £19.99. Ffoniwch i wneud yn siŵr fod lle ar ôl!
- Cofiwch hefyd - bob dydd Sul, Cinio Rhost blasus 2 gwrs am £6.99; 3 chwrs am £7.99



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

Dodrefn Da am Bris Discount
THE SALES HALL
Y NEUADD ARWERTHIANT
CWM-Y-GLO
Ffôn: 01286 879060

Gwelyau • Matresi • Wardrobs • Cadeiriau a Byrddau
Cypyrddau • Byrddau Coffi a mwy.
Eitemau catalog a ddychwelwyd (newydd) a 'Seconds'
Ffatrioedd am brisiau rhad dros ben.
Ar Agor: LLUN - SADWRN 10.30 - 5p.m.

CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

DIOLCHIADAU. Dymuna Eryl, Nerys a Berwyn ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad dderbyniwyd yn dilyn eu profedigaeth o golli eu tad, Llewelyn Hughes, Hyfrydle, Cwm y glo gynt. Diolch am bob galwad personol, cardiau, llythyrau, galwadau ffôn a rhoddion o £720 er cof amdano tuag at Tŷ Gobaith. Diolch am yr holl gefnogaeth a gafodd gan hen ffrindiau agos a phell tra yn preswyllo yn y Cartref ym Mhenisrwaun. Roedd mor ddiolchgar o hyn.

MYNYDD GWEFRU. Pnawn Sul, 11 Rhagfyr am 2.00 o'r gloch cynhelir Cyngerdd Nadolig yng nghwmni Côr Meibion Peris a Seindorf Arian Deiniolen. Dewch yn llw i dreulio awr ddiffr. Nid oes tâl mynediad ond fe wneir casgliad at gronfa 'Diabetes Endowment Fund Ysbyty Gwynedd Bangor'.

DOSBARTH CYNGANEDDU Bwriedir dechrau dosbarth cynghaneddu ym Methel wedi'r Nadolig. Y tiwtor fydd y bardd amryddawn, Karen Owen, sydd wedi bod mor agos i gipio y Gadair a'r Goron mewn Eisteddfodau Cenedlaethol yn ddiweddar. Hi hefyd yw Golygydd y cylchgrawn *Golwg*. Bydd y sesiynau dwy awr yn agored i bob haen o 'feirdd' o'r profiadol i'r 'dechreuwyd'. Y mae cryn ddiddordeb yn cael ei ddangos yn y fath grwpiau ledled Cymru ar hyn o bryd. Os oes gennych ddiddordeb - yn hen neu ifanc - mewn ymuno â'r grwp cysylltwch â Richard Llwyd (670115).

DIOLCH. Dymuna Ted Roberts, Bod Gwilym, ddiolch o galon i'r cymdogion a ffrindiau am y cardiau a'r galwadau ffôn a dderbyniodd ar ôl ei brofedigaeth o golli ei chwaer, Jean, o Gricieth, yn ddiweddar. Diolch yn fawr i bawb.

LLONGYFARCHIADAU i Drew, Fron Heulog, ar ddathlu ei ben-blwydd yn 18 oed.

YN YR YSBYTY. Anfonwn ein cofion gan ddymuno gwellhad buan i Mrs Margaret Williams, Goleufryn, sydd yn Ysbyty Gwynedd.

YMUNO Â'R FYDDIN. Pob dymuniadau da a llwyddiant i

Craig Jones, 7 Dôl Afon, ar ymuno â'r fyddin. Mae Craig yn cael hyfforddiant ar hyn o bryd yn Catterick Garrison, gogledd Efrog. **CYDYMDEIMLAD.** Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Mr Ted Roberts a Mr Willie Glyn Roberts a'r teulu, Bod Gwilym, Allt Goch, yn eu profedigaeth o golli chwaer, Jean, yng Nghricieth.

CAPEL Y TABERNACL. Hyfryd oedd gweld y capel yn orlawn ar 19 Hydref, gyda phlant yr ysgol wedi dod i gynnal eu Gwasanaeth Diolchgarwch. Diolch i'r athrawesau am eu hyfforddi ac am y gwahoddiad i bawb i ymuno gyda hwy yn eu gwasanaeth o Ddiolch.

Yn dawel yng Nghartref Penisarwaun bu farw Mr Llew Hughes, Hyfrydle (gynt). Gŵr y 'pethe' oedd Mr Hughes, bu'n flaenor yma yn y Tabernacl am flynyddoedd lawer ac er nad oedd wedi bod gyda ni yma ers cryn amser, roedd ei feddwl gyda ni yma a ninnau gydag yntau. Bu'n eistedd ar Fwrdd Llywodraethwyr yr ysgol ac yn mynychu dosbarthiadau'r hwyr, bu hefyd yn Llywydd Clwb Pobl y Cwm, Clwb y Graig a llawer o bwyllgorau eraill yn y pentref.

Cymerai ddiddordeb ymhob gweithgaredd yn y pentref a dilynai yfaoedd y plant ac âi yn aml i'r ysgol i adrodd hen hanesion wrth. Yn wir mae eglwys y Tabernacl a'r pentref dipyn tlotach wedi ei golli.

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'r plant, Eryl, Nerys a Berwyn a'u teuluoedd hefyd, a'i chwaer, Miss Elizabeth Hughes, yn eu profedigaeth a'u hiraeth.

GWASANAETH NADOLIG. Cynhelir Gwasanaeth Nadolig plant yr ysgol ar 13 Rhagfyr.

DYMUNA Keith, Bryn, ddiolch yn fawr iawn i'w deulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl anrhegion a chardiau a dderbyniodd ar ei ben-blwydd yn un ar hugain. Diolch o galon i bawb.

UNDEB Y MAMAU. Cyfarfu'r gangen nos Lun, 7 Tachwedd, yn yr Ysgol Gymuned. Dechreuwyd gyda gwasanaeth byr. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Mrs Dorothy Jones, Mrs Marjorie

Roberts a Miss Meira Williams. Darllenwyd cofnodion o'r cyfarfod a gafwyd y mis diwethaf a thrafodwyd rhai materion. Cynhaliwyd pwyllgor deoniaeth Ogwen yn Neuadd yr Eglwys, y Felinheli ar 14 Tachwedd. Cynhaliwyd cyfarfod Cyngor y Ddeoniaeth ar 22 Tachwedd yn Eglwys Sant Ioan, Porthmadog.

Y wraig wadd oedd Mrs Pat Jones, Brynrefail, a cawyd noson ddiddorol iawn yn ei chwmni yn dangos ei sgiliau trwy addurno a pheintio ar wydr. Yn gofalu am y lluniaeth oedd Mrs Kath Jones a Mrs Margaret Latham, rhoddwyd un o'r rafflau ganddynt hefyd ac fe'i henillwyd gan Mrs Enid Taylor. Rhoddodd Pat un o'r gwydrau ac fe'i henillwyd gan Mrs Gwen Owen.

Diolchwyd i Pat a'r gwesteion gan Mrs Gwyneth Roberts.

Bydd y Gwasanaeth Carolau



Rhodri Llŷn Brookes, enillydd tlws yr unigolyn gorau yn y cystadlaethau canu ac adrodd (oedran cynradd) yn Eisteddfod Llanrug a Chwm y Glo.

yn cael ei gynnal nos Lun, 5 Rhagfyr. Croeso cynnes i bawb. Terfynwyd trwy adrodd y Gras. **YSGOL CWM-Y-GLO.** Daeth nifer fawr o rieni draw i Gapel Tabernacl i gymryd rhan yn ein Gwasanaeth Diolchgarwch fis Hydref. Casglwyd £60 at yr Ambiwlans Awyr yn ystod y gwasanaeth a rhoddwyd y ffrwythau a'r llysiau i Gaban y Cwm.

Aeth Jordan, Paddy, Owen, Hannah, Osian, Emma, Natasha a Jenny ar gwrs Cymorth Cyntaf i Westy Fictoria, Llanberis. Roeddynt i gyd wedi mwynhau'r diwrnod yn arw ac wedi dysgu llawer hefyd.

Diolchwn yn fawr i Mrs Pat Jones o Frynrefail am ddod i gynnal gweithgaredd gwaith llaw yn yr Urdd. Mae ymweliad Mrs Jones bob amser yn boblogaidd ac roedd nifer fawr o blant wedi aros i'r cyfarfod ac wedi mwynhau yn arw. Diolchwn hefyd i Mary Louise o Gricieth a ddaeth i'r Urdd i sôn ac, ac i ddangos, ystlumod.

Diolchwn i Nyrs Bethan, y nyrs ysgol, ac i PC Neil Williams am eu hymweliadau i sgwrsio gyda'r plant.

Llongyfarchiadau i'r plant sydd wedi ennill gwobrau am waith llaw, arlunio ac ysgrifennu stori yn Eisteddfod Llanrug a Chwm-y-glo. Llongyfarchiau hefyd i'r côr am ddod yn drydydd, ac i Hannah a Christopher am ganu'r corn mor ddel o flaen cynulleidfawr fawr.

I ddathlu Diwrnod Plant Mewn Angen daeth nifer fawr o blant (ac athrawon!) i'r ysgol mewn gwisg ffansi neu byjamas. Casglwyd £93 at yr achos. Ewch i wefan yr ysgol ar www.ysgolcwm-y-glo.org i weld lluniau disgyblion Meithrin a Blwyddyn 0 yn edrych yn ddigon o sioe yn eu gwisgoedd.

Cofiwch fod y Gymdeithas Rieni Athrawon yn trefnu noson o Bingo ar 1 Rhagfyr am 6.30pm.



Plant Dosbarth Meithrin a Blwyddyn 0 Ysgol Cwm-y-glo yn edrych yn hynod o ddel yn eu gwisgoedd ar Ddiwrnod Plant Mewn Angen.

SWYDDFA'R POST

Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth bawb ym menter gymunedol

CYFEILLION Y CWM a SWYDDFA'R POST CWM Y GLO. Ffôn: 872722

Diolch am eich cefnogaeth yn 2005 Edrychwn ymlaen i'ch gwasanaethu drwy gydol 2006

ORIAU AGOR:

SIOP

Llun - Gwener
9 - 12; 3 - 4.30

bore Sadwrn
10 - 12



POST

Llun: 9 - 11.45
Mawrth: 9 - 11.45
Mercher: 9 - 11
lau: 9 - 11.45
Gwener: 9 - 11.45
Sadwrn: Ar gau

Dewch yma am ddewis da o nwyddau masnach deg a chynhyrchion Cymraeg traddodiadol fel jam a chaws

Lle Gwallt

Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth Lynette a Laura

Crib

Ffôn:

01286 872169



CWM

AR AGOR

Mawrth 10 - 5

lau 10 - 7

Gwener 10 - 5

Sadwrn 9.30 - 1.30

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. Ffôn: 870580

MYNYDD GWEFRU. Pnawn Sul, 11 Rhagfyr am 2.00 o'r gloch cynhelir Cyngerdd Nadolig yng nghwmni Côr Meibion Peris a Seindorf Arian Deiniolen. Dewch yn llw i dreulio awr ddiffr. Nid oes tâl mynediad ond fe wneir casgliad at gronfa 'Diabetes Endowment Fund Ysbyty Gwynedd Bangor'.

DOSBARTH CYNGANEDDU

Bwrriedir dechrau dosbarth cynghaneddu ym Methel wedi'r Nadolig. Y tiwtor fydd y bardd amryddawn, Karen Owen, sydd wedi bod mor agos i gipio y Gadair a'r Goron mewn Eisteddfodau Cenedlaethol yn ddiweddar. Hi hefyd yw Golygydd y cylchgrawn *Golwg*. Bydd y sesiynau dwy awr yn agored i bob haen o 'feirdd' o'r profiadol i'r 'dechreuwyd'. Y mae cryn ddiddordeb yn cael ei ddangos yn y fath grwpiau ledled Cymru ar hyn o bryd. Os oes gennych ddiddordeb - yn hen neu ifanc - mewn ymuno â'r grwp cysylltwch â Richard Llwyd (670115).

SEFYDLIAD Y MERCHED Nos Iau, Tachwedd 17eg yn y Ganolfan cynhaliwyd y Cyfarfod Blynnyddol. Mrs Pat Parry, Waunfawr oedd Cadeirydd y noson. Ar achlysur dathlu 90 mlynedd Sefydliad y Merched eleni rhoddwyd adroddiad byr ganddi o sefydlu'r mudiad. Ail etholwyd y swyddogion fel a ganlyn: Llywydd, Pat Jones, Ysgrifennydd, Carol Houston, Trysorydd, Verna Jones.

Daeth pob un o'r aelodau oedd yn bresennol â rhywbeth i'w flasu a mwynhawyd gwledd o fwyd ar y terfyn. Ifanwy Jones enillodd wobwr y mis, rhoddedig gan Helen Morris.

Bydd cyfarfod olaf y flwyddyn nos Iau Rhagfyr 15fed - noson o naw Nadoligaidd.

COFION Mae Mr Gwilym Hughes, Bryn Parc, wedi treulio cyfnodau mewn ysbyty ac mae Mrs Blodwen Hughes, 12 Trem Eilian, wedi dioddef o aml anhwylder. Anfonwn ein cofion cynnes atynt a phawb arall na fu'n dda eu hiechyd yn ddiweddar.

YR EGLWYS BRESBYTERAIDD

BLYCHAU NADOLIG. Bu cefnogaeth deilwng i'r ymgyrch 'Operation Christmas Child'. Rydym yn ddiolchgar i bawb am y rhoddion ac i Mrs Jennie A. Roberts am drefnu'r gwaith casglu.

GWASANAETH CYMUN. Nos Sul, Tachwedd 27, gwasanaethwyd gan y Parch Eric Jones, Bangor. Hon oedd yr oedfa gymun gyntaf i'w chynnal ers i'r gynulleidfa ymgynnull i addoli yn y Ganolfan. Yn yr oedfa arbennig hon gwerthfawrogwyd y lliain cymun cywrair a gyflwynwyd i'r Eglwys, o waith Mrs Alwena Williams Llanddona, lliain a gyflwynodd yn wreiddiol i Eglwys Disgwylfa, Deiniolen ac a drosglwyddwyd i'w meddiant yn dilyn datgorffori'r eglwys. Hyfrydwch oedd cael cwmni Elwyn ac Alwena Williams yn yr oedfa.

OEDFAON RHAGFYR

4: Mr Evan Jones, Bontnewydd am 10.00

11: Mr John H. Hughes, Llanberis am 5.30

20: GWASANAETH NADOLIG dan nawdd yr aelodau am 10.00

Colli Mr Jane E. Davies

Bu farw Mrs J.E. Davies, gweddw'r Parchedig D.W. Davies yn 98 oed ar 10 Tachwedd yn Bryn Edwin, Fflint.

Cynhaliwyd gwasanaeth dan ofal y Parch Eifion Jones, Dinbych, a'r Parch Cledwyn Griffith, Mynytho, yng nghapel Caersalem ble roedd yn aelod ffyddlon a gweithgar am flynyddoedd. Ymunodd llawer o'i ffrindiau o ardal Glan Conwy, lle bu Mr Davies yn gweinidogaethu, â'r teulu yn Amlosgfa Bae Colwyn. Cydymdeimlwn â'i merched ffyddlon, Ann, Janet a Gwenda a'u teuluoedd yn eu profedigaeth.

Cyn dod i Frynrefail a Chwm-y-glo yn weinidog, bu Mr a Mrs Davies yn genhadon yn yr India, lle ganwyd Ann a Janet. Oherwydd gwaeledd, cychwynnodd y teulu bach am adref yn 1942 yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Wedi taith hir ar yr S.S. *City of Cairo*, a hwythau ymhell o dir, cafodd y llong ei tharo gan dorrido. Llwyddodd y teulu i fynd i gwch fechan cyn i'r llong suddo. Buont ar y môr am fythefnos heb ddim ond ychydig ddŵr i'w cynnal nes cyrraedd ynys St. Helena. Rhaid oedd aros yno am fisoedd cyn cael llong i ddod gartref.

Daethant i fyw i Gweledfa, Brynrefail, lle'r oeddent yn fawr eu parch ac yno y ganwyd Gwenda. Cofiaf Mrs Davies yn ein dysgu ni'r plant i ganu ar gyfer cyngerdd yn y Festri. Wedi cyfnod yn Llannerch-y-medd, symudodd i Fflint i fod yn ymyl ei merch, Janet, a'i phriod, Eric. Parhaodd hithau i ganu yng nghôr Janet hyd yn ddiweddar.

Erbyn hyn mae wyrion Mrs Davies, yr oedd mor hoff o sôn amdanynt, ar hyd a lled y byd. Anfonwn ein cydymdeimlad at David yn Chicago, Gareth yn Philadelphia, Simon yn San Fransisco, Timothy yn Seland Newydd ac Emma ac Alex yng Nghaergrawnt. Oherwydd gwaeledd ni fedrodd ei chwaer, Mrs Janet Griffiths o Fethel, fod yn bresennol yn yr angladd.

MARGARET WYN ROBERTS

UN FUNUD FACH

Beth Bynnag Ddywed Neb

Roedd yn gysur clywed bod o leiaf un gŵr yn cofio'r bregeth fis a mwy wedi i mi fod yn cynnal oedfa Ddiolchgarwch yn ei gapel. A chware teg iddo, roedd o'n cofio mai o Lyfr Habacuc yr oeddwn wedi codi testun. 'Mi gofiaf,' meddai, 'petae ond oherwydd mai chi ydy'r unig un a glywais yn ynganu'r enw fel gwnaethoch.' Mae'n debyg i mi ynganu'r enw mewn un ffordd wahanol i bawb arall a glywsai'r gŵr hwn erioed. A wyddoch chi be? Am funud neu ddau, roeddwn yn ymffrostio'n dawl bach mai fi oedd yn iawn, â phawb arall yn anghywir. Ond buan y dechreuais feddwl mai fel arall yr oedd hi. Fwy na thebyg mai fi oedd yn camynganu'r enw, wedi'r cyfan.

Mae'n anodd dal i gredu ein bod ni yn iawn pan fo pawb yn credu neu'n gwneud yn wahanol i ni. Ond gall fod angen gwneud hynny er mwyn yr Efengyl. Fe'n gelwir i sefyll yn gadarn dros yr hyn a gredwn, gerbron pobl sy'n wrthwynebus i'r Efengyl. Mae'n anodd dal ati pan fo pobl, o ran eu hymddygiad a'u siarad, yn wrthwynebus i'r Ffydd ac i'r bywyd Cristnogol. Â ninnau'n lleiafrif bach yn ein gwlad sy'n arddel Crist fel Arglwydd a Gwaredwr, mae'n hawdd meddwl mai'r mwyafrif anghrediniol sy'n iawn. Pa Gristion na themtiwyd i gredu mai'r bobl sy'n byw heb Grist ac yn anwybyddu deddfau Duw sy'n iawn wedi'r cyfan?


Ond nid yw gwirionedd y Ffydd erioed wedi bod yn ddibynnol ar gydsyniad y mwyafrif. Roedd yr apostolion yn gwbl siŵr bod eu Hefengyl yn wirionedd Duw, beth bynnag a wnâi neb arall ohoni. Trwy ras, byddwn ninnau o'r un feddwl â hwy. Mynnw'n gredu mai gwir yw'r Efengyl ac mai gwir Fab Duw yw Iesu Grist, beth bynnag ddywed neb arall. Ydym ni mor siŵr o wirionedd Efengyl Iesu Grist fel y byddem yn mynnu glynu wrthi hyd yn oed pe byddai pawb arall yn cefnu arni? Does neb yn dweud y byddai hynny'n hawdd, ond felly mae angen bod.

Feiddiaf i ddim dadlau mai fi sy'n iawn o ran ynganu enw'r hen Habacuc. Ond trwy ras, gobeithio, fe ddaliwn ni mai Efengyl Iesu Grist yw'r gwirionedd, ac mai yng Nghrist ei hun y mae'r bywyd tragwyddol i'w gael. Beth bynnag ddywed neb.

JOHN PRITCHARD

Briwsion Byd Natur

Daiydd Guto



gynhwysfawr gan Mair Williams yn ei chyfrol, *Yn Ymyl Ty'n y Coed*, Gwasg Carreg Gwalch, 1999:

Wrth i ddail syrthio oddi ar dderwen gydag uchelwydd yn tyfu arni credir bod bywyd yn ei gadael a bod ei hysbryd yn mynd i lochesu yn yr uchelwydd, gan beri i hwnnw wella pob clwy.

Tyf yr uchelwydd ar frigau coed llydan-ddail; fe'i ceir ar goed afalau gan amlaf. Perthynai hud a lledrith i'r planhigyn yn yr hen fyd Celtaidd. Y derwyddon. Pobol tu hwnt o ddeallus, a bodau hynod iawn. Byddent bob blwyddyn, ar y dydd byrraf, yn torri'r uchelwydd hefo cryman aur. Ni fyddent yn gadael i'r planhigyn ddisgyn oddi ar frigau'r coed a chyffwrdd y ddaear. Delid yr uchelwydd mewn lliain gwyn. Credaf mai enw arall ar y planhigyn ydyw *holliach* y *Derwyddon*.

Rŵan te, dyma beth sy'n drasiedi. Aeth y Rhufeiniaid ati

i ddifa'r Derwyddon, a'r llennyrch sanctaidd o'u heiddynt. Felly, a ddiplannodd yr wybodaeth dderwyddol, pa sut yn union roedd trin yr uchelwydd er mwyn creu fffisigwriaeth? Do, a naddo. Oni cheid Meddygon Myddfai yn ddiweddarach ran amser wrthi'n annog pobl wael i yfed trwyth yr uchelwydd mewn dŵr berwedig hefo medd, cwrw a llefrith - yr union beth, meddent, er mwyn gwella anhwylderau nerfol a phoen yn y cefn, yr ymennydd a'r stumog.

Ym maes meddygol yr Oes Fodern sy' ohoni delir ati i ddefnyddio planhigyn yr uchelwydd er mwyn trin pwysa' gwaed uchel, crydcymalau a chancr. Er rhoi diwedd ar weithgarwch y Derwyddon, roedd y Rhufeiniaid hwythau yn credu yn nerth *holliach* y *Derwyddon*!

Rhyfeddol ydyw dyn ar bob cyfandir. Rhyfeddach fyth pan fo'n brwydro er mwyn ennill nerth. Cofiwch chwi, mae 'na gryfder mewn cusanu, a boed hynny'n digwydd oddi tan sbrigyn o uchelwydd neu mewn cwpwrdd cadw-celfi, yr un welwch chi, ydy'r rhin.

Planhigyn Nadolig

Na! nid tra'n sefyllian o fwriad oddi tan sbrigyn o'r uchelwydd y cefais fy nghusanu gan eneth am y tro cynta 'rioed, ond yn hytrach tu mewn i gwpwrdd cadw-celfi yng nghartref fy modryb, a hynny gan Dorinda, cyfeilles fy nghyfnither, a ninnau rhwng y saith a'r wyth mlwydd oed 'ma, ac wedi dyfod at ein gilydd er mwyn dathlu pen-blwydd Dwynwen! Melys yr atgof, a melysach fyth rhin y gusan gynta 'rioed honno!

Dyma gymowta ymhellach, a benthyg yr hyn a dd'wedir mor

CHWILOTA

COFEB O BLE? - A MILWR COLL



Mae'r llun uchod wedi achosi cryn benbleth i aelodau teulu sy'n hannu'n wreiddiol o Gwm y Glo, ac am yr eilwaith o fewn ychydig rifynnau o'r *Eco* dyma holi ynglŷn â gwybodaeth am drigolion y pentref hwnnw. Yn ystod y mis a aeth heibio derbynialis wahoddiad i gartref Mrs Gwyneth Roberts, Cwm y Glo, a chael astudio dwy ddogfen a ddaeth i'w meddiant o Lerpwl. Cyfnithir iddi o'r ddinas honno a ddarganfu'r dystysgrif a'r llun wrth atgyweirio darlun a oedd yn ei chartref. Roedd y darlun yn wreiddiol ym meddiant nain a thaid Mrs Roberts, a fu'n byw yn Lerpwl ers dechrau'r Rhyfel Byd Cyntaf.

Mae'r dystysgrif wedi ei chyflwyno gan y 'Society for the Encouragement of Arts, Manufactures and Commerce', Llundain, i ŵr ifanc o'r enw Hugh Jones, a oedd yn 25 mlwydd oed pan dderbyniodd y dystysgrif ym mis Ebrill 1905 tra'n fyfyrwr mewn 'Municipal Technical Classes' yn Lerpwl. Roedd wedi llwyddo i gael Gradd Ail Ddosbarth yn y 'Commercial Examination; Advanced Stage'.

Roedd y dystysgrif, a'r llun gyferbyn, wedi eu defnyddio fel 'backing' ar gefn darlun. Mae'n amlwg fod y llun yn dyddio i'r blynyddoedd yn dilyn y Rhyfel Byd Cyntaf, a'r ddwy ddogfen wedi bod ynghudd ers tua 80 o flynyddoedd. Mae'n ymddangos fod cysylltiad rhyngddynt. Tybed a ddefnyddiwyd y ddwy ddogfen gan daid Mrs Roberts wrth sicrhau fod y darlun yn gorwedd yn wastad yn ei ffrâm?

Ond y cwestiwn na ellir ei ateb ar hyn o bryd yw pwy oedd

Hugh Jones?

Mae'r llun o'r gofeb yn rhestru rhai a laddwyd yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, ac y mae dau Hugh Jones wedi eu cofnodi arni. Roedd y mwyafrif o'r rhai sydd wedi eu rhestru ar y gofeb yn aelodau o'r Ffiwsilwyr Cymreig, ac nid yw'n anodd iawn darganfod mwy o wybodaeth amdanynt. Mae cyfrol wedi ei chyhoeddi sy'n rhestru holl aelodau'r Ffiwsilwyr Cymreig a syrthiodd yn y Rhyfel Byd Cyntaf. Roedd Hugh Jones, a laddwyd noswyl Nadolig 1915, yn enedigol o Gricieth. Roedd Hugh Jones a laddwyd ar y degfed o Chwefror 1917 yn aelod o'r Royal Naval Volunteer Reserve, a'i uned oedd R.N.D. Bu'n rhaid chwilio ar safle gwê y 'War Graves Commission' i ddarganfod mwy amdano, ond yn anffodus, nid yw'n cynnig atebion sy'n ei gysylltu â Chwm y Glo.

Lladdwyd Hugh Jones ar y Somme ac fe'i claddwyd ym

Mynwent Filitaraid Varennes, rhyw ddeuddeg milltir o ddinas Amiens. Mae 1,219 o filwyr Prydeinig wedi eu claddu yno. Yr unig wybodaeth ychwanegol a roddir am Hugh Jones yw enwau ei rieni, sef William ac Ellen Jones. Ni roddir gwybodaeth am ei gartref. Pan fu farw, roedd yn 37 mlwydd oed. Mae ei oedran felly, yn cyferbynu â'r Hugh Jones a enillodd y dystysgrif yn Lerpwl yn 1905.

Ond erys y cwestiwn: a oedd cysylltiad rhwng nain neu daid Mrs Roberts â'r Hugh Jones hwn a laddwyd ar y Somme? A pham roedd dystysgrif iddo a llun o gofeb yn cynnwys ei enw, wedi eu cadw tu cefn i ddarlun ym meddiant y teulu yn Lerpwl?

Tybid i ddechrau fod yr Hugh Jones hwn yn frawd i daid neu i nain Mrs Roberts. Yn sicr, doedd o ddim yn frawd i'w nain. Elizabeth Jane Prichard oedd ei henw morwynol hi, ac yn ôl cyfrifiad 1901 roedd yn byw yn nhai Tanymarian, Cwm y Glo gyda'i thad, Morris (gŵr gweddwr) a'i brawd, William. Ddeng mlynedd ynghynt, roedd ei mam, Sarah, yn fyw; a'i brawd, Morgan, hefyd yn byw gartref. Roedd y brodyr, William a Morgan, yn cael eu disgrifio fel prentisiaid gwneud llechi ysgrifennu. Dyna hefyd oedd gwaith Richard Jones, a oedd yn byw gyda'i fam weddw yn yr Aber, Cwm y Glo. Mae'n bosibl fod y tri bachgen yn gweithio gyda'i gilydd, ac mai felly y daeth Richard ac Elizabeth Jane yn gariadon, a phriodi yn Eglwys Llanrug ar 27 Medi 1901. Catherine Jones oedd enw mam Richard (fe'i cofnodir ar gyfrifiad 1901 fel Richard Ll. Jones, ac yn ôl hanes teuluol galwai ei hun yn Richard Lloyd Jones). Dywed Mrs Roberts ei bod hi'n enwog am rwyfo, ac y byddai'n ennill rasmus rhwyfo o Lyn Bogelyn i fyni i Lanberis ar hyd Llyn Padarn. Câi ei hadnabod fel Catrin Cwper/Cooper.

Pan symudodd y teulu i Lerpwl ar ddechrau'r Rhyfel Byd Cyntaf, roedd yn aelodau o Eglwys Sant Deiniol, Upper Parliament Street. Tybed a'i cofeb i aelodau'r eglwys honno yw'r un yn y llun?

Byddai'n ddiddorol cael sylwadau unrhyw un o ddarlennwyr y golofn hon sydd â chysylltiadau â Lerpwl. Yn y cyfamser, bydd y chwilio'n parhau.

Garddwr Plastirion

Gyda diolch i Mrs Maureen Lennon, Llanberis, am gysylltu ynglŷn â'r cais fis diwethaf am Barti Eilian wedi coffáu Rosie Hughes ym mynwent Nant Peris. Dywed fod Rosie yn aelod ffyddlon o'r parti hwnnw, sef parti a oedd yn cynnal nosweithiau llawen a chyngherddau yn yr ardal yn

ystod y 1940'au ac yn ddiweddarach. Mae'n cofio fel y byddai Mrs Murray yn cynnal math o gyfarfod tebyg i'r Band of Hope yn festri Preswylfa. Dywed hefyd fod Mrs Lindsay yn arlunydd da, ac iddi anfon nifer o luniau i Rosie. Gan nad oedd lle iddynt yn Llain Wen, fe'i cadwyd dros dro yn y Rheithordy yn Llanberis. Yn ddiweddarach, rhannodd Rosie y lluniau ymysg ei ffrindiau. Sgwn i faint ohonynt sy'n dal yng nghartrefi Llanberis heddiw?

Gweithwyr Cwm y Glo

Yn dilyn cyhoeddi enwau'r dynion yn y llun o Gwm y Glo yn y rhifyn diwethaf, daeth llu o alwadau ffôn yn protestio fod yr enwau'n anghywir! Dyma gywiro'r camagraff - gan fawr obeithio fod y rhai a gysylltodd y tro hwn yn sicr o'u ffeithiau!

Rhes gefn (chwith i'r dde): Emyr Jones, John Ll. Evans, Wyn Morris, Robert Henry Parry a Tom Vaughan Jones.

Rhes flaen: Gordon Williams (stesion) John Phillips, John Emlyn Watkin, John Morris Jones a saer coed a'i gyfenw'n Roberts.

Cofgolofn Caban Mills

Daeth galwad ffôn gan Hywel Williams o Brestatyn yn holi beth sydd wedi digwydd i'r gofeb a osodwyd yng nghanban Mills yn Chwael Dinorwig i goffáu gweithwyr oddi yno a gollodd eu bywydau yn y Rhyfel Mawr.

Enw Dieithr

Gan Hywel Williams hefyd y daeth gwybodaeth fod Bedwargoed yn cael ei enwi mewn dogfen o Lawysgrifau Plas Coch, sydd ar gadw yn Archifdy'r Brifysgol ym Mangor. Mae'n dyddio i tua'r unfed ganrif ar bymtheg, ac yn sôn am ddaliadau tir ym maenor Dinorwig. Disgrifir Bedwargoed fel bod rhwng Llyn Dolbadarn a Bwlch y Meitherw, neu Fwlch y Meithenw. Hyd yma, ni chefais gyfle i ymweld â'r archifdy ym Mangor i chwilio mwy am yr enw dieithr hwn. Tybed oes unrhyw un o ddarlennwyr yr *Eco* wedi clywed am enw'r bwlch hwn rhywle yn ardal y Bigil neu'r Dinorwig presennol?

Does ond cwta bythefnos nes bydd rhifyn Nadolig yr *Eco* allan o'r wasg. Nid yw'n rhoi fawr o gyfle i chwi gysylltu â mi ynglŷn ag unrhyw eitem o fewn y golofn hon, na chwaith i minnau ddilyn unrhyw ymholiad er mwyn darganfod mwy o wybodaeth amdano. Ond mae rhan o'r golofn ar gyfer y mis nesaf eisoes yn barod, gan i mi dderbyn llawysgrif gan ddarlennydd y golofn o Gaerdydd, sy'n sôn am blentyndod yn Llanberis yn ystod ac ar ôl yr Ail Ryfel Byd.

Yn y cyfamser, gallwch gysylltu â mi yn Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon (Ffôn 01286 673515).

Eisteddfod Yr Ysgol

Ddiwedd mis Hydref, cynhaliwyd ein heisteddfod flynyddol, ac yn unol â'r arfer cafwyd gŵyl arbennig yn dathlu a chlodfori llwyddiannau'r disgyblion mewn amryfal feysydd. O ddawnsio disgo i ganu pop, o ensemblau offerynnol i bartïon canu, cafwyd gwledd o gystadlu o fore gwyn tan nos. Isod gwelir rhestr o rai o'r prif enillwyr:

Enillydd y Gadair: Sara Ifan, (Blwyddyn 12); 2il – Bedwyr Parri; 3ydd – Bethan Griffith.

Enillydd Medal yr Ifanc: Efa Dyfan; 2il – Cai Jones; 3ydd – Gethin Green.

Llefaru unigol Bl 7-9: Gwenno Gibbard (Bl. 7)

Llefaru unigol Bl 10-13: Kayleigh Jones (Bl. 12)

Unawd Genethod Bl 7-9: Ffion Medi Jones (Bl. 9)

Unawd Bechgyn Bl. 7-9: Daniel Ellis (Bl. 8)

Deuawd 7-9: Daniel Ellis a Catrin Jones Bl. 8)

Deuawd Bl. 10-13: Guto Llywelyn ac Ifan Dafydd Owen (Bl. 13)

Unawd Bl 10-13: Elin Mai Jones (Bl. 13)

Unawd piano 7-9: Manon Elwyn Hughes (Bl. 7-9)

Unawd piano Bl 10-13: Lois Eifion (Bl. 11)

Unawd chwythbrennau Bl 7-9: Victoria Taylor (Bl. 9)

Unawd chwythbrennau Bl. 10-13: Jenny Hamer (Bl 12)

Unawd llinynnol bl 7-9: Ceri Roberts (Bl 9)

Unawd llinynnol Bl.10-13: Ifan Dafydd Owen (Bl. 13)

Unawd pres Bl 7-9: Cai Jonas (bl 9)

Unawd pres Bl. 10-13: Berwyn Jones (bl 12)

Llefaru unigol Saesneg Bl 7-9: Cai Jones

Llefaru unigol Saesneg Bl 10-13: Sara Williams (Bl. 10)

Y ddeialog: Elidir

Y sgets: Gwyrfaï

Ensemble: Gwyrfaï

Parti Bechgyn: Eryri

Parti Merched: Eilian

Parti Ffrangeg: Elidir

Parti llefaru: Gwyrfaï

Dawnsio Disgo: Gwyrfaï

Cân Ysgafn: Elidir

Y Côr: Eryri ac Eilian

Y Tŷ buddugol: Gwyrfaï

Enillydd y Tlws Saesneg:

Gwenllian Williams

Cwpan am y perfformiad

offerynnol gorau: Lois Eifion

(Blwyddyn 11)

Tlws nifer fwyaf o farciau o'r

llwyfan (Bl 10-13): Sara

Williams (Blwyddyn 10)

Tlws nifer fwyaf o farciau o'r

llwyfan (Bl 7-9): Daniel Ellis

(Blwyddyn 8) a Cai Jones

(Blwyddyn 9)

Tlws nifer fwyaf o farciau o

flaen llaw: Anest Bryn Jones

(Blwyddyn 8) a Heledd Roberts

(Blwyddyn 7)

Tlws Emma Bernard am yr

adroddiad/actio gorau o'r

llwyfan: Gruffydd Pritchard

(Blwyddyn 13).



Manon Elwyn Hughes, enillydd yr Unawd Piano 7-9 a Daniel Ellis, enillydd yr Unawd Bechgyn 7-9.

Darllenwch y straeon buddugol am y Gadair a Thlws yr Ifanc yn y rhifyn nesaf.



Enillydd Cadair yr Eisteddfod: Sara Ifan ac Enillydd Tlws yr Ifanc: Efa Dyfan.



Capteiniaid y tŷ buddugol: Gwyrfaï!



Y chweched a'u cwpanau!



Enillwyr tlysau pwnc: Emma Nesfield, Gwenllian Williams, Sara Williams, Robyn Green, Anest Jones a Heledd Roberts



Enillwyr y perfformiadau actio a cherddorol: Gruffydd Pritchard (Bl.13) a Lois Eifion (Bl.11)

Cyfadrn Datblygu – Gwasanaethau Ysgolion Ysgolion Uwchradd

Ysgol Brynrefail, Llanrug

(Ysgol Gyfun 11-18 oed, 718 o ddisgyblion)

Archwilwyr Arholiadau Allanol

Rhan Amser, Achlysurol

Amser: mor fuan â phosib

Cyflog: £10 yr awr

Mae'r newidiadau mewn amodau gwaith athrawon yn gofyn ar i ysgolion benodi archwilwyr allanol ar gyfer arholiadau allanol a ffug arholiadau mewnol. Bydd y rhai fydd yn cael eu penodi yn cael eu defnyddio yn bennaf yn ystod cyfnodau arholiadau allanol misoedd Ionawr, Mai a Mehefin a/neu yn ystod cyfnod arholiadau ffug Blwyddyn 11 ym mis Rhagfyr. Bydd yn bosib i'r oriau fod yn hyblyg oddi fewn i amserlen yr arholiadau a bydd hyfforddiant priodol ar gael.

Manylion pellach i'w cael gan y Swyddog Gweinyddol: Mrs Dawn Carden, Ysgol Brynrefail, Llanrug LL55 4AD

Rhif Ffôn: (10286) 672381

Ceisiadau drwy lythyr i Mrs Carden mor fuan â phosib.

LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

CYFARCHION NADOLIG. Dymuna Annie Jones, Eilionwy, Llanrug, Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb o'i ffrindiau a'i chymdogion.

PEN-BLWYDD HAPUS yn 90 oed i Cledwyn Williams, Tŷr Ysgol, oddi wrth y teulu i gyd.

PLAID CYMRU. Daeth aelodau a chyfeillion Cangen Llanrug at ei gilydd nos Fercher, 16 Tachwedd i fwynhau Noson Goffi yn y Sefydliad Coffa a chafwyd noson ddifur yn sgwsio, gwerthu a phrynu. Gwnaed elw da ar y noson ac, yn ôl y Trysorydd, mae arian yn dal i ddod i mewn. Enillodd y canlynol wobrau yn y raffl: Beryl, Dai, Meryl, Rhian, Phyllis, Einir, Linda, Rhun, Eirwen a Sioned.

Braf oedd gweld y Cynghorydd Charles Jones yn bresennol, a hefyd amryw o wynebnewydd ifanc. Diolch yn arbennig i Carrie, Megan, Sian a Linda am ddarparu'r coffi a'r te; i Vera am ofalu am y raffl ac i Phyllis am lywio'r noson.

MYNYDD GWEFRU. Pnawn Sul, 11 Rhagfyr am 2.00 o'r gloch cynhelir Cyngerdd Nadolig yng nghwmni Côr Meibion Peris a Seindorf Arian Deiniolen. Dewch yn llw i dreulio awr ddifur. Nid oes tâl mynediad ond fe wneir casgliad at gronfa 'Diabetes Endowment Fund Ysbyty Gwynedd Bangor'.

DOSBARTH CYNGANEDDU Bwriedir dechrau dosbarth cynghaneddu ym Methel wedi'r Nadolig. Y tiwtor fydd y bardd amryddawn, Karen Owen, sydd wedi bod mor agos i gipio y Gadair a'r Goron mewn Eisteddfodau Cenedlaethol yn ddiweddar. Hi hefyd yw Golygydd y cylchgrawn *Golwg*. Bydd y sesiynau dwy awr yn agored i bob haen o 'feirdd' o'r profiadol i'r 'dechreuwyd'. Y mae cryn ddiddordeb yn cael ei ddangos yn y fath grwpiau ledled Cymru ar hyn o bryd. Os oes gennych ddiddordeb - yn hen neu ifanc - mewn ymuno â'r grwp cysylltwch â Richard Llwyd (670115).

CYMDEIMEIMLAD. Carwn estyn cydymdeimlad llwyrat pentrefwyr Llanrug i Eryl (ein gohebydd pentref), Nerys a Berwyn a'u teuluoedd yn eu profedigaeth o golli tad oedd yn annwyl a gwerthfawr ganddynt. Cofiw am Mr Llewelyn Hughes fel gŵr parod iawn ei gymwynas, uchel ei barch a mawr iawn ei gyfraniad mewn gwahanol gylchoedd i fywyd pentref Cwm y Glo.

DIOLCH. Dymuna Rhys Fleming, Bryn Moelyn, ddiolch yn fawr i bawb â'i noddodd ar ei naid 'parachute' yn RAF Weston-on-the-Green yn ddiweddar. Fe gyflwynodd sic anrhydeddus am £700 i Dŷ Gobaith yn y Barracks, Caernarfon. Llongyfarchiadau mawr i ti, Rhys.

SEFYDLIAD COFFA. Enillwyd Clwb Cant mis Tachwedd oedd: £20: E. Roberts, 3 Bryn Moelyn; £7: Mr A. Parry, Bryn Heli; £5: Mrs E. Roberts, 7 Afon Rhos.

MARWOLAETH. Bu farw Mrs

Nesta Wyn Jones, 1 Bro Rhythallt gynt, yn ddiweddar. Roedd wedi ymgartrefu ym Mhlas Pengwaith, Llanberis, am gyfnod. Anfonwn ein cydymdeimlad at ei merch, Rosalin, a'i theulu yn eu profedigaeth.

DIOLCHIADAU. Dymuna Eryl, Nerys a Berwyn ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad dderbyniwyd yn dilyn eu profedigaeth o golli eu tad, Llewelyn Hughes, Hyfrydle, Cwm y Glo gynt. Diolch am bob galwad personol, cardiau, llythyrau, galwadau ffôn a rhoddion o £720 er cof amdano tuag at Tŷ Gobaith. Diolch am yr holl gefnogaeth a gafodd gan hen ffrindiau agos a phell tra yn preswyllo yn y Cartref ym Mhenisarwaun. Roedd mor ddiolchgar o hyn.

MERCHED Y WAWR. Cynhaliwyd cyfarfod o gangen Llanrug ar nos Fawrth, 8 Tachwedd, yn y Ganolfan Gymunedol. Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Llywydd, Bethanne, a hynny ar noson stormus iawn. Atgoffwyd pawb am y Cwis Hwyl Cenedlaethol ar nos Wener, 11 Tachwedd, yng Ngwesty Meifod; Ysgol Undydd i Ddysgwyr yn Ysgol Maesincla, Sadwrn, 12 Tachwedd a Gweithdy Gwaith Papur yn Neuadd Tregarth, Sadwrn, 19 Tachwedd. Derbyniwyd llythyr o ddiolch gan Siân Wheway yn diolch i'r rhai a gymerodd ran yng nghyflwyniad Merched y Wawr Eryl: 'Be 'di geiriau rhwng gwragedd.'

Llongyfarchwyd Heulwen a Deiniol Evans ar achlysur eu Priodas Arian a chymeradwywyd Eurgain Haf ar ei hymdrech galed ym Marathon Caerdydd a hynny er lles Apêl Capel Bosra, Penisarwaun.

Cydymdeimlwyd yn ddwys ag Eryl a'r teulu yn eu profedigaeth o golli tad, taid a hen daid annwyl dros ben.

Gyda llawenydd y llongyferchir Eryl ac Islwyn ar ddod yn nain a thaid unwaith yn rhagor. Ganwyd merch fach arall i lolo a'i wraig, sef Aoihbinn. Maent yn byw yn lwerddon.

Derbyniwyd llythyr gan Bwyllgor Urdd y Cylch yn gofyn am wasanaeth Merched y Wawr Llanrug unwaith yn rhagor yn y Caffi yn ystod yr Eisteddfod Gylch ar Sadwrn, 4 Mawrth 2006. Derbyniwyd y gwahoddiad.

Atgoffwyd pawb am y Cinio Nadolig yn y 'Country Manor', ger Caernarfon ar 13 Rhagfyr.

Y wraig wadd oedd Yvonne Templeton o Ceunant, Llanrug, cyn-ddisgybl o Ysgol Brynrefail ac sy'n gweithio fel ysgrifenyddes meddygfa yng Nghaernarfon. Gyda'r nos mae hi'n cynnal partïon coluro 'Virgin Vie', cwmni Richard Branson, a gychwynwyd yn 1997. Mae'r siop golur agosaf yng Nghanolfan Trafford, Manceinion, gyda dros 300 o nwyddau ar werth yno.

Y fodel lwcus oedd Eirianwen ac roedd yn amlwg yn mwynhau'r profiad o ddilyn ymarferion i ymlacio'r wyneb, llygaid, gen a'r



Ymdrech plant Blwyddyn 5, 6, 7 ag 8 Capel y Rhos i gefnogi Apêl 5c Haf Thomas tuag at yr Ambiwylans Awyr.

gwddf. Yna y saith cam i drin croen yr wyneb, gan orffen gyda'r minlliw. Profiad anhygoel o braf, yn ôl Eirianwen. Diolchwyd i Yvonne am noson hamddenol braf gan y Llywydd. Cafwyd cyfle ar y diwedd i edrych ar gatalogau a phrynu nwyddau, gyda 15% o'r elw yn rhoddedig i Apêl Haf Thomas, Buarthau, tuag at yr Ambiwylans Awyr.

Roedd y raffl yn rhoddedig gan Virgin Vie a'r enillwyr oedd Linda Jones, Carrie, Mair a Bethanne. Diolch i Mair, Ann a Margaret am y baned.

Cofiwch am y Cinio Nadolig, nos Fawrth, 13 Rhagfyr yn y Country Manor. Yno erbyn 7.30 os gwelwch yn dda.

YR YSGOL GYNRADD

Ein Casgliad Diolchgarwch.

Cyflwynwyd sic am fil dau gant wyth deg a saith punt ac wyth deg naw ceiniog i Mr Dennis Davies, trefnydd Cymdeithas Atal Creulondeb i blant. Dymunwn ddiolch i bawb a gefnogodd y plant yn eu tasgau lliwio a dysgu a chyfrannu yr arian.

Codi Arian i'r Ysgol.

Diolch hefyd i Mr Robin Halliday a fentrodd yn y tywydd garw a rhedeg yn Ras Marathon Eryl, er mwyn casglu arian i gronfa Cymdeithas Ffrindiau yr Ysgol. Diolch i'r rhai â'i noddodd.

Diwrnod Plant Mewn Angen. Dydd Gwener, 18 Tachwedd, roedd ein gwisg ysgol yn lliwgar iawn, gan fod disgyblion pob dosbarth wedi dod i'r ysgol mewn dillad o liw penodol.

Casglwyd dau gant tri deg a

saith o bunnoedd tuag at yr apêl.

Rydym yn gwerthfawrogi caredigrwydd y rheini yn cyfrannu mor hael at weithgareddau plant yr ysgol ac achosion da.

Brynhawn Gwener, 18 Tachwedd, eisteddodd y disgyblion yn gegwrth yn gwyllo y Consuriwr Johnny Hay yn gwneud pob math o driciau anhygoel. Teimlodd pob un yn drist pan roddodd bapur ugain punt Mrs Howells ar dân o flaen eu llygaid, ond dyna falch oeddynt o'i weld, drwy ryw ryfedd wyrth, yn cael ei dynnu allan o'r amlen yn berffaith iawn. Pan gafodd ei roi i orwedd ar fwrdd a chylllell yn llifio drosto roedd Gwion yn dyfaru ei enaid iddo wirfoddoli i gynorthwyo'r dewin, ond doedd o ddim gwaeth, diolch am hynny.

Cafodd disgyblion Bl 6 gyfle i ddysgu ychydig o'r grefft consurio mewn gweithdy wedi'r sioe.

Drama. Cafodd disgyblion yr Adran Iau wyllo perfformiad effeithiol o'r nofel *Alice in Wonderland* gan gwmni drama o Salford. Mwynhaodd pawb y perfformiad diddorol.

Cyngherddau Nadolig. Nos Fawrth, 6 Rhagfyr, bu adran y Babanod yn cyflwyno eu cyngerdd 'Y Streic Fawr' yn neuadd yr ysgol. Nos Iau, bydd disgyblion Cynradd yn cyflwyno eu cyngerdd 'Cardiau Nadolig' yn Neuadd Ysgol Brynrefail.

Ffair Nadolig. Cynhaliwyd Ffair Nadolig yn yr ysgol nos Lun, 28 Tachwedd. Diolch i Siôn Corn am alw heibio gyda'i sach yn llawn anrhegion i'r plant ac i dderbyn eu llythyrau.

Diolch i'r gwahanol stondinau ddaeth i gefnogi'r ffair ac i rieni a ffrindiau yr ysgol am ddod draw i'n cefnogi.

Llongyfarchiadau i bob un fu'n cystadlu yn Eisteddfod y Pentref, ac i enethod Bl 2 am berfformio'r ddawns flodau yn seremoni anrhydeddu'r beirdd.

Llongyfarchiadau i Anti Janet a'i phriod ar ddod yn daid a nain. Ganwyd merch fach i Anthea.

Yr Urdd. Llongyfarchiadau i aelodau yr Urdd fu'n cystadlu yng Ngala Nofio yr Urdd ym mhwl nofio Bangor dydd Sadwrn, 26 Tachwedd.

Campau'r Ddraig. Cynhaliwyd Gŵyl Rygbi Tag Campau'r Ddraig ar ddydd Iau, 20 Hydref, ar gaeau Clwb Rygbi Caernarfon. Aeth 23 o ddisgyblion blwyddyn chwech yr ysgol yno a chafwyd pnawn gwerth chweil o hyfforddiant a gemau rygbi tag, gyda phob plentyn yn mwynhau yr ŵyl.



Dathlu Hanner Canmlwydd Clwb Eryl.

O SIAMBAR SELWYN

Diwedd mis diwetha, mi ges i wahoddiad i Eisteddfod Powys a gynhaliwyd yn hen dref y Bala dirion, deg. Roedd o'n achlysur arbennig gan fod yr Orsedd yn gorseddu Derwydd Gweinyddol newydd, i fod yn y swydd am dair blynedd.

Gan nad oedd y tywydd yn ffafr i fedru cynnal y seremoni yng nghylch yr Orsedd ar Grŵn y Bala, fe'i cynhaliwyd yn Ysgol y Berwyn. A dyna pam y cefais i reid mewn treilar o gwmpas strydoedd y Bala.

Fe drefnwyd i'r Derwydd Etholedig eistedd ar y tractor gyda'r dreifar, a'r Derwydd Gweinyddol, y Cofiadur a minnau ar y trelar. Profiad arbennig, a Stryd Fawr y Bala yn llawn o wylwyr gyda'u camerâu. Yn ôl swyddogion yr Eisteddfod roedd hwn yn achlysur hanesyddol am ddau reswm. Dyma'r tro cynta i Archdderwydd Cymru fod yn bresennol ar achlysur urddo Derwydd Gweinyddol Eisteddfod Powys, a dyma'r tro cynta i un gael ei gludo drwy strydoedd y Bala ar drelar.

Hyfryd oedd treulio diwrnod yn yr Eisteddfod a bod yn rhan o'r Seremoni Cadeirio yn y prynhawn pan gadeiriwyd fy nghyfaill, Geraint Lloyd Owen. Yr eildro iddo ennill Cadair Powys. Ydw, mi rydw i'n dal mewn gobaith y caf yr anrhydedd o'i goroni, neu ei gadeirio ar lwyfan y Brifwyl yn ystod y ddwy flynedd nesa ma.

Steddfod arall y cefais y fraint o fod ynddi oedd Eisteddfod Gadeiriol Gwaun Gynfi, Deiniolen, a hyfryd oedd tystio iddi fod yn un hynod o lwyddiannus cyn belled ag roedd safon y cystadlu yn y cwestiwn. Oedd, yn anffodus mi roedd 'na braidd gormod o seddau gweigion yng ngyfarfod yr hwyr, ond gwyh oedd cael gwranddo ar y bobol ifanc a sylweddoli bod gennym gymaint o dalentau sy'n barod i gefnogi ein heisteddfodau lleol.

Roedd y tri a fentrodd gystadlu ar gystadleuaeth Tlws yr Ifanc yn llawn deilwng o'r wob. Roedd y Fedal Lenyddol yn y gystadleuaeth hon er cof am y ddiweddar Miss Jean Parc Jones.

Cafwyd cryn dipyn o hwyl gyda rhai o'r cystadlaethau llenyddol eraill, yn enwedig y Limrig. Y llinell osodedig oedd:

Eleni yn 'Steddfod Eryri

ac fel y gellid disgwyl derbyniwyd nifer go dda. Mentrais eu gosod, er mwyn cael tipyn o hwyl, mewn tri dosbarth: sef Dosbarth y Cyri; Dosbarth seboni (lle cyfeiriwyd yn naturiol at yr ARCH), a'r Dosbarth Cyffredinol, ond eto Eisteddfodol. Do, fe gafwyd hwyl yn gwranddo ar rai ohonynt. Gwell i mi gyfaddef rŵan, wnes i ddim darllen pob un ohonynt nhw ar goedd. Dyma rai:

Dosbarth Cyri

Eleni yn 'Steddfod Eryri

Cadd Siân lot o ffa hefo'i chyri,

Pan yn y lle chwech

Daeth cythral o sgrech;

Roedd 'na glamp o gi rhech uwch ei phen hi.

Eleni yn 'Steddfod Eryri

Cadd Wil ginio mawr, chips a chyri;

Ys gwn i ai doeth

Ac yntau mor boeth

Oedd stripio yn noeth, er mwyn oeri?

Eleni yn 'Steddfod Eryri

Aeth Jeni am blatiad o gyri.

Ond Meirion a ddaeth

A gwneud pethau'n waeth

Drwy chwythu'i drombôn yn 'i chlust hi.

Y Dosbarth Seboni

Roedd Dyff yn ffugenw cyson iawn. Cyfeirio at Syr Michael Dyff wrth gwrs. a Micky oedd Michael gan un:

Eleni yn 'Steddfod Eryri

Roedd doniau'n gorlifo'r gwagenni

O lechi nid rwbel

Ar dir Syr y chwarel,

A Sel oedd y pennaeth nid Micky.

Dyma gynnig amserol o gofio y benbleth ar Barc-y-Faenol:

Eleni yn 'Steddfod Eryri
Roedd penbleth ynglŷn â'i lleoli,
Yn y flwyddyn 07

A fydd newid ar iaith

Os awn ar ein taith dros y Mersi?

Nefyn, oedd ffugenw'r buddugol. Fe feddyliais i mai fy rhagflaenydd yn y swydd oedd yn tynnu coes – ond digon o waith. Dydi hwn ddim yn seboni chwaith chwarae teg iddo. Ond dychymyg ydi'r cyfan, rhag ofn i barchedusion yr Orsedd gymryd y stori o ddifri!

Eleni yn 'Steddfod Eryri
Aeth Selwyn yr Arch i drybini
Fe'i caed heb ei drôn
Ym mhabell Miss Jôn,
O foi sefnti-sefn, mae'n reit heini.

Awgrymais roddi naw allan o ddeg, gan bwysleisio y byddai wedi cael marciau llawn petae wedi gorffen â'r llinell:

O foi sefnti-sefn, mae'n reit secsi.

Do, fe gafwyd Eisteddfod hwyliog yng Ngwaun Gynfi, a doeth oedd agor y drysau i'r byd pryd y cawsom gyfle i glywed talentau ifanc o ardaloedd eraill yn ogystal â thalentau lleol. Daliwch ati a diolch am y croeso.

R. L. DAVIES

Coed Belyn Mawr, Bethel

JCB Fastracs a trailers 16 tunnall diggers bychain
ac excavators 360° newyddda llawer mwy



- ar gyfer llogi peiriannau
- tyllu footings
- clirio gerddi
- neu unrhyw waith clirio safleoedd

Ffoniwch am fanylion

(01248) 671300 neu (07775) 638620

BWS BACH AR LOG

Bws 22 sedd ar gael ar gyfer pob math o logi preifat – nosweithiau allan, partïon, tripiau ac ati.

Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan

(01248) 361044



D. P. OWENS RHIWLAS



Silver
STAR

GWYLIAU SEREN ARIAN

- PECYNNAU GWYLIAU YM MHRYDAIN, EWROP AC YMHELLACH.
- TEITHIAU I GYNGHERDDAU A THEATRAU.
- TREFNU PECYNNAU GWYLIAU I GRWPIAU A MUDIADAU AM BRISIAU RHESYMOL.
- BWSIAU MODERN A MOETHUS
- GWESTAI O SAFON
- CWMNI TEULUOL
- MANNAU CODI YN CYNNWYS: LLANBERIS, CWM Y GLO A LLANRUG.

Am fwy o fanylion am ein teithiau, ffoniwch
ein swyddfa ar y Maes yn Nghaernarfon ar 01286 672333

Dylan Griffith

TREFNWR ANGLADDAU ANNIBYNNOL a LLEOL
TROS-Y-WAEN, PENISARWAUN

Yn gwasanaethu'r holl ardal yr ECO ac
ymhellach i ffwrdd

Gwasanaeth teimladwy,
urddasol a phersonol.
24 awr y dydd

Ffoniwch: **Dylan (Llys) ar 871833**

Symudol: **07778 127394**

HEFYD

CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA

Cyrhaeddwch mewn steil – mewn cerbyd Rolls Royce
ar gyfer priodasau, pen-blwyddi ac
achlysuron arbennig eraill



Gwasanaeth o'r Safon Uchaf am Brisiau Rhesymol



Gwasanaeth Trylwyr
gan y bobl **BROFFESIYNOL**
Gwasanaeth Personol Cyfeillgar i **CHWI**
Y Gwasanaeth Technegol Gorau
i'ch **CAR**. Cystal â
Gwasanaeth Prif Ddeliwr
Felly, pa gar bynnag ydych
CHWI yn ei yrru,
o Audi i Zastava

website: www.a-v-w.co.uk



Car neu Fan
Petrol neu Diesel
Carb. neu Chwistrelliad

bydd ein Gwasanaeth
ni yn arbed £££ ichwi
ac yn ymestyn oes eich car



YSTAD CIBYN

CAERNARFON (01286) 673559



WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

MYNYDD GWEFRU. Pnawn Sul, 11 Rhagfyr am 2.00 o'r gloch cynhelir Cyngerdd Nadolig yng nghwmni Côr Meibion Peris a Seindorf Arian Deiniolen. Dewch yn llw i dreulio awr ddiffr. Nid oes tâl mynediad ond fe wneir casgliad at gronfa 'Diabetes Endowment Fund Ysbyty Gwynedd Bangor'.

DOSBARTH CYNGANEDDU

Bwriedir dechrau dosbarth cynganeddu ym Methel wedi'r Nadolig. Y tiwtor fydd y bardd amryddawn, Karen Owen, sydd wedi bod mor agos i gipio y Gadair a'r Goron mewn Eisteddfodau Cenedlaethol yn ddiweddar. Hi hefyd yw Golygydd y cylchgrawn *Golwg*. Bydd y sesiynau dwy awr yn agored i bob haen o 'feirdd' o'r profiadol i'r 'dechreuwyd'. Y mae cryn ddiddordeb yn cael ei ddangos yn y fath grwpiau ledled Cymru ar hyn o bryd. Os oes gennych ddiddordeb - yn hen neu ifanc - mewn ymuno â'r grwp cysylltwch â Richard Llwyd (670115).

DYMUNA Gwenlli Williams, 5 Pant y Waun, ddiolch am yr ymweliadau, galwadau ffôn a chardiau a dderbyniodd tra yn Ysbyty Gwynedd ac Ysbyty Eryri. Diolch yn fawr i bawb.

YSGOL WAUNFAWR

Edrychai'r staff a'r plant yn go wahanol yn eu jins ddydd Gwener, 6 Hydref. Diolch i bawb am gefnogi 'Jeans for Genes Day'. Casglwyd £100 ar gyfer Ymchwil Clefyd Siwgwr.

Aeth plant Blwyddyn 4 i'r castell yng Nghaernarfon bawn dydd lau, 13 Hydref, i gymryd rhan yn 'Y Darlun Mawr'. Ymgyrch genedlaethol drwy Brydain yw hon

wedi ei harwain gan y darlunydd enwog, Quentin Blake, i geisio defnyddio arlunio fel cyfrwng i bawb ddarganfod eu gorffennol, eu presennol a'u dyfodol. Dyma argraffiadau rhai o'r plant o'u hymwelad â'r castell.

Ar y 13eg o Hydref es i Gastell Caernarfon i wneud Y Darlun Mawr. Roedd rhaid i ni wneud llun gyda paent, creons, pensiliau lliw a pensiliau sgwennu. Quentin Blake drefnodd y peth arbennig yma. Aethom i fewn i'r castell i wneud lluniau. Roedd un pawb mor dda. Tra roeddwn i yno ron i yn meddwl sut fasai'n teimlo i fynd i ryfel a chael eich lladd. Cefais syniad i wneud llun o ryfelwyr yn mynd i ryfela. I ddweud y gwir mi fyswn i wedi hoffi mynd i ryfel. Pan ddechreuais i liwio penderfynais fy mod am wneud fy llun mewn pensiliau lliw am fod llawer o ryfelwyr bach i'w liwio. Ar ôl i bawb orffen aethom i gyd i mewn i ystafell i roi y lluniau ar gastell pren. Roedd Mrs Williams, athrawes blwyddyn 3, yn tynnu lluniau ohonom ni ger y castell. Mi gawsom ni amser da.

Faye Latham (Bl.4)

Dydd lau, Hydref y 13eg aeth Blwyddyn 4 i Gastell Caernarfon i gymeryd rhan yn y 'Darlun Mawr'. Roedd pawb yn gwneud llun o rhywbeth oedd yn disgrifio oes y cestyll.

Ar ôl gwneud y lluniau mi wnaethom beintio a lliwio. Mi wnes i lun o bobol yn eistedd wrth ymyl y bwrdd yn bwyta. Yn y cefndir mi wnes i luniau o dariannau gyda llun draig goch a choronau hardd arnynt.



Disgyblion Bl 5 Ysgol Waunfawr yn eu gwersi gymnasteg gyda Mr Meilir Owen.

Roedd y plant yn gweithio mewn ystafell siap octagon yn Nhŵr y Brenin.

Mared Rhys (Bl.4)

Ar y 13ef o fis Hydref aethom ni blwyddyn 4 i Gastell Caernarfon i wneud lluniau. Quentin Blake oedd wedi trefnu'r digwyddiad. Roedd rhaid i'r llun roedden ni yn dynnu ymwneud â'r castell. Roedden ni yn defnyddio paent, pensiliau, pastiliau a creonau. Roedden ni yn gwenud y lluniau mewn ystafell arbennig yn y castell. Roedd pobl Cadw wedi gwneud model o gastell, ac roedden ni yn sticio ein lluniau ni ar y model. Mae yna groeso i chwi fynd i weld y lluniau yng Nghastell Caernarfon.

Mared Ynry (Bl.4)

Diolch i bawb a ymunodd â ni yn ein Gwasanaeth Diolchgarwch yng Nghapel Croes-y-Waun fore dydd Gwener, 21 Hydref.

Yn ystod y tymor casglwyd £100 tuag at Ymchwil Clefyd Siwgwr ar ddydd 'Jeans for Genes Day'. Derbyniwyd £140 tuag at Hospis yn y Cartref trwy werthu cŵn bach meddal 'Pup Idols' a chasglwyd hefyd 90 o focsys ar gyfer ymgyrch 'Plentyn y Nadolig'. Diolch i bawb a gyfrannodd.

Cynhaliwyd Gwasanaeth y Cadoediad yn neuadd yr ysgol fore Gwener, 11 Tachwedd. Plant blwyddyn 6 oedd yn gyfrifol am y gwasanaeth eleni gyda phlant yr Adran lau yn cynorthwyo gyda'r canu. Gosodwyd y dorch ar y gofeb gan y ddau ddisgybl hynaf, sef Jamie Anderson ac Anya Price. Diolch i'r rhieni a phawb o'r pentref a

ymunodd gyda ni ar y diwrnod.

Treuliodd Blwyddyn 6 bawn yn Ysgol Syr Hugh Owen dydd Mercher, 16 Tachwedd a mwynhaodd y 25 disgybl eu hunain yn fawr. Byddant yn ymweld ag Ysgol Brynrefail yn ystod tymor y gwanwyn hefyd. Bu Meilir Owen o Ysgol Syr Hugh Owen yn cynnal gwersi gymnasteg gyda dosbarth Mr Williams ddechrau'r tymor a byddant yn derbyn hyfforddiant hoci o hyn hyd ddiwedd y tymor.

Mae'n bleser gennyf ddatgan bod yr ysgol wedi derbyn gwobr Arian Cynllun Gwyrdd Ysgolion Gwynedd 2004-5. Diolch yn arbennig i Mrs Anna Williams a'n cyfeillion o'r Antur am ein cynorthwyo gyda'r gwith. Eleni byddwn yn ceisio am y wobwr Aur.

Rydym hefyd yn ymfalchïo bod yr ysgol wedi derbyn grant o £3,000 gan Asiantaeth Gelfyddydol Gwynedd a Môn. Mae hyn yn ein galluogi i gyflogi yr artist Heather Lowe i gydweithio â holl blant yr ysgol ar brosiectau celf. Bydd Heather yn gweithio gyda'r plant bob dydd lau hyd y Nadolig. Byddant yn creu Logo'r ysgol mewn mosaïc i'w osod yn yr ardd chreu murluniau sidan i'w harddangos yn y neuadd. Bydd yn brofiad gwyh i'r plant gael gweithio gydag artist mor amryddawn a chael cyfle i greu cyfanwaith ysgol gyfan ar wahanol ddeunyddiau.

Dyddiadau i'w cadw mewn cof:

- Cinio Nadolig - 7 Rhagfyr;
- Sioe Nadolig yn y Ganolfan - 13 Rhagfyr;
- Dyddiad cau: 16 Rhagfyr
- Ailagor: dydd Mercher, 4 Ionawr.



Plant Blwyddyn 4 Ysgol Waunfawr yng Nghastell Caernarfon.

Mae pobl dros 50 oed yn ymddiried yng nghynhyrchion a gwasanaethau Age Concern

Yswiriant Cartref

Yswiriant Cerbydau a Diffyg ar y Modur

Yswiriant Teithio

Cynlluniau Angladd

Cyflenwadau Trydan a Nwy

Am fwy o wybodaeth ymwelwch â ni yn:

AGE Concern

Age Concern Gwynedd a Môn
Ty Seiont, Ffordd Santes Helen,
Caernarfon, Gwynedd LL55 2YD

01286 678310

gan ddyfynnu'r cyfeirnod: ECO'R WYDDFA

Mae Age Concern Enterprises Ltd wedi ei awdurdodi a'i reoleiddio gan yr Awdurdod Gwasanaethu Ariannol (PSA) ar gyfer yswiriant cyffredinol. Mae'n gwisgothu o tua 300 o Age Concern lleoliadau y DU

am help:

- i gychwyn prosiect
- i gael hyfforddiant
- i geisio am grant
- i redeg mudiad
- i wirfoddoli



cysylltwch â Mantell Gwynedd

- yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
ymholiadau@mantellgwynedd.com www.mantellgwynedd.com

01286 672626 neu 01341 422575

SEFYDLIAD Y MERCHED. Ar bnawn iau, 3 Tachwedd, cynhaliwyd Cyfarfod Blyneddol y Sefydliad yn Ffestri Capel y Waun gyda Catherine Jones yn y gadair. Estynnodd groeso i Pat Parry fel Cynghorwr o'r Sefydliad a hefyd ei llongyfarch ar gael ei gwobrwyo yn ddiweddar am ei gwaith yn y gymuned. Rhoddodd Pat ychydig o hanes y Sefydliad ers ei sefydlu yn 1915.

Cafwyd adroddiad cryno iawn am waith y flwyddyn gan Anne Williams, yr ysgrifenyddes a chan y llywydd. Cyflwynodd Wenna Edwards, y trysorydd, y fantolen ariannol am y flwyddyn. Diolchodd Catherine i bawb o'r swyddogion am eu gwaith a'u help yn ystod y flwyddyn. Ail-etholwyd y swyddogion. Cyfeiriodd hefyd at absenoldeb Mair Parry, oherwydd gwaeldd, gan ddymuno'n dda iddi.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 1 Rhagfyr, pryd y ceir cwis dan ofal Pat. Croeso cynnes i aelodau newydd.

CLWB BOWLIO. Cynhaliwyd noson gwyborwyo'r Clwb yn y Ganolfan ar nos Wener, 28 Hydref. Eisteddodd 22 o aelodau a ffrindiau i lawr i fwynhau pryd blasus wedi'i baratoi gan Cerid McKinnon o 'Blas ar Fwyd'.

Cyflwynwyd y gwobrwyon fel a ganlyn:

Tarian Coffa T.A. Thomas

(yn cael ei chyflwyno gan Mrs Annie Thomas)

1. Pearl Williams; 2. Anne V. Williams.

Cwpan (i Ferched) gan Fodurdy Pant Waun

1. Pearl; 2. Anne.

Cwpan (i ddau) gan Fodurdy Gwalia, Caeathro

1. Howie Edwards a Dafydd Price; 2. Fred Buckley ac Idris Evans.

(Cyflwynwyd rhain gan Emyr, y cyn-gadeirydd.)

Diolchodd Dafydd Price, y cadeirydd, i bawb am eu gwaith ac, fel cydnabyddiaeth i Catherine am ei gwaith fel Ysgrifennydd/ Trysorydd am 20 mlynedd, cyflwynodd Joe Large, yr ysgrifennydd, dusw o flodau iddi ac i Emyr am fod yn gadeirydd, potel o chwisgi. Croeso cynnes i aelodau newydd.

DATHLU PEN-BLWYDD. Llongyfarchiadau i Pryderi Thomas, Tref Eilian, ar gyrraedd ei ddeunaw mlwydd oed. Dymuniadau gorau iti i'r dyfodol, Pryderi.

GENEDIGAETHAU. Ganwyd mab bychan, Kieran, i Carwyn a Tina, Ael y Bryn, brawd bach i Jason Lee ac ŵyr bach i Gwilym ac Angela Parry, Stad Bryn Golau.

Merch fach, Nel Angharad, a anwyd i Maria a Huw Gwilym, Preswylfa, wyres fach i Olwen a Norman Williams, Llidiart Wen.

Llongyfarchiadau i'r ddau deulu a chroeso i'r ddau fach.

LLONGYFARCHIADAU i John Ferrarese a'i staff yn garej SKUDA am ennill tystysgrif TUV am safon uchel eu gwasanaeth a'u gofal o'u cwsmeriaid.

LLONGYFARCHIADAU hefyd i Mrs Pat Parry, Ffridd Felen ar dderbyn Gwobr Gwirfoddolwr dros Gyfiawnder gan Fwrdd Cyfiawnder Trosedd Gogledd Cymru. Enwebwyd hi i dderbyn y wobwr am ei chyfraniad gwirfoddol difflino yn y gymuned.

CROESO ADREF O'R YSBYTY i Mrs Gwenlli Williams, Ardwyn; Mrs Jane Leggett, Arwel ac Aled Griffith, Blaen y Nant. Gobeithiwn y byddwch yn gwella a chryfhau ar ôl cael dod adref.

Croeso adref hefyd i Mrs Eirwen

Jones, Cynefin, wedi iddi dderbyn triniaeth mewn ysbyty yng Nghaerdydd. Hefyd dymunwn wellhad i Mrs Winnie Evans, Lleifior, wedi iddi ddisgyn a brifo'i choes yng Nghaernarfon.

YN YR YSBYTY. Anfonwn ein cofion cynnes at Mrs Mair Parry a Mr Tom Griffith sydd yn yr ysbyty ar hyn o bryd.

DYMUNIADAU'R WYL. Ni fydd Mary, Llwyn Onn, a Margaret, Y Dalar Deg yn anfon cardiau Nadolig eleni. Dymunant Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL. Yng nghyfarfod y Gymdeithas nos Lun, 14 Tachwedd, croesawodd y cadeirydd, Mr Gwilym Williams, y siaradwr gwadd, Dr Gwynfor Pierce Jones o Dal-y-sarn. Cafwyd, drwy sgwrs a sleidiau, hanes chwarel Dorothea, Dyffryn Nantlle. Diolchwyd iddo am noson ddiffr gan Mr Gwilym Willoiams.

Cynhelir y cyfarfod nesa yn y Ganolfan ar nos Lun, 12 Rhagfyr. Y Parch Harri Parri fydd y siaradwr gwadd a'i sgwrs fydd 'Fe'm ganwyd yn fab i'm rhieni.'

Mae croeso cynnes ichi ymuno â'r gymdeithas.

MERCHED Y WAWR. Nos iau, 3 Tachwedd, daeth Gwyneth Glyn i'n diddori a gwybiodd yr amser heibio tra'n gwrandao arni'n canu a darllen penillion a'n diddanu gyda'i dawn anhygoel i adrodd stori. Noson dda iawn yn ei chwmini.

Adroddodd y Llywydd, Rhian Ellis, bod angen dwy aelod o'r gangen i fynd ar y Pwyllgor Anabl a chytunodd Alma Jones ac Irene Roberts i fynychu'r pwyllgor o'r flwyddyn newydd ymlaen.

Nos Wener, 11 Tachwedd, cynrychiolwyd y gangen yn y Cwis Cenedlaethol ym Meifod, Bontnewydd, gan Alma Jones, Gill Wyn, Rhian Ellis a Glenys Jones a chafwyd hwyl yn cystadlu, er na ddaeth gwobr yn ôl i'r gangen!

Nos iau, 1 Rhagfyr, byddwn yn dathlu'r Nadolig yn ciniawa yn y Bistro, Llanberis. Bydd bws yn cychwyn am 7 o'r gloch yn brydlon.

Cefnogwch ein Hysbysebwy

NANT PERIS

Llinos Jones, 6 Nant Ffynnon
Ffôn: (01286) 871820

MYNYDD GWEFRU. Pnawn Sul, 11 Rhagfyr am 2.00 o'r gloch cynhelir Cyngerdd Nadolig yng nghwmni Côr Meibion Peris a Seindorf Arian Deiniolen. Dewch yn llw i dreulio awr ddiffr. Nid oes tâl mynediad ond fe wneir casgliad at gronfa 'Diabetes Endowment Fund Ysbyty Gwynedd Bangor'.

DOSBARTH CYNGANEDDU Bwriedir dechrau dosbarth cynghaneddu ym Methel wedi'r Nadolig. Y tiwtor fydd y bardd amryddawn, Karen Owen, sydd wedi bod mor agos i gipio y Gadair a'r Goron mewn Eisteddfodau Cenedlaethol yn ddiweddar. Hi hefyd yw Golygydd y cylchgrawn *Golwg*. Bydd y sesiynau dwy awr yn agored i bob haen o 'feirdd' o'r profiadol i'r 'dechreuwr'. Y mae cryn ddiddordeb yn cael ei ddangos yn y fath grwpiau ledled Cymru ar hyn o bryd. Os oes gennych ddiddordeb - yn hen neu ifanc - mewn ymuno â'r grwp cysylltwch â Richard Llwyd (670115).

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: (01286) 679501 (gwaith). 677438 (cartref)

MYNYDD GWEFRU. Pnawn Sul, 11 Rhagfyr am 2.00 o'r gloch cynhelir Cyngerdd Nadolig yng nghwmni Côr Meibion Peris a Seindorf Arian Deiniolen. Dewch yn llw i dreulio awr ddiffr. Nid oes tâl mynediad ond fe wneir casgliad at gronfa 'Diabetes Endowment Fund Ysbyty Gwynedd Bangor'.

DOSBARTH CYNGANEDDU Bwriedir dechrau dosbarth cynghaneddu ym Methel wedi'r Nadolig. Y tiwtor fydd y bardd amryddawn, Karen Owen, sydd wedi bod mor agos i gipio y Gadair a'r Goron mewn Eisteddfodau Cenedlaethol yn ddiweddar. Hi hefyd yw Golygydd y cylchgrawn *Golwg*. Bydd y sesiynau dwy awr yn agored i bob haen o 'feirdd' o'r profiadol i'r 'dechreuwr'. Y mae cryn ddiddordeb yn cael ei ddangos yn y fath grwpiau ledled Cymru ar hyn o bryd. Os oes gennych ddiddordeb - yn hen neu ifanc - mewn ymuno â'r grwp cysylltwch â Richard Llwyd (670115).

CYNGOR CYMUNED.

Cynhaliwyd cyfarfod o Gyngor Cymuned Waunfawr ar noson Calan Gaeaf yn y Ganolfan, Waunfawr. Roedd y Cyng Vera Roberts a Clive James yn bresennol. Roedd y Cyngor yn gefnogol i estyniadau i 7 Tai Glangwna a Thŷ Newydd. (Yn y cyfarfod blaenorol nid oedd gwrthwynebiad i estyniadau i Llwyn Onn a 13 Erw Wen). Mis Hydref yw'r cyfle cyntaf i fudiadau gwirfoddol ymgeisio am gymorth ariannol. Rhoddwyd arian tuag at y canlynol:

Cronfa Mynwent Caeathro: £150; Clwb Bowlio Waunfawr: £150; Clwb Pêl-droed Ieuenctid Waunfawr: £300; Cymdeithas Cae Chwarae Caeathro: £250; Cymdeithas Llenyddol Waunfawr: £100; Cwmni Theatr Bara Caws: £80; Eco'r Wyddfa: £100; Mynwent Eglwys y Waun: £180; Eisteddfod yr Urdd, Sir Ddinbych, 2006: £50; Ysgol Feithrin y Bontnewydd: £140; Ysgol Feithrin y Waunfawr: £200; Ysgol Sul Caeathro: £340; Radio Ysbyty Gwynedd: £25 a Chlwb Merched Caeathro: £100.

CYDYMDEIMLWN â Mrs Helen Roberts, Sŵn y Gwynt, a'r teulu i gyd ar farwolaeth ei gŵr, Bob, ddiwedd mis Hydref ar ôl salwch yn Ysbyty Eryri.

TÎM SYLWEBU TELEDU NEWYDD Braf oedd clywed llais Tim Lloyd, Tyddyn Cae, fel un o sylwebyddion rhaglen S4C ar Ras Marathon Eryri ar 6 Tachwedd.

TYNFA MISOL. Enillwyr Tynfa Misol Cymdeithas Cae Chwarae Caeathro ar gyfer mis Tachwedd oedd:

£40: (111) John Morris, 7 Bryn Gof; £25: (51) D.J. Roberts, 5 Tai Brynteg; £15: (67) Barry Evans, 11 Erw Wen; £5: (11) Yvonne a Vernon, Islwyn, Stad Glandŵr. Diolch i gefnogaeth fyddlon yr hapchwaraewyr lleol selog bydd y Pwyllgor unwaith eto yn medru trefnu Hwyl Dros yr Ŵyl i bawb. GWASANAETHAU'R CAPEL. Disgwylir y gwasanaethau canlynol yn ystod mis Rhagfyr.

4: 10.00 Mr Edward Morus Jones
11.00 Ysgol Sul
11: 11.00 Ysgol Sul
18: 11.00 Ysgol Sul
5.30: Oedfa Nadolig
25: 11.00 Oedfa Deuluol Fer ar Fore Nadolig

FFAIR NADOLIG. Cynhelir Ffair Nadolig yng Nghanolfan y Capel am 7.00yh nos iau, 8 Rhagfyr. Mynediad 50 ceiniog, gan gynnwys paned a bisgedi. Bydd stondinau amrywiol.

PARTI'R PLANT. Bydd y Parti Nadolig ar gyfer plant hyd at ac yn cynnwys Blwyddyn 6, yn cael ei gynnal yng Nghanolfan y Capel am 5.30 nos Lun, 19 Rhagfyr. Ho! Ho! Ho!

CANU CAROLAU. Bydd Seindorf Band Llanrug yn arwain canu carolau o amgylch y Goeden Nadolig am 6.30 nos Fercher, 21 Rhagfyr. Be pai'r tywydd yn anffafriol, bydd y canu yng Nghanolfan y Capel.

CYFLENWAD TRYDAN. Bydd Manweb yn ymgymryd â gwaith Tai Glangwna ar ddydd iau, 15 Rhagfyr rhwng 9.00 y bore a 4.30.

Gofynnir i drigolion beidio â pharcio o flaen Tai Glangwna yn ystod dydd iau. Wrth gwrs, bydd toriad yn y cyflenwad trydan hefyd rhwng yr amseroedd yma.

CLWB MERCHED CAEATHRO. Yng nghyfarfod mis Hydref cafwyd noson hynod ddiddorol a difyr yn dysgu sut i dynnu lluniau effeithiol, yng nghwmni Richard Jones. Enillwyd y raffl gan Olga Evison a lona Thomas fu'n gyfrifol am wneud y te.

Roedd y cyfarfod nesaf ar nos iau, 24 Tachwedd, yng nghwmni Marian Hughes a Nan Jones a oedd yn dangos i'r aelodau sut i wneud cardiau Nadolig. Cafwyd hwyl efo pren mesur a siswrn wedi'r sgwrs.

ARCHEBION OLAF, PLÏS Pwy oedd yr unigolyn olaf i brynu peint o gwrw yn Nhafarn Bryngwna ychydig eiliadau cyn 11.00 yh ar nos Fercher, 23 Tachwedd - sef diwrnod olaf y ddeddfwriaeth trwyddedu tafarndai a gyflwynwyd gan David Lloyd George yng nghanol y Rhyfel Mawr, er mwyn atal gweithwyr oedd yn cynhyrchu arfau rhyfel rhag meddwi?

Yr ateb: Dewi Jones, Erw Wen.

Digwyddiadau Nadolig yng Nghaeathro

Nos iau, 8 Rhagfyr:
7.00 Ffair Dolig, Canolfan y Capel
Dydd Sul, 18 Rhagfyr:
5.30 Gwasanaeth Nadolig, Canolfan y Capel

Nos Lun, 19 Rhagfyr
5.30: Parti'r Plant, Canolfan y Capel

Nos Fercher, 21 Rhagfyr:
6.30 Canu Carolau, o gylch y Goeden Nadolig

Bore Sul, 25 Rhagfyr:
11.00 Oedfa Bore Nadolig, Canolfan y Capel

NADOLIG LLAWEN I BAWB

Pen-blwydd Hapus



Cledwyn Williams, Tŷ'r Ysgol, Llanrug, yn 90 oed gyda'i deulu a ffrindiau.

Cyngor Cymuned Llanrug

Cyfarfu'r Cyngor Cymuned nos Fawrth, Tachwedd 15fed yn Ysgol Gymuned Cwm y Glo. Cadeiriwyd gan y Cyng. Arwel Thomas a chadarnhawyd cofnodion cyfarfod mis Hydref. Cydymdeimlwyd a'r Cyng. Eryl Roberts yn ei phrofedigaeth o golli ei thad, Mr Llewelyn Hughes, gynt o Gwm y Glo.

Croesawyd Mr Haydn E. Hughes, Swyddog Prosiect Gweithredu Natur Gwynedd i'r cyfarfod. Rhoddodd Mr. Hughes gyflwyniad am weithgareddau'r prosiect. Mae modd i grwpiau cymunedol, tîrfeddianwyr neu rai sydd eisiau hybu sgiliau wneud cais am grant cadwraeth neu bioamrywiaeth. Y math o sgiliau a enwyd oedd adfer cloddiau, cau bylchau mewn waliau pridd, plannu gwrychoedd a chreu llwybrau. Gorau oll os gall hyn dynnu plant i mewn i weithio ar gadwraeth, diddordebau amgylcheddol neu warchod

cynefinoedd anifeiliaid. Bydd y prosiect yn rhedeg tan ddiwedd Rhagfyr 2007. Os am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Mr Hughes yng Nghyfadrann Amgylchedd Cyngor Gwynedd.

Ceisiadau Cynllunio

Daeth naw cais gerbron ac nid oedd gwrthwynebiad i chwech ohonynt. Tynnwyd sylw at ddyluniad a'r bwriad o ddefnyddio plastig ar gyfer gwneud tŷ haul yn Lledfegin, Caethro. Awgrymwyd y dylai Bwyty Sopna, Pontrug, arddangos arwydd Cymraeg 'Ar Agor' yn ogystal â'r un Saesneg a fwriadwyd. Teimlid fod y lolfa haul ar gyfer Capel Ceunant allan o gymeriad y capel fel adeilad a chymeriad cefn gwlad.

Adran Priffyrdd

Bydd cais yn cael ei wneud i Wynedd i gael golau ar y ffordd rhwng Bryngwyn a Fferm Cae Rhos, a hefyd ym mhen lôn Stad Glanffynnon. Daeth nifer o gwynion i law am beryglon y ddau safle.

Bydd hefyd angen clirio gordyfiant yng ngwaelod allt Ceunant ac yn ymyl Rhes Trefor. Mae'n anodd iawn gweld y drafnidiaeth yn y manau hyn.

Daeth cais i'r Cyngor fynd ati i lanhau dau adeilad safle bws - y naill dros y ffordd i Dolafon a'r llall ar y briffordd wrth ymyl Erw Gain yn Llanrug.

Bydd cais yn cael ei wneud i Gyngor Gwynedd ofyn i'r lori fin bach fynd at giât y fynwent yn Llanrug i wagio'r sbwriel. Gan fod y ffordd wedi cael wyneb newydd a bod maes parcio addas yn y pen draw, fe all y lori droi yn ôl yn hwylus. Bydd arwyddion Parcio yn cael eu gosod ar y giât ddwbl ac ar y

wal bellaf gan fod modd parcio ar y tarmac ac ar y llain wyrdd tu draw iddo.

Ynglŷn â phroblemau trafnidiaeth a pharcio yng Nghwm y Glo, trefnwyd cyfarfod yn y pentref ddechrau mis Rhagfyr rhwng cwmni KMP, aelod o Adran Trafnidiaeth Gwynedd, y Cyngorydd Sir ac aelodau o'r Cyngor Cymuned. Gobeithir setlo'r broblem unwaith ac am byth.

Bydd cyfarfod Cyngorau Cymuned / Tref yng Nghaernarfon ar Dachwedd 28ain a bydd Arwel Thomas, Dafydd Wh. Thomas a'r Clerc, Mair Lloyd Hughes, yn cynrychioli'r Cyngor Cymuned. Bydd nifer o gwestiynau yn cael sylw ar y noson - llwybrau Beiciau Dyffryn Peris; ffordd osgoi Caernarfon drwy Bontrug; lledu'r ffordd ym mhen allt Ceunant; trafnidiaeth drwy sgwâr Llanrug petai datblygiadau mawr yng Nglynrhonwy; problemau llifogydd yng ngwaelod Crawiau ac yng Nghwm y Glo. A oes bwriad dod â'r 'lengthman' yn ôl i glirio ochr y ffyrdd?

Cyflwynwyd ceisiadau am nawdd ariannol a rhannwyd fel a ganlyn:

Eco'r Wyddfa £500; Rygarug £500. Ni all y Cyngor ystyried ceisiadau am gymorth ariannol os nad oes mantolen yn cael ei chyflwyno gyda'r llythyr cais.

Cynhelir y cyfarfod nesaf yn y Sefydliad Coffa am 7 o'r gloch, nos Fawrth, Rhagfyr 20fed 2005.

Tŷ Gwledig Meifod Bontnewydd

'Dewch yn gynnar i elwa o gynnig arbennig'

Cinio o 4.00 y.h. - tan 6.00 y.h.

Dydd Llun i ddydd Gwener

1 Cwrs - £6.95 • 2 Gwrs - £8.95 • 3 Chwrs - £10.95

Prydau bar ar gael hefyd

wedi gweini o 12.00 y.p. tan 9.00 y.h.

(Bwydlen newydd wedi ei chyflwyno)

Nawr mae'r hydref wedi cyrraedd a'r gaeaf rownd y gornel cymerwch fantais i fwynhau ein cynnig arbennig yma mewn awyrgylch glyd a chynnes o flaen y tân agored.

Cysylltwch â ni am fanylion pellach ar 01286 673351

Nadolig Llawn
a diolch am eich
cefnogaeth
oddi wrth

Alwyn a Sarah Penisarwaen Ffôn 870605

- Rithoedd Celyn, Coed Nadolig a 'Crem Pots' a Rithoedd Drws
- Basgedi Planhigion, Blodau Ffres a Silc
- Danfon blodau 7 diwrnod yr wythnos drwy'r fro
- Gwasanaeth Tudalennau Siarad/Talking Pages 118 247
- Hefyd, Bouquets Nadoligaidd



RHODD O'R GALON YW BLODAU

DODREFN PERKINS

(Safle'r hen Nelson)
CAERNARFON

Ffôn: (01286) 676 040

- Pob math o ddodrefn tŷ
- Cegin, 'stafell fyw, llofft
- Prisiau cystadleuol
- Danfon am ddim i holl ardal Bro'r Eco



Ar Ben Arall y Lein

Adroddiad 2005

Wrth i ni ddod at ddyddiau olaf y tymor pysgota mae'n ddiffr edrych yn ôl ac adrodd ar ein gweithgareddau yn ystod y flwyddyn. Mae'r pysgota ar brydiau wedi bod yn siomedig ac eto mae agweddau positif iawn i'n hanes ers dechrau'r 2005.

Yn ystod y penwythnosau oer yn Ionawr a Chwefror, pan yr oedd pawb yn mwynhau gwefr ein tîm rygbi cendlaethol, rhaid cofio bod criwiau bach wrthi ar ein rhan ar foreuau Sadwrn yn clirio'r glannau a thorri coed ar hyd ein dyfroedd. Eleni fe wnaethpwyd gwaith da iawn i glirio glannau'r Seiont, o Lyn Garnage drwy Gaeau'rafon ac i lawr at Ysbyty Eryri. Roedd rhai o'r pyllau a'r rhediadau a ddadorchuddiwyd drwy lafur yr aelodau yma yn wledd i'r llygaidd ac i'r dychymyg wrth edrych ymlaen at y tymor oedd o'n blaenau. Unwaith eto mae lle i ddiolch i'r gwirfoddolwyr sydd yn cyfrannu eu hymdrechion i ymestyn potensial ein dyfroedd a chynnig cyfleon ychwanegol i'r holl aelodau.

Mae'r tyfiant newydd a neidiodd o'r pridd yn ystod misoedd yr haf yn ein hatgoffa nad oes diwedd i'r math yma o waith ac fe fydd angen ymdrechion tebyg eto cyn hir.

Efallai mai un o uchafbwyntiau'r blynyddoedd diwethaf (heb sôn am 2005) i'n Cymdeithas oedd cael estyn croeso ym Mis Ebrill i gyrychiolaeth o lu o glybiau a physgodfeydd gogledd Cymru i westy'r Seiont Manor yn Llanrug i glywed Niall Greene a siaradwyr eraill o'r corff Stop Salmon Drift Nets Now (www.stopnow.ie), sydd yn ymgyrchu i leihau effaith y rhwydo llethol ar hyd arfordir Iwerddon ar bysgodfeydd eog yng Nghymru a de-orllewin a de Lloegr. Er nad oes posib i Asiantaeth yr Amgylchedd ddylanwadu yn uniongyrchol ar lywodraeth Iwerddon, roedd eu datganiad pendant eu bod, fel corff sydd yn cynrhychioli'r llywodraeth yng Nghymru a Lloegr, yn mynnu y dylid lleihau ar y ddalfa yn y bysgotfa yma i lawr at 1% o stoc afonydd Cymru a de Lloegr yn eithaf cadarn a sicr. Mae datblygiadau pellach ers y gwanwyn yn caniatáu rhywfaint o obaith at y dyfodol. Roedd y siaradwyr ar daith i hybu'r achos ac wedi cynnal nosweithiau yn Swydd Hampshire, Caerfyrddin a Gwynedd ac mae cryn falchder bod ein Cymdeithas ni wedi chwarae rhan mor flaenllaw yn eu cyflwyniad.

Ond beth am y pysgota? Araf braidd oedd yr afonydd ar ddechrau'r tymor, ond wrth iddi

gynhesu roedd rhai o'r llynnoedd - yn enwedig Cwellyn a Nantlle yn pysgota'n dda iawn. Wedi gwanwyn da yn 2004 roedd Llyn Padarn yn dawel ac yn wir wrth i'r tymor ymestyn at yr haf roedd y torgoch hefyd yn brin iawn, neu o leiaf yn gyndyn iawn i gynnig. Ar Afon Llyfni roedd dŵr isel yn amharu ar y rhediadau ond eto roedd heigiau o sewin a nifer o eog i'w gweld yn y môr ym Mhontllyfni yn ystod yr haf - yn tynnu sylw pysgotwyr o bob math a hefyd wedi eu nodi gan giperiaid Asiantaeth yr Amgylchedd.

Daliwyd ambell eog o'r Gwyrfa ar yr ychydig ddŵr a gawsom ar ddiwedd yr haf. Ond ar y Seiont roedd yr wythnosau sych i'w gweld yn ymestyn ymlaen yn ddi-dor. Prin iawn oedd y sewin cyn y llyfogydd cymhedrol ar ddiwedd Medi, ac ni feddyliai llawer o'r aelodau bod gobaith am eog - ac eto roedd nifer dda wedi rhuthro o'r môr i rai o'r pyllau. Roedd eogiaid yn berwi yn Llyn Garnage yn mis Medi - rhengoedd i'w gweld yn gorwedd rhwng y creigiau - ac er y rhwystredigaeth roedd llawer o'r aelodau wedi mwynhau ceisio hudo'r pysgod yma i droi a gafaél yn y bluen. Anaml iawn y daeth llwyddiant ond anamlach byth oedd diflastod.

Tra ein bod yn mwynhau gweld y pysgod mae'n rhaid dweud fod y llanastr a sbwriel a welwyd ar ochr Llyn Garnage yn tueddu i adlewyrchu'n sâl ar ein haelodau. Wrth gwrs, roedd pryder hefyd bod y nifer o bysgod yn mynd i ddal sylw potsiars - yn wir roedd llawer o sôn fod potsio wedi bod yn broblem ar ddechrau'r haf ar yr Afon Seiont hefyd, a'r teimlad oedd nad oedd dim yn cael ei wneud i wella'r broblem. Yn y diwedd fe fynnodd cyfarwyddwyr y Gymdeithas gael cyfarfod brys gydag un o Uwch Swyddogion Asiantaeth yr Amgylchedd ar ddechrau mis Medi i fynegi'n pryder nad oedd cipar i'w weld ar ein dyfroedd, a phwysleiswyd bod ein aelodau ni hefyd yn talu cost trwydded blynyddol i'r Asiantaeth. Efallai nad oedd cysylltiad rhwng y cyfarfod a gweithgareddau'r ciperiaid ond yn sicr mae mwy o bysgotwyr wedi gweld cipar ar lan yr afon yn ystod yr wythnosau diwethaf, yn ôl pob sôn.

A beth am Lyn Dywarchen? Os soniwyd wrth aelod am y llyn yma mae rhywun yn cael un o ddau ymateb: un ai 'Fydda i byth yn mynd i'r lle,' neu canmoliaeth mawr am safon y pysgota sydd i'w gael yno. Roedd rhaglen stocio mwy

uchelgeisiol ar waith yn ystod 2005 ac fe welwyd manteision y cynllun yma yn ystod dyddiau a nosweithiau'r haf. Roedd aelodau ac ymwelwyr ar lannau Llyn Dywarchen yn gyson, a chafwyd 'sgota o'r safon uchaf ar brydiau, gyda llawer o'r genweiri unigol yn llwyddo i ddal cyfanswm mawr dros yr wythnosau gorau.

Roedd rhai o'r pysgod wedi eu cadw a'u bwydo yn y ddeorfa am sbel ac yn mynd i fewn i'r llyn yn slabiau o bysgod trwm a chryf, gyda chynffonnau iach ac yn werth eu gweld ar ôl eu dal. Ond mae costau uwch wedi bod ynghlwm yn y drefn newydd: arian mae'r Gymdeithas wedi ei wario i baratoi pysgota gwefreiddiol medd rhai, costau na allwn eu fforddio i'r dyfodol medd eraill. Mae teimlad ymysg rhai aelodau y dylid cyfyngu ar y nifer o ymweliadau neu bysgod a ganiatwyd i'w cadw os yw'r gwariant yma i'w gyfiawnhau yn y blynyddoedd nesaf. Eto ac eto mae'n rhaid i'r aelodau, y pwyllgor a'r cyfarwyddwyr, bwyso a mesur incwm a gwariant. Yn ôl yr holiaduron a ddaeth i law ar ddechrau'r tymor roedd cryn gefnogaeth ymysg yr aelodau i godi lefel stocio Llyn Dywarchen - bellach mae'n rhaid talu'r biliau.

Mae rhai newidiadau ar y gweill. Mae Mr Maurice Jones a Mr Gwynfor Jones yn ymddiswyddo fel cyfarwyddwyr i'r Gymdeithas. Mae'r ddau wedi rhoi blynyddoedd o wasanaeth i'r clwb fel swyddogion, aelodaeth o'r pwyllgor, a gwaith gweinyddol ac ymarferol ar ein dyfroedd, ac mae'n bleser diolch i'r ddau ar eich rhan am eu cyfraniad dros y blynyddoedd. Efallai bod eu gwasanaeth swyddogol yn

lleihau and gobeithiaf y caiff y Gymdeithas fanteisio ar eu gwybodaeth a'u profiad o bryd i'w gilydd yn y dyfodol.

Mae rhywfaint o newid ymysg criw ffyddlon y ddeorfa hefyd a diolchwn i'r hogiau sydd yn lleihau eu baich yno oherwydd eu gwahanol resymau ac mae'n braf clywed bod rhai eraill wedi camu i'r bylchau.

Wrth ddiwedd yr adroddiad yma sylweddolais nad oeddwn wedi sôn am ganws! Diflas yw cynnwys y pwnc mewn adroddiad ar ein pysgota ond mae'n codi eto ac eto. Mae'r swyddogion ar ran y Gymdeithas wedi bod yn ceisio trafod efo Asiantaeth yr Amgylchedd a chyrff canwio ynglŷn â cytundeb mynediad yn y dyfodol. Yn anffodus roedd yr Asiantaeth wedi cynnal cyfarfod efo'r diddordebau canwio i drafod defnydd ein dyfroedd ni ond ni wahoddwyd y Gymdeithas i gyfrannu at y drafodaeth.

Fe'n siomwyd ni ymhellach pan awgrymwyd (yn ddi-sail) i'r cyfarfod bod amheuaeth am rai o'n hawliau a'n heiddo. Yn dilyn hyn mae cyfarwyddwyr y Gymdeithas wedi penderfynu rhoi'r gorau am y tro i drafod mynediad canws i'n dyfroedd.

Ar ddiwedd y flwyddyn hoffwn ddiolch yn arbennig i'r Ysgrifennydd am ei waith ar hyd y flwyddyn. Diolchaf hefyd i'r Trysorydd, y cyfarwyddwyr a holl aelodau'r pwyllgor am eu gwaith, a hefyd i'r aelodau a fu wrthi yn trefnu a chyflawni gwaith ar ein rhan.

Ar ran y Pwyllgor a'r swyddogion hoffwn gynnig y dymuniadau gorau i chi a'ch teuluoedd dros y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd a phob hwyl gyda'r enwair yn 2006.

SNOWDONIA PARC WAUNFAWR

- Tŷ Rhydd • Bwyd Cartref • Prydau Plant
- Ystafell Deulu • Cinio Dydd Sul Traddodiadol
- Cerddoriaeth Fyw • Cwrw Go Iawn

Ffôn: 650218

Ymestyniad Ffôn wedi Torri?
Angen rhai Newydd? os felly

☎ FFONIWCH ☎

(01286) 650247 neu (07780) 811617 (symudol)

Eifion Hughes (7 diwrnod)

Gwasanaeth Da am Bris anhygoel

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

MYNYDD GWEFRU. Prawn Sul, 11 Rhagfyr am 2.00 o'r gloch cynhelir Cyngerdd Nadolig yng nghwmni Côr Meibion Peris a Seindorf Arian Deiniolen. Dewch yn llw i dreulio awr ddifrif. Nid oes tâl mynediad ond fe wneir casgliad at gronfa 'Diabetes Endowment Fund Ysbyty Gwynedd Bangor'.

DOSBARTH CYNGANEDDU

Bwriedir dechrau dosbarth cynganeddu ym Methel wedi'r Nadolig. Y tiwtor fydd y bardd amryddawn, Karen Owen, sydd wedi bod mor agos i gipio y Gadair a'r Goron mewn Eisteddfodau Cenedlaethol yn ddiweddar. Hi hefyd yw Golygydd y cylchgrawn *Golwg*. Bydd y sesiynau dwy awr yn agored i bob haen o 'feirdd' o'r profiadol i'r 'dechreuwr'. Y mae cryn ddiddordeb yn cael ei ddangos yn y fath grwpiau ledled Cymru ar hyn o bryd. Os oes gennych ddiddordeb - yn hen neu ifanc - mewn ymuno â'r grwp cysylltwch â Richard Llwyd (670115).

YR YSGOL GYMUNED

Digwyddiadau'r Ysgol. Cynhelir nosweithiau'r Urdd bob yn ail nos Lun â Champau'r Ddraig.

Carol yr Ŵyl. Mae'r ysgol wedi cymryd rhan yng nghystadlaethau 'Carol yr Ŵyl' a gynhelir gan gwmni Tinopolis. Bu Mrs Humphreys yn brysir iawn yn cyfansoddi Carol Nadoligaidd ei naws heb fod yn fwy na phedwar munud o hud a recordiwyd y disgyblion yn ei chanu. Cawn glywed y garol yng nghyngerdd Nadolig yr ysgol.

Gwledd o Gerdd. Cafwyd prynhawn hynod o ddiddorol yn yr ysgol pan ddaeth y cerddor, Edward Jay, i'n plith o 'Cerdd Byw Cymru'. Roedd yn arbenigwr ar yr acordian. Cafodd yr holl ddisgyblion gyngerdd gwerth chweil gyda gweithdai yn dilyn o fewn bandiau addysgol i greu a chyfansoddi cerddoriaeth eu hunain. Profiad gwerth chweil!

Gweithgareddau i'w Cynnal. Cynhelir ein Sioe Nadolig eleni yn Eglwys Penisarwaun ar brynawn Mercher, 7 Rhagfyr am 1.30 ac yna ar nos lau, 8 Rhagfyr am 6 o'r gloch. Bydd tocynnau ar gael o'r

ysgol.

Pantomeim Hela'r Twrch Trwyth. Bydd disgyblion yr ysgol yn mynychu Theatr Gwynedd ar brynawn y 12 Rhagfyr i weld cynhyrchiad o'r Pantomeim uchod.

Cinio Nadolig. Mae'r amser wedi dod unwaith yn rhagor i stwffio'r twrci a chladdu'r mins peis. Bydd Cinio Nadolig yr ysgol ar 15 Rhagfyr.

Clwb Plant. Hoffwn eich atgoffa y bydd Clwb Plant ar agor hyd 16 Rhagfyr. Mae croeso i blant Ysgol Gynradd y penterf ymuno â'r clwb. Cyfle i rieni fynd i siopa Nadolig. Os am ragor o wybodaeth cysylltwch â Mrs Rhian White yn yr ysgol.

Ymgrych Plentyn y Nadolig. Bu disgyblion a rhieni yr ysgol yn paratoi bocsys esgidiau ar gyfer plant y trydydd byd. Diolch i bawb a gyfranodd.

Dymuna holl staff yr ysgol Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb yn y gymuned.

EGLWYS SANTES HELEN.

Gwasanaethau Rhagfyr

Bydd gwasanaeth cyntaf y mis, 4 Rhagfyr, yn cael ei gynnal am 10.00 y bore, a'r gwasanaeth ar y Sul canlynol, sef 11 Rhagfyr, ar amser newydd ein gwasanaethau yn y prynhawn, sef 3.30 o'r gloch.

SYLWER

Dyma fydd amserau'r gwasanaethau o hyn ymlaen:
10 y bore ar y Sul cyntaf a'r trydydd Sul, a 3.30 y prynhawn ar yr ail a'r pedwerydd Sul.

Bydd Gwasanaeth Nadolig yr Ysgol Sul eleni yn cael ei gynnal ar 18 Rhagfyr am 3.30pm. Gwasanaeth Cristingl fydd hwn, ac estynnir croeso cynnes i bawb. Ar Noswyl y Nadolig, cynhelir Cymun Bendigaidd am 9.00 yr hwyr.

Mae to côr yr Elgwys bellach wedi ei atgyweirio. Gan i'r difrod darfu ar drefniadau Dydd Rhodd eleni, byddwn yn ddolchgar am unrhyw gyfraniad tuag at y to ar hyd mis Rhagfyr.

Bydd llyfrau ariannol yr Eglwys yn cau, yn ôl yr arfer, ar ddiwrnod olaf y flwyddyn galendr. Croesewir cyfraniadau trwy law'r Trysorydd,

Mrs Margaret Christian, neu'r wardeniaid, Mrs Mary Davies neu Huw Tegid Roberts.

EISTEDDFOD BENTREF. Nos Wener, 4 Tachwedd am 6 o'r gloch roedd y Neuadd Gymuned dan ei sang gyda chefnogaeth gref gan y plant, yr ieuencid a charedigion a chefnogwyr ffyddlon yr Eisteddfod.

Yn ôl Mrs Mair Huws, y beirniad Cerdd, a Siwan Llinor, y beirniad Adrodd, roedd safon y cystadleuwyr o dan 12 oed yn ganmoladwy iawn.

Cafwyd eitemau o safon uchel dros ben mewn rhai cystadlaethau gan yr adran Ieuencid hefyd, gyda bysedd bywiog Lois Eifion yn cyfareddu'r gynulleidfa werthfawrogol. 'Hysbys y dengys y dyn'.

Roedd cefnogaeth yr ieuencid eleni yn galonogol iwn a diolch iddynt am aros hyd ddiwedd yr Eisteddfod am 11.00. Siomedig efallai oedd yr ymateb i rai o'r cystadlaethau ond bu'r symud i record, canu ysgafn, dawnsio gwerin unigol, deuawd a chwarae'r piano yn tra rhagori ganddynt. Ar adeg egwyl i'r beirniaid prysur, braf oedd gweld tua 30 o ieuencid ar y llwyfan yn mwynhau cwis hefo Anti Bronwen.

Y beirniad Llên oedd Tami Gwyn a diolchir iddi am ei beirniadaethau adeiladol i'r plant a'r bobl ifanc ac am ei chanmoliaeth ac anogaeth i'r Prif Lenorion, sef Mared Jones, oed Cynradd a Lois Eifion, oed Uwchradd. Roedd y Coginio a'r Gwaith Llaw o safon uchel hefyd a

diolchir i Mrs Mair Griffiths am ei beirniadaeth garedig. Beirniad Arlunio oedd Frank Green a diolchir iddo yntau am ei werthfawrogiad.

Y Llywydd eleni oedd Lois Dafydd, Pen Dinas Mawr, sydd bellach yn Fferylllydd yn Ysbyty'r Heath, Caerdydd. Diolchir iddi am ei gwerthfawrogiad i'w chartref, Ysgol Tan y Coed a Brynrefail, Adran Bentref yr Urdd, Ysgol Sul Bosra, bwrllwm gweithgareddau'r bentref ac wrth gwrs am gael magu hyder o flaen cynulleidfa ar lwyfan yr Eisteddfod Bentref. Rhannodd ei hatgofion â ni a diolchir iddi am ei chyfraniad a'i charedigrwydd. Diolch Lois a phob dymuniad da i ti i'r dyfodol.

Fe gafwyd eitemau gan rai oedolion yn ogystal. Swynwyd y gynulleidfa gyda datganiad digyfeiliant 'Teulu Hendre Waun!' sef John Eifion, Marina, Lois ac Anest, o'r garol hudolus 'Hwn yw fy mhlentyn i'.

Lwyddodd y parti cyd-adrodd i gyflwyno 'Eifionydd' a hynny'n ystyrlon a theimladwy iawn yn ôl Siwan Llinor. Diolch iddi am ei geiriau caredig!

O! do! fe gafwyd cân ysgafn a hynny ar diwrnod 'Amarillo', gyda Lois Eifion yn cyfeilio, yn sôn am hwyl a sbri yr Eisteddfod Genedlaethol yn y Faenol.

Roedd y parti canu yn soniarus dros ben, yn ôl Mair Huws, ac yn addas fel clo i eisteddfod lwyddiannus gyda'r gân 'Credaf', cyfieithiad o gân enwog y Bachelors 'I Believe'. Rydym innau'n credu'n ffyddiog bod



Hywel Williams
Aelod Seneddol



Alun Ffred Jones
Aelod Cynulliad

Etholaeth Caernarfon

CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'r A.S. neu'r A.C. mewn cymhorthfa, ffoniwch **01286 672076** i wneud apwyntiad

neu
ysgrifennwch atynt:
Swyddfa Etholaeth
8, Stryd y Castell, Caernarfon LL55 1SE
neu
e-bost: **williamsgw@parliament.uk**

TAFARN BRYNGWNA Caeathro

Croeso mawr i bawb i'r 'Bryngwna' yng nghanol pentref Caeathro, lle ceir bwyd cartref ac amrywiaeth o ddiodydd traddodiadol, i gyd mewn awyrgylch cartrefol mewn tafarn bentref, yng nghwmni Gareth a Steffan Bowen.

Cinio dydd Sul a byrbrydau ar gael

Ffoniwch **(01286) 674568** i gadw bwrdd neu archebu ymlaen llaw

Gwaith Plymio a Gwres Canolog

Dafydd Williams

(Rhiwlas)

01248 353815

Symudol:
07887 525118

Trin a Thrsio Boileri
Tanwydd olew

Gwasanaeth lleol dibynadwy a da



ac OFTEC

Gosodwr Teils

Arbenigwr mewn walïau a llorïau

Gwaith bach neu fawr
Gwaith da bob amser

Ffoniwch Lloyd ar
01286 830 805





Parti lanto, oed Babanod, yn morio canu Cân Tangaleo.

dyfodol i'r heistoddod gyfeillgar ni yma ym Mhenisarwaun.

Dymunir diolch i'r beirniaid oll a eu gwaith caled, i'r Arweinyddion, ac yn arbennig i Marian, Dewi y cyfeilydd a Bronwen am dreulio oriau cyn yr eisteddfod yn hyfforddi'r unigolion a'r partiön canu. Diolchir hefyd i bennaeth a staff yr ysgol am ofalu am y gwaith llên, arlunio a chelf ac am adael i Anti Ann gipio rhyw hanner awr bob hyn a hyn i ddysgu'r parti cyd-adrodd. Diolch i chwithau rieni am eich anogaeth a'ch cefnogaeth i'ch plant. Llwyfan Eisteddfod bentref fu man cychwyn cantorion enwog y gorffennol a man cychwyn John Eifion a'i gyfoedion heddiw.

YDY, mae'n ddyletswydd ar i BOB UN ohonom gefnogi ein heistoddod bentref ein hunain. Edrychwn ymlaen yn ffyddiog rŵan am Eisteddfod 2006.

CRONFA'R PENSIYNWYR. Enillydd pêl bonws Loteri Hydref oedd Mrs Gwyneth Jones, 25 Bryn Tiorion (Rhif 3). Llongyfarchiadau! Diolchir i bawb am gefnogi'r weithgaredd drwy'r flwyddyn. Diolchir hefyd i bawb a gefnogodd ein gweithgaredd olaf i godi arian, sef y Ffair Nadolig, nos Wener, 18 Tachwedd. Gwnaed elw sylweddol o £185.

Cynhelir y Cinio Nadolig dydd Sadwrn, 3 Rhagfyr, yng ngwesty'r Sportsman, Porthmadog.

GWELLA. Anfonir ein cofion gorau at Martin Parry, Sŵn yr Awel, gan obeithio ei fod yn gwella yn dilyn damwain a ddaeth i'r ran yn ddiweddar. Gobeithio hefyd y bydd pawb yn gwella erbyn y Nadolig.

PEN-BLWYDDI ARBENNIG.

Llongyfarchiadau i Marina a Janet ar achlysur pen-blwyddi arbennig yn ddiweddar. Llongyfarchiadau mawr hefyd i Mr Robert Griffiths, Groeslon Isaf Cottage, ar achlysur ei ben-blwydd yn 80 oed ar 18 Tachwedd.

DIOLCH. Dymuna Robert Griffiths ddiolch yn ddiffuant i'w deulu, cymdogion a ffrindiau am y llu cardiau ac anrhegion ac am y noson o aduniad hwyliog a gafodd ar achlysur ei ben-blwydd arbennig. Diolch yn fawr.

PWYLLGOR NEUADD. Enillwyr Clwb Cant Tachwedd yw: Wil Jones, 24 Bryntirion; Annie Hughes, Cae Hywel; Eirlys Jones, Gwynant, Bryn Hyfryd.

Tynnir Clwb Cant Rhagfyr yn y Noson Wasael a gynhelir **nos Iau, 15 Rhagfyr am 6.30 o'r gloch.** Bydd pwnsh a mins pei, raffl a digon o ganu carolau, eitemau gan y plant ac unigolion. Dowch i

fwynhau ysbryd yr Ŵyl gyda'n gilydd.

YSGOL SUL BOSRA. Bore Sul y Cofio, bu aelodau'r Ysgol Sul yn cynnal gwasanaeth i gofio am y rhai a syrthiodd mewn rhyfel. Cafwyd dau funud o dawelwch wrth Gofeb y Capel a godwyd i gofio am y bechgyn o'r Capel a syrthiodd yn Rhyfel 1939-45. Roedd dau ohonynt yn frodyr i Arnold Jones, Waun, sef Elfed Jones a Charles Jones. Arthur Terrace, a Griffith Williams, Coed Parc, oedd y llall. 'Yn angof ni chânt fod.'

Cynhelir 'Sul y Teulu' gyda Mr Merfyn Jones bawn Sul, **18 Rhagfyr am 2.00** o'r gloch. Bydd y plant yn cymryd rhan mewn darlenniadau a charolau. Gweinyddir bedydd Harri, mab bychan Rhian a Stephen, a bydd hyn yn brofiad gwerthfawr i'r plant. Mae Siôn Corn wedi cadarnhau y bydd yn dod i'w gweld ar ddiwedd y gwasanaeth. Croeso cynnes i bawb.

APÊL BOSRA. Yn dilyn Marathon Caerdydd y mae arian noddî Eurgain Haf bellach dros £600 ac mae rhai eto yn awyddus i gyfrannu. Dymunir diolch i Eurgain am ei hymdrech galed ac i'r noddwyr hael am eu cefnogaeth. **DISGO NADOLIG.** Nos Wener, 25 Tachwedd, cynhaliwyd disgo i blant oedran cynradd yn y Neuadd Gymuned. Diolch i bawb a gefnogodd y noson. Bydd enwau enillwyr y Raffl Fawr yn y rhifyn nesaf.

BRIGYN. Er mai yn Arwel, Llanrug, y mae Ynnyr ac Eirug yn byw, hogia' ni ydynt mewn gwirionedd - hogia' Ysgol Tan y Coed ac Eglwys Santes Helen. Rydym yn ymfalchïo yn eich llwyddiant gyda'ch cerddoriaeth arbrofol. 'Ydi, mae canghennau Brigyn yn ymestyn,' fel y dywed Tudur Huws Jones. Maent wedi cael profiad bythgofiadwy o dreulio amser gyda theulu Cymreig o San Ffransisco, ac yn cael chwarae i wahanol gymdeithasau Cymreig. Cofiwch fod albwm newydd 'Brigyn 2' ar gael - anrheg da ar gyfer y Nadolig.

Llongyfarchiadau hogia' a phob dymuniad da i'r dyfodol.

CYFARCHION Y NADOLIG. Dymuna Mrs B. Pritchard, 10 Llys y Gwynt, 'Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda' i'w theulu, cymdogion a ffrindiau.

HWYL YR ŴYL. Dymunir siopa Nadolig llwyddiannus i chwi oll a hwyl fawr ar y paratoi mawr tuag at Ŵyl y Geni.




Parti cyd-adrodd Glesni yn cyflwyno Pres i'r Ysgol!




Emily Jones yn derbyn Tlws Mrs Eluned Porter.



Catrin Sara, dosbarth Meithrin, a dderbyniodd dair medal.



Lois Eifion, Prif Lenor oed Uwchradd.



Mared Jones, Prif Lenor oedran Cynradd.

R.M. (DIC) PARRY

PEINTIWR AC ADDURNWR

PRISIAU RHESYMOL

TAWELFA, PENISARWAUN

Ffôn: (01286) 870846


GWYN JONES

**FFENESTRI ERYRI
GARTH ISAF, LLANRUG**

(01286) 650764

neu

07050 357735



FFENESTRI

DRYSAU

DRYSAU PATIO

PORCHES

BYRDDAU FFASIA

CLADIO

CONSERFATERIS

DINORWIG

Miss Marian Jones, Minalt, 7 Bro Elidir, Dinorwig. 870292

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

MYNYDD GWEFRU. Prawn Sul, 11 Rhagfyr am 2.00 o'r gloch cynhelir Cyngerdd Nadolig yng nghwmni Côr Meibion Peris a Seindorf Arian Deiniolen. Dewch yn llw i dreulio awr ddifyr. Nid oes tâl mynediad ond fe wneir casgliad at gronfa 'Diabetes Endowment Fund Ysbyty Gwynedd Bangor'.

DOSBARTH CYNGANEDDU

Bwriedir dechrau dosbarth cynganeddu ym Methel wedi'r Nadolig. Y tiwtor fydd y bardd amryddawn, Karen Owen, sydd wedi bod mor agos i gipio y Gadair a'r Goron mewn Eisteddfodau Cenedlaethol yn ddiweddar. Hi hefyd yw Golygydd y cylchgrawn *Golwg*. Bydd y sesiynau dwy awr yn agored i bob haen o 'feirdd' o'r profiadol i'r 'dechreuwr'. Y mae cryn ddiddordeb yn cael ei ddangos yn y fath grwpiau ledled Cymru ar hyn o bryd. Os oes gennych ddiddordeb - yn hen neu ifanc - mewn ymuno â'r grwp cysylltwch â Richard Llwyd (670115).

CLWB ORWIG. Aeth aelodau'r clwb uchod ar ymweliad â Chanolfan Elizabeth Bradley yn Llangoed yn ddiweddar. Yno hefyd cyflwynwyd tusw o flodau i

Betty Lloyd Roberts ar ei phen-blwydd.

Ar ddydd Iau, 18 Hydref, aeth yr aelodau i Ganolfan Garddio Treborth i fwynhau cinio ym Mwyty Merlin ar achlysur dathlu pumed pen-blwydd y clwb. Derbyniodd Mrs Margaret Faulkener, Mrs Joan Glass a Miss Morfudd Jones flodau ar eu pen-blwydd hwythau.

Diolchodd y Llywydd i Ray a Betty Bower, swyddogion y Clwb, am eu gwaith diflino a chanmoladwy dros y pum mlynedd. Cyflwynwyd rhodd o werthfawrogiad i'r ddau.

YN YR YSBYTY. Drwg gennym ddeall for Mrs Katie LLOYD Hughes yn Ysbyty Gwynedd. Mae Mrs Hughes o 2 Maes Eilian yn cartrefu ar hyn o bryd yn Bron Eryri, Llanberis. Brysiwch wella Mrs Hughes.

DIOLCH. Dymuna Mr Derek Williams, Bron Eilian, ddiolch o galon i Uned Gofal Dydd Ysbyty Eryri am eu gofal ac am eu caredigrwydd mawr tuag ato, ac hefyd i swyddogion yr Ambiwylans am eu gofal ohono. Diolch yn fawr iawn.

CLWB ORWIG. Mwynhaodd aelodau y Clwb Ginio Cynhaeaf yng Nghanolfan Fynydda Blue

Peris ar 27 Hydref. Betty Roberts a Morfudd Jones a enillodd y basgedi o ffrwythau a llysiau, rhoddedig gan y Veg Van. Diolchwyd hefyd i Mr Geraint Morris am ei rodd yntau o dorthau bychain i'r aelodau.

Llywyddwyd y cyfarfod ar 10 Tachwedd gan John Cantrell a chyflwynwyd tusw o flodau pen-blwydd yr un i Nellie Wyn Jones a Betty Ann Jones. Atgoffwyd

pawb a fu'n casglu darnau 5c at yr Ambiwylans Awyr i ddod â'r arian i law mor fuan â phosibl, fel y gellid eu cyflwyno i Miss Haf Thomas. Y Llywydd oedd y cwisfeistr yn y gystadleuaeth 'Adnabod Bwydydd'. Rhoddwyd y te oedd Ann Lo a Margaret Faoukener ac enillwyd y gwobrau raffl gan Elizabeth Jones ac Alice Griffith.



Aelodau o Glwb Orwig, clwb i'r rhai dros hanner cant, gyda Ann Evans o'r gwasanaeth Ambiwylans Awyr Gogledd Cymru a Haf Thomas - hyrwyddwraig yr apêl i gasglu miliwn darn 5c ar gyfer y gwasanaeth. Cyflwynodd y clwb dros 2250 o ddarnau 5c i Ann.

Cefnogwch ein Hysbysebwyd



Nadolig Trydanol yn Mynydd Gwefru LLANBERIS



Siop Nadolig NEWYDD AR AGOR

Anrhegion a nwyddau i'r teulu i gyd
Bwyd cartref ar gael trwy'r dydd
Techniquest i'r plant ddysgu a chwarae
Oriol a lluniau cain ar werth
Agor 10.30am tan 4.30pm

GWEITHGAREDDAU PENWYTHNOS

Rhagfyr 3 a 4
Crefftaw, Arlunio, Goleuo'r Goeden
Rhagfyr 10 a 11
Penwythnos Cynnyrch Lleol
Rhagfyr 17 a 18
Cerddoriaeth a Llyfrau


Pleser o'r mwyaf yw i ni ddatgan ein diolch i bobl Llanberis a'r cylch am eu cefnogaeth yn ystod y flwyddyn a fu. Hoffem ddiolch i'r mudiadau sydd yn cwrdd yma yn rheolaidd ac edrychwn ymlaen at eich gwasanaethu eto y flwyddyn nesaf.



Mae staff Mynydd Gwefru yn dymuno Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd 'Gwefreiddiol' i holl ddarllenwyr Eco'r Wyddfa.



CROESAIR RHAGFYR



Ar draws

2. Un waith arall.
4. Pennaeth y cyfarfod
7. Mae angen hwn os nad oes trydan ar gael.
8. Arf saer coed.
9. Ffedog
11. Afon drwy Llangefni.
14. Hwyllo neu mordeithio.
16. Mae pob pet byw angen hwn.
19. Angen bwyd.
20. Heb ddiffyg.
22. Tynnu.
24. Sbert Jonathan Lomas.
25. Nid agor.
26. Llysieuyn salad.
28. Afon drwy Dolgellau.
31. Heb wallt.
34. Cewch lawer o bleser wrth ddarllen un o rhain.
35. Amhosib gwneud brechdan heb hwn.
37. Mae'n bosib adeiladu castell gyda hwn.
38. Rydym yn byw arno.
39. Afon drwy Bangor.
40. Nid yw'r gair yma yn hir iawn.
42. Lliw yr heddlu.
43. Teimlad yr ennillwr.
45. Peidiwch â gadael hon allan o'r bag.
47. Ffrwyth coch gyda'r hedyn ar y gwyneb.
48. Mae angen un siarp i dorri'n iawn.
49. Ffrwyth y dderwen.
50. Eiddo.
54. Cewch hyn yn aml iawn ble mae'r pelican yn croesi.
56. Os bydd rhain yn iawn ar nos Sadwrn, yna byddwch yn gyfoethog dros ben.
57. Y lleuad sy'n achosi hyn.
58. O'r un teulu a'r garlleg.
59. Mae hwn yn cuddio beth sydd yn y bath.
60. ... a tei.
61. Glanhau gyda hanner pom-pom.

I lawr

1. Cartref amddiffynnol Edward I.
2. Mae pengwin yn hoff iawn o'r stwff gwyn, oer yma.
3. Afon drwy Bethesda.
4. Ffrind gorau i ddyn, medda nhw.
5. Drws neu llaw.
6. Ein cymdogion dros y Ddyfrdwy.
9. Defnyddiwch un o rhain i siopa.
10. Mae gennych ddwy o rhain i weld y byd.
12. Brat
13. Defnyddir hwn mewn kannwyll.
15. Ofer.
17. Rhywbeth i chwythu i fyny yn y parti.
18. Ffurf cyhoeddus o gludo.
20. Dylir hwn fod yn ddiogel i gerdded arno.
21. Llusgo.
23. Enw arall i Cassius Clay.
26. Mr Bush
27. Sbio.
29. Tref ac afon yng Ngogledd Cymru.
30. Yr ail ddyn i sefyll ar y lleuad.
32. Tad fy nhad.
33. Mae'r tylwyth teg yn casglu rhain.
36. Nid yw'n hawdd.
38. Lleoliad parti te.
39. Brenin y bwrdd crwn.
41. Roedd 40 o rhain.
43. Lle i roi'r sbwriel.
44. Rydych yn debygol o ddringo rhain pob dydd.
46. Cewch liw ar eich bysedd wrth wneud hyn.
47. Anifail gyda trwyn smwt a chynffon troell.
49. Ffrwyth melyn.
50. Sawl llygoden dall.
51. Byddwch angen hwn i gychwyn y goelcerth.
52. Arf saer coed.
53. Byddwch yn hwyr heb hwn.
55. Fel mae un yn cau, agorir un arall.

Cefais 13 croesair llawn ag un cystadleuydd wedi methu ar yr ateb i cliw 13 ar draws. Yn anffodus, dim ond chwech o rhain oedd yn gywir. Mae'n amlwg bod 13 ar draws, 23 i lawr a 25 ar draws wedi achosi problemau i lawer o gystadleuwyr, er bod eu hatebion yn ffitio i mewn, nid oeddynt yr un ateb a'r un oedd gen i.

Roedd dau o'r chwech cywir wedi sillafu un gair yn anghywir, felly'n gadael pedwar i mi ddewis. Roedd tri o'r rhain o Lanberis, oes ychydig o gyd-gynllwyn yma?

Wedi rhoi'r pedwar cywir mewn het, y pedwerydd cystadleuydd sydd wedi dod allan yn gyntaf...

Llongyfarchiadau i Dilys A. Pritchard-Jones o Ynys, Abererch.

Atebion cywir erbyn 12 Rhagfyr i Tecwyn Vaughan,

Gwirfoddolwyr y Mileniwm

Llongyfarchiadau i Nia Glyn o Fethel am ennill 'Gwobr Rhagoriaeth' dan gynllun Gwirfoddolwr y Mileniwm. Disgybl chweched dosbarth yn Ysgol Brynrefail, a'i bryd ar fynd yn feddyg yw Nia Glyn, ac ym mis Tachwedd y llynedd cyslltodd â Mantell Gwynedd er mwyn cofrestru ar gynllun Gwirfoddolwr y Mileniwm.


Cynllun ledled gwledydd y DG yw Gwirfoddolwyr y Mileniwm gyda'r nod o hyrwyddo a chydabod gwirfoddoli gan bobl ifanc rhwng 16-24 oed. O gyfrannu 100 awr o'u hamser mewn blwyddyn, bydd person ifanc yn derbyn tystysgrif. Os llwyddir i gyflawni 200 awr o wirfoddoli mewn blwyddyn, bydd person ifanc yn derbyn 'Gwobr Rhagoriaeth' gan Brif Weinidog Cymru yn brawf o'u hymroddiad.

Mantell Gwynedd, sef Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Gwynedd, yw'r corff lleol sydd yn gallu cofrestru a rhoi gwybodaeth i bobl ifanc Gwynedd am y cynllun.

Erbyn Awst eleni roedd Nia wedi gwirfoddoli am 204 o oriau - 52 ohonynt fel person ar ddyletswydd Cymorth Cyntaf gyda'r Groes Goch yn Eisteddfod Eryri a'r cyffiniau. Bu hefyd yn gwirfoddoli yn Ysgol Pendalar, ac Urdd Ambiwlans Sant Ioan. Pleser o'r mwyaf oedd i Joan Wyn Hughes, Cadeirydd Biwro Gwirfoddolwyr Gwynedd, gyflwyno 'Gwobr Rhagoriaeth' i Nia yn ystod Cyfarfod Blynyddol Mantell Gwynedd ym Mhortmeirion ym mis Tachwedd. Llongyfarchiadau calonnog i ti Nia.

Os hoffech ragor o wybodaeth am Gynllun Gwirfoddolwr y Mileniwm neu am unrhyw agwedd o wirfoddoli yn gyffredinol, cysylltwch â Mantell Gwynedd ar 01286 672626 neu e-bostiwrch: biwro@mantellgwynedd.com.

Tremallt, Waunfawr, Gwynedd LL55 4YY, gan nodi CROESAIR ar yr amlen, os gwelwch yn dda.



RHODDION

£15: Er cof am, dad a fuasai yn 100 oed ar 16 o Ragfyr, gan Elizabeth, Griff ac Eluned, 7 Stryd Siarlot (gynt);

£10: Er cof am Dilwyn Roberts, Mynydd Llandegai a Jennie Morris Jones, 1 Maes Gwylfa Deiniolen gan Lilian May Roberts, Penceunant Tea Rooms, Snowdon Path, Llanberis; Mrs Annie Jones, Eilionwy, Llanrug; Er cof am Llewelyn Hughes, Cwm y glo; Mrs Olive Jones, 1 Hafod Olau, Deiniolen; Mr Ernest Jones, Hafan, Porth y Gogledd, Deiniolen; A. Wilson Evans (Nan-Nan), Manod, Ffordd Capel Coch, Llanberis; Mr a Mrs R. Lloyd Roberts, Northampton.

£5: Rhys Pleming, Bryn Moelyn, Llanrug; Gwenlli Williamd, 5 Pant y Waun, Waunfawr; Ted Roberts, Bod Gwilym, Cwm-y-glo; Mary, Llwyn Afon, a Margaret, Y Dalar Deg, Waunfawr; Mrs B. Pritchard, 10 Llys y Gwynt, Penisarwaun; Mr a Mrs R. Griffiths, Groeslon Isaf Cottage, Penisarwaun; John Maldwyn a Mair, Tan y Buarth, Bethel; Gwyneth Williams, Llain yr Ardd, Bethel.

£4: Mr a Mrs Bobby Owen, Caethro.

£1: Di-enw, Caethro.

GWASANAETH LLEOL AR GYFER
PARTION • PRIODASAU
PEN-BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU

**RHOSTIO
MOCHYN**
AR GYFER
POB ACHLYSUR

* Cig o ffermydd lleol

* Partion rhwng 40 a 400!

* Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau

* Efo salad hefyd os dymunwch

DEWCS, MAE O'N FLASUS!

Cysylltwch â

JOHN BRYNAFON
LLANRUG

Y DYN CIG ar 675190 / 673188

Ffôn symudol: 07798 718788

wefan: www.ydyncig.co.uk

CHWARAEON

'Daw Dydd y Bydd Mawr y Rhai Bychain'

Erbyn i chwi ddarllen y golofn hon, bydd cyfarfod 'anghyffredin' yn ymwneud â phêl-droed yr ardal wedi digwydd. Yr erlynwyr yw cymdeithas Pêl-droed Cymru, a'r diffynnyddion yw Cynghrair Arfon. Yn ôl y Gymdeithas mae'r gynghrair lleol yn torri'r rheolau trwy wahardd unrhyw chwaraewr sydd wedi arwyddo i un o'i chlybiau rhag arwyddo i unrhyw glwb arall. Un chwaraewr, un clwb. Dadl y gynghrair lleol yw fod dehongliad U.E.F.A. yn awgrymu mai un chwaraewr un clwb ddylasai fod y norm.

Un sgil-ffaith o benderfyniad criw Arfon yw fod clybiau Bangor, Caernarfon a Phorthmadog yn cael anhawster cael tîm ar gyfer cystadleuaeth dan 21 y Gynghrair Genedlaethol, sydd yn ei hanfod yn syniad da. Y mae'n ymgais bositif i bontio'r 'criw coll' rhwng pêl-droed ieuenctid a'r gem hyn.

Mae 'ffyddlondeb' i glwb wedi gwario ers sawl tymor bellach, ac rydym i gyd yn ymwybodol o'r 'casglwyr tlysau.'

Ers sawl tymor, yn y colofnau hyn, rwyf wedi dadlau y dylasai'r timau 'mawr' redeg timau ieuenctid yn y gynghrair lleol. Dyma'r ffordd i bontio'r gwaith da yn yr 'academi' a phêl-droed hyn, a dal i gynnal lefel uchel o hyfforddi. Ydy hyn yn fwy llesol na taflu arian at chwaraewyr 'dŵad'?

Nid oes gan Fangor na Chaernarfon ail dimau o gwbwl, ac mae ail dîm Port yng Nghynghrair Gwynedd. Tipyn o naid i rhywun sy'n colli ei le yn y tîm cyntaf.

O dan strwythr yr F.A., dim ond un bleidlais sydd gan y cynghreiriaid lleol en bloc. Anodd gweld felly, sut y gallant sefyll i fyny yn erbyn 'brawd mawr'. Edrychwn ymlaen at ganlyniad yr achos.

Cynllun Arloesol

Cŵyn gynyddol ym myd y campau y dyddiau hyn yw fod sgiliau elfennol plant yn dirywio. Rhoir sawl rheswm am hyn: llai o wersi ymarfer corf, llai o redeg naturiol, gwylio teledu am oriau ac yn y blaen. I geisio atal y dirywiad mae siawns y bydd cynllun arloesol yn cael ei gyflwyno yn yr ardal.

Croeso i SOCATOTS

Beth yw SOCATOTS? Cynllun i feithrin y sgiliau cynhenid ymysg plant meithrin rhwng un a phedair oed. I ddatblygu'r sgiliau, gweithir ar agweddau o ffitrwydd a sgiliau symud sy'n gweddu i gemau, yn enwedig pêl-droed. Buasai'r plant yn mynychu un neu ddwy o sesiynau yr wythnos. Buasai'r sesiynau un awr o hyd yn gymysgedd o gemau, hwyl, cerddoriaeth a chyd-chwarae.

Y mae'r cynllun wedi ei seilio ar gynllun y Futebol de Salao, yn ysgolion Brasil. Prif ganolfan y mudiad ym Mhrydain yw Leeds.

Eisioes mae 600 clwb SOCATOTS yn Lloegr, gyda

llond llaw yn unig yn ne Cymru.

Trefnydd y fenter yn lleol yw Jim Lyon o Lanberis. Buasai yn falch os buasai unrhyw riant gyda diddordeb yn y cynllun yn cysylltu ag o. Yr un modd buasai'n falch pe buasai rhai yn cymeryd diddordeb mewn bod yn hyfforddwyr. Yr apêl yw i gael siaradwyr Cymraeg, achos dyma fydd iaith yr hyfforddi. Buasai'n rhaid i'r darpar hyfforddwyr gael eu harchwyllo ynglŷn â Deddf Gwarchod Plant, ac yna dilyn y cwrs hyfforddi.

Yn amlwg mae yn fantais os oes gan yr ymgeisydd brofiad blaenorol o weithio gyda phlant.

Eisioes mae Jim yn cael cefnogaeth Dafydd Einion Jones, (Cyngor Gwynedd), a Trefor Edwards y cynghorydd Sir lleol.

Os oes diddordeb, gellir cysylltu â Jim yn: 22 Ffordd Tŷ Du, Llanberis LL55 4LH jim@mountainventures.co.uk 07734038266.

Rhedwyr Chwim eu Traed

Ydy plant yn cadw llyfr sgrap heddiw? Oes gwefr o weld eu lluniau yn yr *Eco* neu'r *Caernarfon and Denbigh*? Y rheswm dros y cwestiwn yw i mi dderbyn llun o'r *Cymro* - y papur cenedlaethol - o ganol y 1950'au. Yn y llun mae aelodau tîm rhedeg traws gwlad Ysgol Brynrefail yn y gwahanol oeddrannau oedd wedi cystadlu yn y gystadleuaeth sirol - Sir Gaernarfon yr adeg hynny. Y gamp oedd cwblhau cwrs o dair milltir, cwrs oedd yn gyfarwydd mae'n siŵr i lu ohonoch chi, gyn-ddisgyblion. Yr enwau a gefais oedd:

(*Cefn*): Ifan Jeff, Ken, ? , Dennis, Eryl Hughes.

(*Blaen*): Harri Owen, Arwel, Islwyn Jones, Cecil Jones, Gwilym Jones.


Oes un o'r criw yn dal i gofio'r achlysur?

Gyda llaw, ar gefn y llun roedd rhan o golofn farddol Meuryn, ac yno roedd y ddau bennill yma.

Er bod y lle yn dywyll, A'r deuoedd ar bob tu, Roedd llafn o olau llachar Yn twynnu oddi fry.

Nid 'Bethel', ac nid 'Seion' Oedd enw'r difyr le, Ond enw llai cyffredin - Paladium crand y dre'.

Ffynnon Groyw yw'r ffugenw, ond tybed ai rhywun lleol yw'r awdur?



GWYNANT PIERCE

Cynyrchion Coed:
Gatiau, Ffensus ac ati
am brisiau cystadleuol

Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG

Ffôn: (01286) 674183
(0589) 899901

**Peidiwch a Gori
ar Stori
anfonwch hi i'r
ECO**

George Best

Pob tymor 'mestyn y gorwel - i'w gamp,
Yna'r gwmp anochel,
Bydd dedfryd gwŷr 'byd y bêl'
Uwch cur ysbyty'r botel.

RLJ



Harddwch eich cartref gyda

FFENESTRI CELTIC WINDOWS

FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS
CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL

Busnes teuluol gyda blynyddoedd o brofiad
Ffoniwch - 'dio'n costio dim i gael pris

HEN YSGOL GLANMOELYN
LLANRUG LL55 2RG



(01286) 678618 (dydd)
(01248) 670081 (nos)



CARPEDI GERAIN OWEN

GWERTHWR CARPEDI, TEILS CARPED A FEINYL
CANNOEDD O DDEWIS O BATRYMAU A RHAI MEWN STOC

FFONIWCH UNRHYW AMSER:

WAUNFAWR (01286) 650552

ARVONIA



- Gwyliau cerbyd Prydeinig a Chyfandirol.
- Rhaglen Triplau Dyddiol.
- Cerbydau moethus ar gael ar gyfer llogi preifat.
- Cerbyd 7 ac 14 sedd ar gael ar gyfer teithwyr maes awyr ac ar gyfer llogi preifat.
- Adran teithiau grŵp - yr holl drefniadau wedi'u gwneud: archebiadau gwesty a llong, teithiau, archebiadau theatr a digwyddiadau.



Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

Ffôn: 01286-675175 Ffacs: 01286-671126 E-bost: info@arvonian.co.uk
Gwefan: www.arvonian.co.uk